WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

2 Tachwedd 2006
www.wao.gov.uk

# Mynediad cyhoeddus i gefn gwlad



ⓗ Archwilydd Cyffredinol Cymru 2006

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Roedd tîm Swyddfa Archwilio Cmyru aõm cynorthwyodd i baratoi 'r addrodiad hwn yn cynnwys Paul Dimblebee, Donna Fanariotis, Rob Powell a David Tolley.

Llun y clawr:Teulu ar lwybr Bryn Tain, Dornach FD, Comisiwn Coedwigaeth

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae'n archwilio ac yn gwirio ac yn ardystio cyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan, neu sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad, gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Hefyd, mae ganddo'r hawl statudol i wneud adroddiad ar gynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cyrff hynny ac i wella'u defnydd o adnoddau wrth gyflawni'u dyletswyddau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal a hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn archwilio cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau dan Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Fodd bynnag, er mwyn diogelu safle cyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'r adrodd yn ôl yn benodol i'r Cynulliad ar y gwaith llywodraeth leol hwn.

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, byddwch cystal ag ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod; ffôn 029 2026 0260, e-bost: wales@wao.gov.uk, neu ymwelwch â'r wefan http://www.wao.gov.uk

Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 2 Tachwedd 2006



## Crynodeb 6

Argymhellion 11

## 1 Rhan 1: Mae cyflwyno Rhan 1 CGHT yn effeithiol wedi cynyddu faint o dir sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd, ac mae gwersi i hysbysu gwella mynediad i'r arfordir 15

Mae cyflwyno Rhan 1 CGHT wedi cynyddu faint o dir sydd ar gael yn gyfreithiol at ddefnydd y cyhoedd 15

Rheolwyd cyflwyno Rhan 1 CGHT yn llwyddiannus 15

Mae gwersi ar gyfer gwella mynediad i'r arfordir 21

## 2 Rhan 2: Mae dangosyddion yn awgrymu bod defnydd y cyhoedd ar gefn gwlad wedi cynyddu, ond bydd cynnydd pellach yn galw am ledaenu arfer da a goresgyn rhai rhwystrau 27

Mae dangosyddion yn awgrymu bod defnydd y cyhoedd ar gefn gwlad wedi cynyddu ond bod grwpiau dan anfantais yn gwneud llai o ddefnydd o'u hawliau mynediad ac nad yw pob defnydd yn ddefnydd cyfrifol 27

Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru wedi datblygu arfer da sylweddol er mwyn annog defnydd cyhoeddus cynyddol ar gefn gwlad 31

Rhaid goresgyn rhai cyfyngiadau i annog mwy o bobl i ddefnyddio cefn gwlad 54

Gellid targedu gwybodaeth yn well tuag at y rheiny sydd byth neu'n anaml yn ymweld â chefn gwlad 61

Mae isadeiledd y cludiant yn rhwystr i gael mynediad i gefn gwlad 61

# Cynnwys

## Atodiad


Atodiad 1: Methodoleg 62

Atodiad 2: Dosbarthiad tir CGHT yn ôl awdurdod mynediad lleol 65

Atodiad 3: Seiliwyd dosbarthu adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu CGHT gan Lywodraeth y Cynulliad ar boblogaeth ac arwynebedd tir yn hytrach nag ar hyd yr hawliau tramwy 66

Atodiad 4: Mae awdurdodau mynediad lleol wedi treulio cyfran gynyddol o'r adnoddau ychwanegol sy'n ymwneud â CGHT ac a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar weithredu CGHT 67

Atodiad 5: Mae perfformiad yn erbyn dangosydd perfformiad Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer pa mor hawdd y gall y cyhoedd ddefnyddio hawliau tramwy yn isel, a gwnaethant gwympo rhwng 2003 a 2005 69



# Crynodeb

1 Cefn gwlad Cymru yw un o'i phrif asedau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n credu bod mynediad i gefn gwlad yn chwarae rhan allweddol mewn adfer gwledig, gyda manteision o ran iechyd, hamdden, a manteision economaidd a chymdeithasol sylweddol yn deillio o'r defnydd cyhoeddus ar gefn gwlad. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad amcan polisi o gynyddu hawliau mynediad statudol y cyhoedd i gefn gwlad ac o gynyddu'r defnydd cyfrifol ar yr hawliau hynny. Fesul cam y daeth Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CGHT) (Blwch 1) i rym yng Nghymru. Daeth hawl mynediad cyhoeddus i gefn gwlad agored , sy'n hysbus fel Rhan Un, i rym ar 28 Mai 2005, yn gam sylweddol tuag at gyflawni amcan Llywodraeth y Cynulliad trwy gynnig hawliau mynediad statudol i rai categorïau penodol o dir.

2 Mae'r hawliau tramwy newydd wedi cynyddu faint o dir sy'n hygyrch i'r cyhoedd a golygodd gymodi diddordebau cyferbyniol, yn enwedig rhwng y rhai sy'n berchen y tir a effeithir a'r rhai sy'n dymuno cael mynediad i'r tir. Golygodd cyflwyno CGHT gydweithio rhwng ystod eang o sefydliadau sector cyhoeddus: Llywodraeth y Cynulliad a osododd y fframwaith rheoli, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) a arweiniodd y paratoadau ar gyfer ei gyflwyno; y 25 awdurdod mynediad lleol yng Nghymru (y 22 awdurdod lleol a'r tri awdurdod parc

### Blwch 1: Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CGHT) 2000

**Rhan 1**

Cyflwyno hawl mynediad statudol newydd o ran hamdden awyr agored i dir mynydd, tir gweunydd, rhostiroedd, twyni a thir comin cofrestredig, gan ddatganoli'r grym i ymestyn yr hawl i arfordiroedd i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rhoi hawliau cyfyngedig hefyd i dirfeddianwyr i atal mynediad dros dro.

**Rhan 2**

Cyflwyno dyletswydd statudol ar awdurdodau mynediad i gynhyrchu i gynhyrchu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a gosod terfyn amser ar gyfer cwblhau'r map hawliau tramwy terfynol. Mae hefyd yn gofyn ar i'r awdurdodau mynediad gymryd anghenion y rheiny sydd â phroblemau symud i ystyriaeth.

**Rhan 3**

Cynyddu gwarchodaeth gyfreithiol i fywyd gwyllt a nodweddion naturiol, gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

**Rhan 4**

Cyflwyno darpariaethau i ganiatáu rheoli a gwarchod Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn well.

**Rhan 5**

Cyflwyno dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol i sefydlu fforymau mynediad lleol, er mwyn cynghori'r awdurdodau sy'n trefnu ar wella mynediad cyhoeddus i dir ar gyfer hamdden a mwynhad awyr agored.





Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

cenedlaethol) oedd yn gyfrifol am weithredu CGHT yn eu hardaloedd; a chlustnododd y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru y rhan fwyaf o'i diroedd rhydd-ddaliadol (a reolwyd ar ran Llywodraeth y Cynulliad) yn dir mynediad cyhoeddus o dan CGHT. Ym Mehefin 2006, cyhoeddodd y Prif Weinidog raglen pedair i bum mlynedd i wella mynediad cyhoeddus i'r arfordir trwy welliannau i lwybrau presennol yr arfordir a thrwy greu rhai newydd.

3 Ni fydd y manteision mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu deisyfu yn cael eu gwireddu ond os oes cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n mynd i gefn gwlad. Yn ei strategaeth chwaraeon a gweithgaredd corfforol *Dringo'n Uwch*, gosododd Llywodraeth y Cynulliad dargedau uchelgeisiol erbyn 2025: cynyddu canran y bobl sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol ar gyfer gweithgareddau awyr agored; ac i sicrhau bod 95 y cant o'r boblogaeth yn byw o fewn pellter cerdded deng munud i lwybr troed neu lwybr beicio.

4 Edrychom i weld a yw Cymru'n gwneud cynnydd da tuag at wireddu amcan Llywodraeth y Cynulliad o gynyddu hawliau mynediad statudol y cyhoedd i gefn gwlad ac o gynyddu'r defnydd cyfrifol ganddynt ar yr hawliau hynny.

5 Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth roi tir mynediad newydd ar gael ac i hyrwyddo rhagor o ddefnydd cyhoeddus ar gefn gwlad. Fodd bynnag, er mwyn annog cynnydd pellach yn y defnydd, mae angen rhannu arfer da a goresgyn rhwystrau, yn enwedig wrth godi proffil materion mynediad i gefn gwlad a gwella cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy.



Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Mae cyflwyno CGHT yn effeithiol wedi cynyddu faint o dir sydd ar gael ar gyfer defnydd y cyhoedd, ac mae gwersi i lywio gwella mynediad i'r arfordir

**6** Mae cyflwyno Rhan 1 CGHT wedi cynyddu faint o dir y gall y cyhoedd gael mynediad cyfreithlon ato i 21 y cant o arwynebedd tir Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu £2.4 miliwn i'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru bob blwyddyn er 2001/2002 i'w cynorthwyo i ymgymryd â'u cyfrifoldebau o dan CGHT. Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi derbyn codiadau yn eu grantiau gan Lywodraeth y Cynulliad yn hytrach na derbyn siâr o'r £2.4 miliwn. Cyflawnodd Llywodraeth y Cynulliad a'r CCGC eu cyfrifoldebau o dan Deddf CGHT mewn da bryd ac o fewn y dyraniadau ariannol bras a roddwyd iddyn nhw, a gweithiodd partneriaid sector cyhoeddus yn effeithiol gyda'i gilydd a chyda thirfeddianwyr er mwyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd. Y canlyniad oedd y gallai'r cyhoedd yng Nghymru gael mynediad i'r tir newydd CGHT o 28 Mai 2005, fel y cynlluniwyd.

**7** Roedd cyflwyno Rhan 1 CGHT yn llwyddiannus yn ganlyniad perfformiad effeithiol mewn nifer o feysydd allweddol, a allai gynnig gwersi defnyddiol ar gyfer y gwelliannau arfaethedig o ran mynediad i'r arfordir:

- **a** dyrannwyd adnoddau ychwanegol yn amserol er mwyn cefnogi cyrff sector cyhoeddus wrth ymgymryd â'u dyletswyddau statudol newydd;
- **b** roedd cydweithio â'r tirfeddianwyr a effeithiwyd, yn eu cyfanrwydd ac yn unigol, yn ffactor allweddol yn y llwyddiant trwy holl broses y cyflwyno;
- **c** cynorthwyodd y rhaglenni prawf, a gynhaliwyd gan CCGC a'r Bwrdd Croeso gynt, yr awdurdodau mynediad lleol gyda'r cyflwyno;
- **d** roedd ymrwymiad gan holl adrannau perthnasol sector cyhoeddus Cymru, a arweiniwyd yn weithredol gan CCGC oddi mewn i'r fframwaith polisi a osodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, i weithio ar y cyd yn allweddol i weithredu effeithiol, wrth i'r rhan fwyaf o'r fforymau mynediad lleol chwarae rôl bwysig yn eu hardaloedd; a
- **e** gwnaeth awdurdodau mynediad lleol gynnydd sylweddol tuag at sicrhau bod y rhan fwyaf o'r tir mynediad agored newydd yn hygyrch trwy wella'r hawliau tramwy sy'n arwain at y tir mynediad agored newydd a thrwy greu neu wella safleoedd mynediad.

**8** Yn ogystal â chymryd y ffactorau llwyddiant yma yn eu blaenau i wella mynediad i'r arfordir, daethom o hyd i nifer o feysydd lle gellir dysgu gwersi o gyflwyno CGHT:

- **a** roedd gwendidau yn y ffordd y dyrannwyd yr arian ychwanegol, ac yng ngallu awdurdodau mynediad



lleol i adrodd yn gyson am eu defnydd o'r arian hwn ar wahân i wariant arall ar fynediad i gefn gwlad; ac

b nid oedd rhai awdurdodau mynediad lleol yn ystyried bod cynlluniau prawf CCGC yn berthnasol iddyn nhw.

## Mae dangosyddion yn awgrymu bod defnydd y cyhoedd ar gefn gwlad wedi cynyddu, ond bydd mwy o gynnydd yn golygu lledaenu arfer da a goresgyn rhwystrau er mwyn codi proffil mynediad i gefn gwlad a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy

9 Mae mynediad i gefn gwlad yn bwysig iawn i'r economi wledig, gydag amcangyfrif bod twristiaeth cerdded yn werth £550 miliwn y flwyddyn yng Nghymru. Gall hefyd wella iechyd a lles pobl a chefnogi cludiant cyhoeddus gwledig. Mae nifer y bobl sy'n defnyddio cefn gwlad ar gynnydd, wrth i'r cyhoedd yn gyffredinol, cerddwyr a thirfeddianwyr nodi cynnydd bychan yn nifer y rheiny sy'n mynd ar dir CGHT er Mai 2005.

10 Daethom o hyd i nifer o enghreifftiau o arfer da gan awdurdodau mynediad lleol wrth annog cynnydd yn y defnydd ar gefn gwlad. Cafwyd nhw'n bennaf yn y meysydd canlynol:

a **Defnyddio'r gwasanaeth addysg** i hybu defnydd cyfrifol ar gefn gwlad;

b **annog grwpiau sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n gymdeithasol i ymweld â chefn gwlad,** er enghraifft trwy dargedu pobl anabl mewn arolygon ynghylch mynediad, trwy gynnal ymweliadau i arweinwyr grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gefn gwlad, a thrwy dargedu adnoddau mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf i hybu cynyddu defnyddio cefn gwlad ymysg y trigolion lleol;

c **gweithio ar y cyd i hybu mynediad,** er enghraifft trwy ariannu swydd ceidwad ar y cyd rhwng awdurdod parc cenedlaethol a chwmni twristiaeth, a thrwy bartneriaethau aml-asiantaeth rhwng sefydliadau sector cyhoeddus i greu a chynnal llwybrau pellter hir;

d **cynnwys cynghorau tref a chymuned, gwirfoddolwyr a'r Gwasanaeth Prawf mewn gwella hawliau tramwy a chyfleusterau cefn gwlad,** er enghraifft trwy gytundebau ffurfiol â chynghorau tref a chymuned i ymgymryd â chynnal hawliau tramwy ar ran yr awdurdodau mynediad lleol, a thrwy ddefnyddio grwpiau o wirfoddolwyr profiadol a throseddwyr o dan arolygiaeth y Gwasanaeth Prawf i wella hawliau tramwy a chyfleusterau cefn gwlad;

e **darparu gwybodaeth o safon uchel,** fel mapiau llwybrau cerdded cefn gwlad wedi'u codio â lliwiau ar wefannau awdurdodau mynediad lleol, y defnydd o daflenni, llyfrynnau, pamffledi a thaflenni newyddion, a chynnal digwyddiadau penodol i hybu mynediad i gefn gwlad;

f **mentrau'n cysylltu mynediad i gefn gwlad â hybu iechyd,** fel prosiectau sy'n hybu cerdded yng nghefn gwlad ymysg grwpiau allweddol fel yr henoed neu gleifion cardiaidd; a

g **chynlluniau cludiant,** i fynd i'r afael â diffyg cludiant cyhoeddus digonol i gefn gwlad ac oddi mewn i gefn gwlad, yn enwedig y rheiny sy'n integreiddio ffurfiau ar gludiant gwahanol.

11 Er mwyn annog y cyhoedd i ddefnyddio mwy ar gefn gwlad, mae hi'n bwysig yn benodol i awdurdodau mynediad lleol gael mynediad parod at wybodaeth ynghylch yr hyn sydd wedi

gweithio'n dda mewn awdurdodau eraill. Er i ni ddod o hyd i lawer o enghreifftiau o arfer da a digwyddiadau i'w hyrwyddo, mae sgôp i ddatblygu peirianwaith mwy effeithiol i ledaenu arfer da yn fwy rheolaidd er mwyn cefnogi'r cynnydd mewn mynediad cyhoeddus. Rydym ni wedi cynhyrchu rhestr wirio hunanasesiad i helpu awdurdodau mynediad lleol i gymharu eu sefyllfa gyfredol â'r arfer da y daethom ni o hyd iddo, a'i rhoi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk ).

**12** Yn ogystal â diffyg lledaenu arfer da'n effeithiol, mae mwy o ddefnydd ar gefn gwlad yn cael ei rwystro gan:

- **a** gyflwr gwael y llwybrau troed;
- **b** amharodrwydd lleiafrif bychan o dirfeddianwyr i gydweithredu;
- **c** y flaenoriaeth isel a roddir i fynediad i gefn gwlad gan awdurdodau mynediad lleol, o ran:
  - **i** dyrannu adnoddau; a
  - **ii** chynnwys materion mynediad cyhoeddus mewn strategaethau perthnasol
- **d** mewn rhai ardaloedd, nid yw awdurdodau mynediad lleol a fforymau mynediad lleol wedi gweithio gyda'i gilydd mor effeithiol ag y gallent i hybu defnydd cynyddol ar gefn gwlad gan y cyhoedd;
- **e** yn gyffredinol, rhoddwyd sylw annigonol i ofynion pobl anabl, i ofynion y rheiny sydd o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl o ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol; a
- **f** diffyg cludiant cyhoeddus i ardaloedd gwledig ac oddi mewn i'r ardaloedd hyn.

**13** O'i hasesu yn erbyn dangosydd perfformiad 6.10 (Atodiad 5) Llywodraeth y Cynulliad, mae hawliau tramwy (llwybrau cyhoeddus) Cymru mewn cyflwr gwael, gyda llai na hanner cyfanswm hyd y rhwydwaith yn cael ei ystyried yn hawdd i'w defnyddio. Mae'r rhwydwaith yn hanfodol i gynyddu'r defnydd ar gefn gwlad trwy alluogi'r cyhoedd i gael mynediad i gefn gwlad a symud o'i gwmpas. Er bod awdurdodau mynediad lleol yn blaenoriaethu gwaith cynnal a gwella ffyrdd hawliau tramwy poblogaidd, mae cyflwr y rhwydwaith yn ei gyfanrwydd yn wael ac mae perygl o ddirywio pellach. Mae'r Ddeddf CGHT yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod mynediad lleol gynhyrchu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy erbyn diwedd 2007, sy'n asesu sut mae ei rwydwaith hawliau tramwy yn bodloni anghenion y presennol a'r dyfodol, a sut y mae'n bwriadu gwella'r rhwydwaith. Ar lefel genedlaethol, bydd paratoi'r Cynlluniau'n galluogi Llywodraeth y Cynulliad, CCGC a'r awdurdodau mynediad lleol i gael darlun strategol o gyflwr y rhwydwaith a'i reolaeth. Fodd bynnag, nid oes dyletswydd statudol i weithredu argymhellion y Cynlluniau, a bydd llawer yn dibynnu ar y flaenoriaeth a roddir i'w cyflwyno ag ar faint o arian a fydd ar gael.

**14** Er bod y rhan fwyaf o dirfeddianwyr yn cydweithredu â sector cyhoeddus Cymru ar fynediad cyhoeddus, ychydig o dystiolaeth y daethom ni o hyd iddi ynghylch hybu neu gosbi tirfeddianwyr sy'n amharod i gydweithredu. Mae awdurdodau mynediad lleol yn edrych ar gymryd camau cyfreithiol fel y dewis olaf oherwydd yr amser a'r gost mae ei'n olygu ac oherwydd yr effaith posibl ar berthynas â thirfeddianwyr.

**15** Nid yw cynyddu mynediad i gefn gwlad yn flaenoriaeth uchel gan awdurdodau mynediad lleol. Daethom o hyd i gytundeb helaeth ymysg rheolwyr cefn gwlad awdurdodau mynediad lleol, cadeiryddion fforymau mynediad lleol ac aelodau'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol bod



mynediad i gefn gwlad yn flaenoriaeth gymharol isel ar lefel lleol, sydd ag effaith ddilynol ar ddyrannu adnoddau mewn mwy na thri chwarter yr awdurdodau mynediad lleol. Gall y diffyg blaenoriaeth a'r diffyg adnoddau, yn ariannol a dynol, gyfaddawdu hybu cynyddu'r defnydd cyhoeddus ar gefn gwlad ac i wella cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol o'r diffyg cymharol hwn o flaenoriaeth ar lefel leol ac mae wedi ymgymryd ag, ac mae ganddi gynlluniau pellach ar gyfer, amryw o fentrau i fynd i'r afael â hyn.

**16** Nid yw mynediad i gefn gwlad yn cael ei gynnwys yn gyson yn strategaethau perthnasol yr holl adwurdodau lleol. Roedd yn rhan o strategaethau datblygu economaidd naw awdurdod lleol, mewn 16 o strategaethau neu bolisïau cludiant, ac mewn un yn unig allan o'r 22 o Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a gynhyrchwyd gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, roedd cerdded yn gyffredinol, yn hytrach na cherdded yng nghefn gwlad yn benodol, yn rhan o dros hanner o'r Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

**17** Er bod y berthynas rhwng yr awdurdodau mynediad lleol a'u fforymau mynediad lleol ar y cyfan yn un adeiladol, mewn rhai ardaloedd nid oedd yr awdurdod mynediad lleol yn credu bod y fforwm mynediad lleol (FfMLI) yn cyflawni ei rôl o ddarparu cyngor adeiladol ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i gefn gwlad. Mewn rhai eraill, credai cadeirydd yr FfMLI nad oedd yr awdurdod mynediad lleol yn cymryd cyngor y fforwm o ddifrif.

**18** Un o themâu allweddol y Cynulliad Cenedlaethol yw hybu cynhwysiad cymdeithasol. Mae rhoi sylw arbennig i anghenion grwpiau sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n gymdeithasol yn rhan ganolog o strategaethau allweddol Llywodraeth y Cynulliad, fel *Cymru: Gwlad Well* a *Gwneud y Cysylltiadau.* Fodd bynnag, mae polb anabl cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a thrigolion ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn mynd i gefn gwlad yn llai aml na'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Er fod rhai sefydliadau sector cyhoeddus yn dangos arferion da mewn perthynas â'r grwpiau hyn, mae angen gwneud mwy. Yn gyffredinol, nid yw sefydliadau sector cyhoeddus yn deall yn llawn ofynion penodol aelodau o'r grwpiau hyn a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu, ac nid ydynt wedi ymwneud â nhw'n gyson ynghylch materion mynediad i gefn gwlad.

**19** Mae trafnidiaeth gyhoeddus ddigonol yn rhwystr sylweddol. Er bod rhai gwasanaethau cludiant cyhoeddus gwledig da a rhai strategaethau gwasanaethau trafnidiaeth integredig sydd wedi eu cysylltu â chyrchfannau cerdded poblogaidd, mae diffyg trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn rhwystr allweddol i fynediad i gefn gwlad i lawer nad ydynt yn ymweld â chefn gwlad ar hyn o bryd.

## Argymhellion

### Blaenoriaethu

**a** Mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru, mae mynediad i gefn gwlad y flaenoriaeth gymharol isel ac nid yw'n cael ei gynnwys bob tro mewn strategaethau lleol allweddol, er gwaethaf pwyslais Llywodraeth y Cynulliad ar ei fanteision economaidd-gymdeithasol. **Rydym ni'n argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ymwneud â rhanddeiliaid allweddol fel CCGC a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i gymryd camau pellach i godi ymwybyddiaeth ymysg sefydliadau sector cyhoeddus lleol ynghylch y manteision cynyddu mynediad i gefn gwlad, er enghraifft trwy:**

**i** **lledaenu arfer da mewn rheolaeth mynediad i gefn gwlad;**

ii cynnal gweithdai'n cyflwyno manteision economaidd a chymdeithasol cynyddu mynediad i gefn gwlad; ac

iii ymgorffori pwysigrwydd cynyddu mynediad i gefn gwlad mewn canllawiau llunio strategaethau lleol perthnasol, er enghraifft mewn Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Chynlluniau Cludiant Lleol.

## Ariannu

**b** Roedd darpariaeth amserol ar adnoddau newydd i awdurdodau mynediad lleol yn bwysig wrth gyflwyno CGHT, er bod pryderon ynghylch sail eu dyraniad ac nad oedd llawer o awdurdodau wedi gwario'r adnoddau ychwanegol yn wreiddiol ar waith sy'n gysylltiedig â CGHT. **Wrth wella mynediad i'r arfordir, rydym ni'n argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried gwneud hyd cymharol yr arfordir a maint y gwaith sydd ei angen i gyflwyno mynediad arfordirol ym mhob ardal yn ffactorau wrth benderfynu ar ddosbarthu unrhyw adnoddau newydd penodol.**

## Monitro

**c** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu arian ychwanegol i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo â'u dyletswyddau sy'n gysylltiedig â CGHT. Adroddodd yr awdurdodau lleol yn ôl i Lywodraeth y Cynulliad yn wirfoddol ar wariant yr arian hwnnw ond cafodd rhai anawsterau wrth adrodd yn ôl yn gywir. **Er mwyn cyflwyno ffigurau cyson y gellir eu cymharu sy'n cefnogi monitro rhaglenni'n effeithiol, rydym ni'n argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn diffinio'n eglur y gwariant y dylai awdurdodau lleol ei gynnwys yn eu hadroddiadau. Dylai'r awdurdodau mynediad lleol perthnasol sicrhau bod ganddyn nhw systemau mewn grym sy'n olrhain eu gwariant ar wella mynediad i'r arfordir**

## Cynlluniau prawf

**d** Trefnodd CCGC nifer o gynlluniau prawf llwyddiannus wrth baratoi at gyflwyno CGHT yn raddol trwy Gymru gyfan, er nad oedd rhai awdurdodau mynediad lleol wedi ystyried bod y cynlluniau prawf yn berthnasol iddyn nhw. Er mwyn sicrhau perthnasedd unrhyw gynlluniau prawf arfordirol i'r holl awdurdodau arfordirol, **rydym ni'n argymell bod y CCGC yn ymgynghori â'r adwurdodau mynediad lleol perthnasol er mwyn sicrhau consensws bras bod y cynlluniau prawf yn cynnig digon o amrywiaeth o wahanol fathau o dirwedd arfordirol.**

## Cydweithio

**e** Roedd cydlynu rheolaidd rhwng y cyrff sector cyhoeddus a thirfeddianwyr yn nodwedd bwysig o weithredu CGHT yn llwyddiannus, yn enwedig o ystyried nad oedd yr holl dirfeddianwyr yn cefnogi'r egwyddor o fynediad cyhoeddus statudol i'w tir. **Wrth wella mynediad i'r arfordir, rydym ni'n argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad, CCGC a'r awdurdodau mynediad lleol gydweithio'n rhagweithiol â thirfeddianwyr yn y ffyrdd canlynol:**

- **dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys cynrychiolwyr tirfeddianwyr ar yr holl gyrff strategol perthnasol;**
- **dylai CCGC ddarparu gwybodaeth a chyngor ysgrifenedig ynghylch gwella mynediad i'r arfordir i'r holl dirfeddianwyr a fydd yn cael eu heffeithio; a**



- **dylai awdurdodau mynediad lleol wneud cysylltiad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â'r holl dirfeddianwyr a fydd yn cael eu heffeithio.**

f Gweithiodd sector cyhoeddus Cymru'n effeithiol gyda'i gilydd wrth gyflwyno Rhan 1 CGHT trwy ymgynghori, rhannu gwybodaeth a chynnig cyngor ac arweiniad. Yn ogystal â'r grŵp rhanddeiliaid a sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad, **rydym ni'n argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu grŵp ymgynghorol, yn debyg i Grŵp Llywio Cyfleoedd Cefn Gwlad ar gyfer CGHT, i oruchwylio gwella mynediad i'r arfordir.**

g Chwaraeodd y rhan fwyaf o fforymau mynediad lleol ran bwysig wrth gyflwyno Rhan 1 CGHT, ond mewn rhai ardaloedd nid yw awdurdodau mynediad lleol a fforymau mynediad lleol wedi cydweithio mor effeithiol ag y gallent i hybu cynyddu defnydd y cyhoedd o'u hawliau mynediad i gefn gwlad. **Dylai awdurdodau mynediad lleol gymryd camau gweithredol i wella'r berthynas â'u fforymau mynediad lleol. Er enghraifft, dylent ymateb i gyngor a sylwadau gan y Fforwm yn brydlon, gan nodi eu rhesymau dros dderbyn, dros dderbyn yn rhannol neu dros wrthod cyngor neu sylwadau.**

h Daethom o hyd i rai enghreifftiau da o ehangu mynediad i gefn gwlad trwy gynnwys gwirfoddolwyr, Cynghorau Cymuned a throseddwyr i ymgymryd â Gorchmynion Gwaith Di-dâl (Gorchmynion Gwasanaeth Cymunedol gynt) o dan arolygiaeth y Gwasanaeth Prawf, wrth gynnal llwybrau troed a chyfleusterau eraill. **Rydym ni'n argymell bod yr awdurdodau mynediad lleol i gyd yn ymwneud â Chynghorau Cymuned lleol, y Gwasanaeth Prawf, cyrff gwirfoddol a gwirfoddolwyr unigol i wneud y mwyaf posibl o'r llu o gyfleoedd i weithio gyda'i gilydd i ehangu mynediad i gefn gwlad yn gyffredinol ac i gynnal llwybrau troed yn benodol.**

## Arfer da

i Daethom o hyd i nifer o enghreifftiau o arfer da wrth gyflwyno CGHT ac wrth gynyddu defnydd y cyhoedd o gefn gwlad. Fodd bynnag, mae sgôp ar gyfer cyflwyno dull mwy cyson o ledaenu arfer da ac ar gyfer hunanasesu yn erbyn meincnodau arfer da. **Rydym ni'n argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ymwneud â rhanddeiliaid allweddol, fel CCGC a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i greu systemau ar gyfer lledaenu arfer da yn fwy rheolaidd i'r sefydliadau sector cyhoeddus perthnasol, er enghraifft trwy**

- **ystyried y posibilrwydd a'r gost o fforwm electronig; a**
- **hybu'r defnydd o restrau gwirio arfer da ynghylch mynediad i gefn gwlad.**

## Cynhwysedd

j Mae pobl anabl, aelodau cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a thrigolion Cymunedau'n Gyntaf yn gwneud defnydd isel anghyfartal o gefn gwlad. Mae rhai arferion da wrth hybu mynediad i gefn gwlad ymysg y grwpiau hyn, ond mae'n gyfyngedig. Er mwyn annog defnydd cynyddol o gefn gwlad ymysg y grwpiau hyn, **rydym ni'n awgrymu y dylai:**

- **Llywodraeth y Cynulliad a'r CCGC nodi a lledaenu arfer da sy'n arwain at gynnydd yn y defnydd o gefn gwlad ymysg y grwpiau hyn; ac y**

- **dylai awdurdodau mynediad lleol:**
- **gymhwyso'r arfer da hwn yn eu hardaloedd;**
- **ymgynghori ac ymwneud â sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau sydd dan anfantais ynghylch mynediad i gefn gwlad;**
  - **ystyried mynediad i'r anabl yn ffactor mewn gwaith cynnal a gwella hawliau tramwy a chyfleusterau mynediad eraill i gefn gwlad eraill; ac**
  - **ystyried cynnwys hybu mynediad i gefn gwlad i bobl o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn eu cytundebau lefel gwasanaeth â Chynghorau Cydraddoldeb Hiliol.**

## Hawliau Tramwy

k Er bod awdurdodau mynediad lleol yn blaenoriaethu cynnal a chadw rhai o'r llwybrau troed mwyaf poblogaidd, mae cyflwr cyffredinol y rhwydwaith llwybrau troed yn wael ac mewn perygl o ddirywio'n waeth. Mae'n ofynnol i awdurdodau mynediad lleol gynhyrchu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy erbyn 2007. **Dylai awdurdodau mynediad lleol weithio gyda'r fforymau mynediad lleol perthnasol a'u partneriaid yn y sectorau statudol a gwirfoddol, i weithredu eu Cynlluniau i gefnogi rheoli a gwella strategol hawliau tramwy trwy:**

- **archwilio'r holl ffynonellau ariannu posibl; ac**
- **annog tirfeddianwyr i gydweithredu ac, mewn achosion cyfyngedig lle mae hynny'n angenrheidiol, trwy osod sancsiynau cyfreithiol arnynt er mwyn hyrwyddo cydymffurfiad.**

l Mae hi'n bwysig bod cyflwr hawliau tramwy cysylltiol yn galluogi mynediad cyhoeddus i'r arfordir. **Dylai'r awdurdodau mynediad lleol dalu sylw penodol yn eu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy i gyflwr yr hawliau tramwy ar hyd yr arfordir neu sy'n cysylltu â'r arfordir.**



Carmarthenshire County Council





# Rhan 1: Mae cyflwyno Rhan 1 CGHT yn effeithiol wedi cynyddu faint o dir sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd, ac mae gwersi i hysbysu gwella mynediad i'r arfordir

## Mae cyflwyno Rhan 1 CGHT wedi cynyddu faint o dir sydd ar gael yn gyfreithiol at ddefnydd y cyhoedd

**1.1** Yn dilyn cyflwyno CGHT, mae gan y cyhoedd hawliau mynediad i 21 y cant o'r tir yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys 98,650 hectar o goedwigoedd sy'n eiddo cyhoeddus, 158,900 hectar o dir agored, a 109,250 hectar o dir comin cofrestredig.

**1.2** Mae aelodau'r cyhoedd hefyd yn berchen ar hawliau mynediad cyfreithiol ychwanegol i gefn gwlad y tu allan i ddarpariaethau CGHT. Er enghraifft, mae gan y cyhoedd eisoes fynediad i 84,500 hectar o dan ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli, fel Cyfraith Deddf Eiddo 1925. Hefyd, o dan raglenni amaeth-amgylchedd Tir Gofal a Thir Cymen, sy'n bwriadu annog arferion amaethyddol sy'n gwella'r dirwedd ac sy'n hybu cadwraeth bywyd gwyllt, mae tirfeddianwyr yn darparu 4,712 hectar a 4,177 hectar y drefn honno ar gyfer mynediad trwy ganiatâd.

**1.3** Mae mynediad trwy ganiatâd yn golygu mynediad mae'r tirfeddiannwr yn ei roi'n wirfoddol i'r cyhoedd, ond y gall ei dynnu'n ôl yn y dyfodol. Mae nifer o dirfeddianwyr preifat a sefydliadau elusennol gwirfoddol yn caniatáu mynediad trwy ganiatâd ar eu tir. Nid oes ffigurau cywir ar gael ynghylch cyfanswm mesur y fath dir. Fodd bynnag, fel enghraifft, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen ar 40,468 hectar a Choed Cadw'n berchen ar 1,939 hectar yng Nghymru, gyda'r rhan fwyaf o'r tir yn agored i'r cyhoedd.

## Rheolwyd cyflwyno Rhan 1 CGHT yn llwyddiannus

### Roedd y cyflwyno yn brydlon ac ymddengys i'r gwariant aros oddi mewn i'r adnoddau a ddyrannwyd ar ei gyfer

**1.4** Drafftiodd a chymeradwyodd y Cynulliad Cenedlaethol fersiwn derfynol y chwe phrif reoliad, gan eu cyflwyno rhwng 2001 a 2003. Bwriad Llywodraeth y Cynulliad oedd cyflwyno'r hawliau mynediad newydd ledled Cymru yng ngwanwyn 2005.[1] Rhwng 2001 a 2005, cyflawnodd Llywodraeth y Cynulliad yr amserlen a anelai ati ar gyfer pob cam o'r broses ddeddfwriaethol sydd ei hangen, gan gynnal rhaglen helaeth o ymgynghori cyhoeddus â thros 100 o sefydliadau. Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad brif ganlyniadau'r ymgynghoriad a'r newidiadau a wnaethpwyd o ganlyniad i'r ymgynghori.

**1.5** Llwyddodd CCGC i gyrraedd ei nod o gynhyrchu mapiau drafft o'r holl dir agored a thir comin cofrestredig erbyn Rhagfyr 2003, gan gynhyrchu'r gyfres derfynol o fapiau yn dilyn apeliadau gan dirfeddianwyr ym Mawrth 2005. Yn dilyn cynhyrchu'r mapiau drafft, roedd gan dirfeddianwyr dri mis i wneud sylwadau. Yn ein harolwg o'r tirfeddianwyr a effeithiwyd, cytunodd fwy na phedwar allan o bob pump fod yr amser a roddwyd yn ddigonol. Daeth ein hymarferiad samplo achosion hefyd i'r casgliad bod CCGC wedi cynnal y broses gwneud sylwadau yn unol â'r rheoliadau a'u canllawiau eu hunain.

1 Mewn cyferbyniad , rhododd yr Asiantaeth Cefn Gwlad yn Lloegr yr hawl fesul rhanbarth tros gyfnod o dri mis ar ddeg rhwng Medi 2004 a Hydref 2005, Nod y cytundeb gwasanaeth cyhoeddus oedd Rhagfyr 2005.

**1.6** Amcangyfrifodd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyflwyno CGHT yn Lloegr mai cyfanswm cost cyflwyno'r Ddeddf yn Lloegr oedd £52.6 miliwn, rhyw £24.6 miliwn yn fwy na'r amcangyfrif gwreiddiol o £28 miliwn. Roedd y cynnydd yn bennaf yn ganlyniad methiant i gynnal cynlluniau prawf o'r cyflwyno a arweiniodd at broblemau wrth ddiffinio'n eglur pa dir oedd yn dir mynydd, yn dir gweunydd, yn rhostiroedd neu'n dwyni. Arweiniodd hyn yn ei dro at fwy o apeliadau gan dirfeddianwyr nag a amcangyfrifwyd. Yn ogystal, defnyddiwyd ymgynghorwyr preifat yn Lloegr i wneud gwaith a wnaethpwyd gan CCGC yng Nghymru.[2] Nid oedd cyfrif cyffredinol o gost y cyflwyno'n bosibl yng Nghymru gan nad oedd rhai awdurdodau mynediad lleol wedi gallu dadelfennu holl elfennau eu gwariant ar gyflwyno CGHT. Fodd bynnag, llwyddodd Llywodraeth y Cynulliad, CCGC ac awdurdodau mynediad lleol i gyflwyno'u cyfrifoldebau o ran CGHT mewn pryd ac yn unol â'r dyraniad ariannol bras a roddwyd iddynt.

**1.7** Dyrannodd Llywodraeth y Cynulliad £5 miliwn i CCGC dros y cyfnod rhwng 2001 hyd 2005 yn gyfraniad tuag at y costau ychwanegol o gyflwyno CGHT. Cyflwynodd CCGC ei raglen mapio a mentrau cefnogol oddi mewn i'r gyllideb £5 miliwn honno. Dyrannodd Llywodraeth y Cynulliad adnoddau hefyd i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ac i'r awdurdodau mynediad lleol ar gyfer y camau amrywiol o gyflwyno Deddf CGHT. Yn ystod y tair blynedd gyntaf, 2001/2002, 2002/2003 a 2003/2004, gwariodd awdurdodau mynediad lleol lai ar eu cyfrifoldebau o dan Rhan 1 CGHT na chyfanswm y dyraniad a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, er iddynt wario mwy na'r cyfanswm yn 2004/2005 (Atodiad 4). Efallai bod hyn yn adlewyrchu cyflwyniad graddol gwahanol rannau'r Ddeddf.

## Llwyddodd sector cyhoeddus Cymru i reoli cyflwyno Rhan 1 CGHT trwy weithio gyda'i gilydd a chyda ffermwyr a thirfeddianwyr

*Roedd gwasanaethau cyhoeddus Cymru'n effeithiol wrth weithio gyda'i gilydd i gyflwyno Rhan 1 CGHT*

**1.8** Ymgymerodd sefydliadau allweddol a oedd yn ymwneud â chyflwyno Rhan 1 CGHT â chyfres gynhwysfawr o ymgynghoriadau, gyda'i gilydd a chyda'r cyhoedd. Roedd rhestr ymgynghori safonol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer CGHT yn cynnwys 120 o gyrff ac 20 o unigolion. Defnyddiodd Llywodraeth y Cynulliad hefyd Grŵp Llywio Cyfleoedd Cefn Gwlad yn fodd i gynnal trafodaethau a chymryd penderfyniadau ynghylch agweddau strategol CGHT (Blwch 2). Disgrifiodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad y Grŵp Llywio fel fforwm defnyddiol i randdeiliaid allweddol i ddatrys materion ac i gytuno ar gamau ar y cyd a chydweithredu arnynt, fel y Cynllun Marchnata, ar lefel Cymru gyfan. Roedd hefyd yn fforwm y gallai cynrychiolwyr rhai grwpiau a oedd mewn perygl o gael eu hallgáu wneud ffurfwyr polisi'n fwy ymwybodol o anghenion y grwpiau roedden nhw'n eu cynrychioli. Roedd hyn yn gymwys yn benodol i bobl anabl, aelodau o'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a thrigolion ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.[3]

**1.9** Gwnaeth CCGC ddefnydd helaeth o'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol (FfMC) (Blwch 3), gan ymgynghori ag ef ar bob cam allweddol o broses cyflwyno CGHT. Mae hefyd wedi ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol ar y Cod Cefn Gwlad, ar becynnau gwaith mannau gwyrdd ac ar flaenoriaethau grant. Mae CCGC yn defnyddio'r FfMC o hyd fel ei brif gyfrwng o ymgynghori â rhanddeiliaid ar faterion mynediad i gefn gwlad.

2 Adroddiad y Goruchwyliwr a'r Archwilydd Cyffredinol, *The right of access to open countryside*, HC 1046, Mehefin 2006, paragraff 5 ac Atodiad 3, paragraff 4.

3 Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yw'r cant o wardiau mwyaf difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol yng Nghymru ynghyd â 32 o ardaloedd is-ward a deg ardal arall y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu targedu ar gyfer eu hadfywio.



### Blwch 2: Grŵp Llywio Cyfleoedd Cefn Gwlad

Sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad Grŵp Llywio Cyfleoedd Cefn Gwlad (GLICCC) yn 2003. Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a gadeiriodd y grŵp aml-asiantaeth, a oedd yn cynghori Llywodraeth y Cynulliad ar gyflwyno CGHT. Roedd yr aelodaeth yn cynnwys:

- Cyngor Cefn Gwlad Cymru;
- Comisiwn Coedwigaeth Cymru;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol;
- Bwrdd Croeso Cymru;
- Cymdeithas y Cerddwyr Cymru;
- Undeb Amaethwyr Cymru;
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr;
- Anabledd Cymru;
- Cynrychiolaeth ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf; a
- Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon.

Cynigiodd y Grŵp Llywio fforwm lle y gallai'r rhanddeiliaid allweddol drafod y broses gyflwyno, gan gynnwys sut oedd sicrhau bod anghenion grwpiau lleiafrifol yn cael eu bodloni'n briodol. Hefydd galluogodd y sefydliadau allweddol i gytuno ar strategaeth farchnata a chyhoeddusrwydd. Roedd adroddiad gwerthuso a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad o gyflwyniad Rhan 1 CGHT yn argymell y dylid sefydlu grŵp llywio prosiect, yn seiliedig efallai ar GLICCC, i gefnogi cyflwyno unrhyw raglen gwella mynediad yn y dyfodol[4].

### Blwch 3: Y Fforwm Mynediad Cenedlaethol

Yn 1999, gofynnodd Llywodraeth y DU i CCGC sefydlu Fforwm Mynediad Cenedlaethol ymgynghorol cyn cyflwyno deddfwriaeth CGHT. Cadwodd Fforwm Mynediad Cymru, a fu mewn bodolaeth er 1993, ei strwythur a chymryd arno'r rôl newydd. Corff gwirfoddol yw'r FfMC sy'n cynghori CCGC a Llywodraeth y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â mynediad i gefn gwlad. Mae ganddo bron i 40 o sefydliadau'n aelodau ohono ac mae'n cynnig fforwm i aelodau drafod materion o ddiddordeb cyffredin.

Mae'r cylch gorchwyl yn cynnwys y dylai'r FfMC:

- fod yn gorff anstatudol sy'n adrodd i CCGC ac yn ei gynghori (gyda'r CCGC yn ei dro yn cynghori Llywodraeth y Cynulliad) ar ddatblygu a chyflwyno polisïau a gweithdrefnau ynghylch mynediad;
- cynghori ar agweddau o gyflwyno'r hawliau mynediad newydd statudol i gefn gwlad agored, gan gynnwys fforymau mynediad lleol a chodau ymddygiad; a
- chynnig cyngor ar faterion o egwyddor ac o arfer da, gan adael i achosion unigol gael eu datrys yn lleol.

4 *Evaluation of the Implementation of the Countryside and Rights of Way Act 200 Part 1 in Wales*, adroddiad gan Asken Ltd mewn cydweithrediad â Faber Maunsell, Mawrth 2006.

**1.10** Dywedodd swyddogion CCGC a Llywodraeth y Cynulliad wrthym ni fod FfMC wedi cynnig adborth adeiladol ar faterion yn ymwneud â CGHT, ac wedi cynnig cyngor a arweiniodd at newidiadau. Un enghraifft oedd ei argymhelliad y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyflwyno system i fonitro'r adnoddau CGHT ychwanegol a ddyrannwyd i adwurdodau mynediad lleol trwy'r Grant Cynnal Refeniw. Hefyd, cynorthwyodd is-grŵp o FfMC CCGC i lunio cyngor ar baratoi Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

**1.11** Y berthynas weithredol allweddol oedd yr un rhwng CCGC a'r awdurdodau mynediad lleol. Gwelsom fod rolau a chyfrifoldebau eglur gyda'r pwyslais ar gyflwyno'n brydlon ac oddi mewn i'r adnoddau a ddyrannwyd. Gweithiodd CCGC a'r awdurdodau mynediad lleol gyda'i gilydd yn effeithiol wrth gyflwyno Rhan 1 CGHT. Cynhaliodd CCGC gyfarfodydd a gweithdai rheolaidd i'r awdurdodau mynediad lleol a fu o gymorth wrth gydweithio'n effeithiol. Roedd naw deg chwech y cant o'r awdurdodau mynediad lleol yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod CCGC wedi ymgynghori'n ddigonol â nhw ynghylch cyflwyno CGHT.

**1.12** Rhoddodd CCGC gyngor ac arweiniad i awdurdodau mynediad lleol, yn dilyn ymgynghori helaeth â thirfeddianwyr ac â'r awdurdodau mynediad lleol eu hunain. Barnodd mwy na phedwar rhan o bump o awdurdodau mynediad lleol fod y cyngor a'r arweiniad a roddwyd gan CCGC yn "dda" neu'n "dda iawn" o ran eglurder, ymarferoldeb, cysondeb, trylwyredd a phrydlondeb.

**1.13** Roedd awdurdodau mynediad lleol hefyd yn fodlon â'r cyngor a'r arweiniad manwl a roddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i'w cynorthwyo wrth gyflwyno mynediad agored. Barnodd mwy na thri chwarter yr awdurdodau mynediad lleol fod y cyngor a'r arweiniad yn "dda" neu'n "dda iawn" o ran eglurder, ymarferoldeb, cysondeb trylwyredd a phrydlondeb.

**1.14** Yn ôl Deddf CGHT roedd hi'n ofynnol ar y 25 awdurdod mynediad lleol i sefydlu fforwm mynediad lleol (FfMLl) (Blwch 4). Mae swyddogaethau statudol y fforymau yn cynnwys cynghori'r awdurdod mynediad lleol ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i gefn gwlad. Cefnogodd CCGC sefydlu'r FfMLlau gydag arweiniad ysgrifenedig a chyngor parhaus. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnwys y fforymau mynediad lleol yn yr ymgynghori yn ystod holl gamau allweddol proses CGHT. Arweiniodd yr ymgynghori hwn at gymryd camau penodol, fel cynhyrchu nodyn cynghori mewn Saesneg dealladwy ar rwymedigaethau tirfeddianwyr, ac at gyflwyno cynllun gwobrwyo Grant Isadeiledd Mynediad gan CCGC i awdurdodau mynediad lleol o 2004 ymlaen. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i fynychu cyfarfodydd cyffredinol blynyddol y rhwydwaith FfMLl a chyfarfodydd eu hysgrifenyddion a'u

### Blwch 4: Fforymau Mynediad Lleol

Gosododd adrannau 94 a 95 Deddf CGHT ddyletswydd ar bob awdurdod lleol ac awdurdod parc cenedlaethol i sefydlu fforwm mynediad lleol i'w cynghori hwythau, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth y Cynulliad ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i dir yn eu hardal ar gyfer hamdden awyr agored a mwynhau'r ardal. Mae'n rhaid i'r sefydliadau a gynghorwyd gan y fforymau mynediad lleol ystyried y cyngor a roddwyd. Er bod y pwyslais gwreiddiol ar gynghori ynghylch cyflwyno Rhan 1 CGHT, rhoddodd y Ddeddf rôl ehangach i'r fforymau mynediad lleol i hybu mynediad i gefn gwlad. Mae aelodaeth y fforymau'n gorfod cynnwys cydbwysedd rhesymol o berchnogion, preswylwyr a defnyddwyr tir mynediad a hawliau tramwy. Gall yr awdurdod sy'n trefnu benodi hyd at ddau o'i aelodau neu swyddogion ei hun.



Ffigur 1: Dadansoddiad o'r sylwadau yn erbyn mapiau drafft CGHT ac o'r apeliadau yn erbyn darpar fapiau CGHT

| Mapiau yn eu Ffurf Drafft | | |
|---|---|---|
| **Sylwadau tirfeddianwyr** | **Nifer** | **Canran** |
| Sylwadau llwyddiannus | 414 | 33 |
| Sylwadau rhannol lwyddiannus | 289 | 23 |
| Sylwadau aflwyddiannus | 553 | 44 |
| Cyfanswm y sylwadau ar y mapiau drafft | 1,256 | 100 |
| **Darpar Fapiau** | | |
| **Apeliadau tirfeddia wyr** | **Nifer** | **Canran** |
| Apeliadau a gadarnhawyd | 112 | 24 |
| Apeliadau a gadarnhawyd yn rhannol | 94 | 20 |
| Apeliadau a ddiddymwyd | 262 | 56 |
| Cyfanswm yr Apeliadau | 468 | 100 |

*Ffynhonnell: CCGC*

cadeiryddion. Ymgynghorodd CCGC â'r fforymau mynediad lleol hefyd ar gynigion polisi pwysig, gan gynnwys yr holl apeliadau gan dirfeddianwyr yn erbyn cynnwys eu tir ar ffurf drafft y mapiau mynediad agored.

*Gweithiodd gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn effeithiol gyda ffermwyr a thirfeddianwyr*

**1.15** Cydweithiodd CCGC â ffermwyr a thirfeddianwyr mewn perthynas â chyflwyno Rhan 1 CGHT, gan gadw cysylltiad â'r prif sefydliadu sy'n cynrychioli ffermwyr a thirfeddianwyr: Undeb Amaethwyr Cymru, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad. Roedd y sefydliadau cynrychioladol yn ystyried bod CCGC wedi ymgymryd â'r broses fapio yn drylwyr a theg, a bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgynghori â nhw yn ystod pob cyfnod allweddol yn y broses gyflwyno.

**1.16** Ymgymerodd CCGC ag ymgyrch gyhoeddusrwydd i hysbysu tirfeddianwyr o'r newidiadau arfaethedig a ddeilliai o gyflwyno CGHT. Roedd hyn yn cynnwys hysbysiadau yn y wasg, hysbysebion ar y radio, 145 o gyfarfodydd cyhoeddus a llythyr at bob un o'r 36,000 o'r tirfeddianwyr sydd ar gronfa ddata'r cyfrifiad amaethyddol, yn rhoi gwybod iddynt sut i gael cyngor ac arweiniad pellach. Ysgrifennodd CCGC hefyd at yr holl dirfeddianwyr yr ymddangosai eu tir ar y mapiau drafft, ac ysgrifennu ar wahân at yr holl dirfeddianwyr yr ymddangosai eu tir ar y darpar fapiau a baratowyd ar ôl ystyried sylwadau'r tirfeddianwyr ar ôl cyhoeddi'r mapiau drafft. Roedd gohebiaethau CCGC yn cynnwys cyngor eglur ac yn annog tirfeddianwyr i geisio arweiniad pellach. Roedd chwe deg y cant o'r tirfeddianwyr a effeithiwyd o'r farn fod y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad a roddwyd gan CCGC yn "dda" neu'n "dda iawn" o ran eglurder, ymarferoldeb, cysondeb, trylwyredd a phrydlondeb.

**1.17** Yn gyfan gwbl, gwnaeth tirfeddianwyr fwy na 1,200 o sylwadau i CCGC ynghylch y mapiau drafft (Ffigur 1). Astudiwyd 97 o ffeiliau achos gennym a ddewiswyd ar hap o ddwy allan o bump o swyddfeydd CCGC a oedd yn gweinyddu'r sylwadau ynghylch y mapiau

drafft. Gwelsom fod CCGC wedi rheoli'r broses o wneud sylwadau ar gyhoeddi'r mapiau drafft yn deg, ac yn unol â'i weithdrefnau cymeradwy ynghylch ymdrin â sylwadau. Dilynodd CCGC hefyd arfer busnes da trwy gydnabod sylwadau, helpu tirfeddianwyr i lenwi ffurflenni, a thrwy weithredu'n ddwyieithog ac yn agored. Ym mhob achos, gwelsom fod y darpar fapiau wedi ymgorffori unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt o ganlyniad i'r sylwadau ynghylch y mapiau drafft.

**1.18** Gwnaeth tirfeddianwyr 468 o apeliadau yn erbyn y darpar fapiau, a ystyriwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio – Cymru (Ffigur 1). Cynhaliodd yr Arolygiaeth bedwar digwyddiad rhanbarthol i dirfeddianwyr cyn paratoi'r mapiau drafft, er mwyn esbonio'r broses a statws apeliadau. Dyfarnwyd ar bob apêl erbyn y terfyn amser o 31 Rhagfyr 2004. Un adolygiad barnwrol yn unig a gafwyd wedyn, a ddyfarnodd o blaid yr Arolygiaeth.

**1.19** Astudiwyd sampl gennym ni o 63 o ffeiliau apelio, yn cynrychioli 14 y cant o holl nifer yr apeliadau, yn erbyn llawlyfr arweiniad cynhwysfawr yr Arolygiaeth Gynllunio i arolygwyr ei ddefnyddio wrth ymgymryd ag apeliadau. Gwelsom fod arolygwyr wedi ymweld â 62 allan o'r 63 o safleoedd apêl (tynnwyd un apêl yn ei hôl) ac iddynt gwblhau adroddiad ar gyfer pob un o'r achosion. Roedd pob adroddiad yn rhoi crynodeb o'r prif faterion gerbron, disgrifiad yr arolygwr o nodweddion y tir dan sylw a dyfarniad ynghylch a oedd y tir yn cyd fynd â'r meini prawf ar gyfer ei ddynodi yn dir CGHT. Gwelsom fod yr holl adroddiadau yn eglur a dealladwy. Roedd tystiolaeth eglur i ddangos bod yr arolygwyr wedi dilyn yr holl ganllawiau apelio ac y rhoddodd yr Arolygiaeth hysbysiadau o'r holl apeliadau yn y wasg leol. Roedd trywydd eglur ym mhob ffeil yn ei gwneud yn hawdd olrhain y broses, o dderbyn y gwaith papur gwreiddiol hyd at roi gwybod am y penderfyniad. Esboniodd yr arolygwyr eu rhesymau dros eu penderfyniadau yn eglur, ac mewn llawer o achosion roeddent wedi rhannu'r tir dan sylw yn ddarnau ar wahân, gan roi dyfarniad ar wahân ar gyfer pob darn.

**1.20** Rhoddodd CCGC y mapiau terfynol ar ei wefan mapiau Mynediad Agored, a hynny cyn cyflwyno CGHT yng ngwanwyn 2005. Mae'r wefan yn gwahaniaethu rhwng mynediad statudol o dan ddeddfwriaeth a mynediad trwy ganiatâd o dan gynlluniau fel Tir Gofal. Mae hefyd yn cynnwys tir sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a sefydliadau gwirfoddol eraill. Yn y gorffennol, dangos gwarchodfeydd natur a thir Tir Gofal yn unig a wnâi mapiau CCGC. Mae mapiau newydd y wefan hefyd â chysylltiadau i dudalennau eraill ar y we sy'n cynnwys gwybodaeth fwy manwl, er enghraifft, gwybodaeth am lety. Mae ffigurau CCGC yn dangos bod 19,500 o bobl wedi ymweld â thudalennau perthnasol ei wefan rhwng cyflwyno CGHT ym Mai 2005 ac Ionawr 2006.

**1.21** Cydweithiodd awdurdodau mynediad lleol hefyd yn effeithiol â llawer o dirfeddianwyr a ffermwyr wrth baratoi i gyflwyno Rhan 1 CGHT. Ymwelodd cynrychiolwyr awdurdodau mynediad lleol â llawer o berchnogion a thenantiaid y tir mynediad newydd, ac ar y cyfan roedd cyfarfodydd rhwng yr awdurdodau a grwpiau'n cynrychioli tirfeddianwyr wedi arwain at berthynas gwaith da. Yn ein harolwg ni, roedd wyth deg wyth y cant o'r awdurdodau mynediad lleol o'r farn fod y berthynas â pherchnogion a thenantiaid tir CGHT yn "dda" neu'n "dda iawn."

**1.22** Cyswllt personol â thirfeddianwyr oedd yr un mater pwysicaf y credai rheolwyr cefn gwlad awdurdodau mynediad lleol a fyddai'n gwella'r berthynas rhwng eu hawdurdod a pherchnogion tir mynediad. Fodd bynnag, nid oedd rhai awdurdodau mynediad lleol yn gallu cysylltu â'r holl dirfeddianwyr cyn cyflwyno Rhan



1 CGHT. Roedd nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys rhwystrau'n deillio o Ddeddf Diogelu Data 1998; y ffaith na chysylltodd llawer o'r tirfeddianwyr a effeithiwyd â CCGC a felly nad oeddynt ar gronfa ddata CCGC; a rhwystrau ar adnoddau'r awdurdodau mynediad lleol eu hunain. Fodd bynnag, cynghorodd CCGC yr holl dirfeddianwyr yr oeddent mewn cysylltiad â hwy i gysylltu â'u hawdurdod mynediad lleol os oedd ganddynt unrhyw ymholiadau.

**1.23** Dangosodd ein harolwg nad oedd 68 y cant o'r tirfeddianwyr a effeithiwyd yn credu bod eu hawdurdod mynediad lleol wedi cysylltu â nhw'n effeithiol ynghylch cyflwyno CGHT, a nododd naw y cant nad oeddent yn ymwybodol fod Deddf CGHT yn ymwneud â'u hawdurdod mynediad lleol mewn unrhyw ffordd. Er bod y canfyddiadau hyn ymhlith mwyafrif y tirfeddianwyr yn awgrymu bod lle i awdurdodau mynediad lleol wella rheolaeth eu perthynas â thirfeddianwyr, efallai eu bod hefyd yn adlewyrchu anfodlonrwydd cyffredinol neu bryderon dealladwy ynghylch effaith dynodi eu tir ar gyfer mynediad agored o dan CGHT.

## Mae gwersi ar gyfer gwella mynediad i'r arfordir

**1.24** Nodwyd y meysydd canlynol gennym ni lle y dylai sector cyhoeddus Cymru gymhwyso gwersi CGHT wrth wella mynediad i'r arfordir:

- yr angen i gefnogi cyfrifoldebau newydd ag adnoddau sy'n cael eu dyrannu yn ôl fformiwla deg y cytunir arni ac i fonitro'r adnoddau'n effeithiol;
- y pwysigrwydd o roi digon o amser i gysylltu â thirfeddianwyr ac i sicrhau eu cydweithrediad;
- pwysigrwydd cynlluniau prawf effeithiol sy'n berthnasol i gymaint o fannau â phosibl yng Nghymru; a
- phwysigrwydd cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy sy'n cynnig mynediad i'r tir mynediad newydd ac i gefn gwlad yn gyffredinol.

### Dylid cefnogi cyfrifoldebau newydd ag adnoddau sy'n cael eu dyrannu'n deg a'u monitro'n effeithiol

*Darparodd Llywodraeth y Cynulliad a CCGC arian i awdurdodau mynediad lleol a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i'w cynorthwyo â chyflwyno Rhan 1 CGHT*

**1.25** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu £2.4 miliwn y flwyddyn er 2001/2002 i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo â chyflwyno CGHT. Fodd bynnag, o'r cychwyn, ni neilltuwyd yr arian a olygai fod gan awdurdodau lleol ddisgresiwn llwyr dros wario'r arian ychwanegol, p'un ai ar CGHT neu ar flaenoriaethau lleol eraill. Wrth ddosbarthu'r adnoddau hyn ymhell o flaen y cyflwyno, rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad gynhorthwy amserol i awdurdodau lleol mewn modd a'u galluogodd i gael digon o amser i baratoi ar gyfer cyflwyno CGHT.

**1.26** Dyrannodd Llywodraeth y Cynulliad hefyd gyfanswm o £930,000 i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru i gyflwyno ei diroedd rhydd-ddaliadol o dan Adran 16 CGHT, sy'n caniatáu i dirfeddianwyr gyflwyno tir yn dir mynediad agored cyfreithlon, er nad yw'n bodloni meini prawf llym CGHT o dir mynydd, ti gweunydd, rhostir neu dwyn. Ar gais Llywodraeth y Cynulliad, dygodd y Cyngor Cefn Gwlad hefyd gyflwyno ei Gynllun Grant Isadeiledd Mynediad ymlaen a fydd yn rhoi £475,000 o arian grant ar gael ar gyfer gatiau a chamfeydd rhwng 2004/2005 a 2007/2008. Mae'n rhaid i awdurdodau mynediad lleol gyfrannu 50 y cant o arian cyfatebol tra bod sefydliadau preifat a gwirfoddol yn gorfod cyfrannu 25 y cant o arian cyfatebol.

*Dyrannodd Llywodraeth y Cynulliad yr arian ychwanegol yn ôl fformiwla ag iddi ddim perthynas â dosbarthiad tir CGHT na hyd yr hawliau tramwy*

**1.27** Dywedodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrthym iddyn nhw gytuno ar y fformiwla o ddosbarthu'r £2.4 miliwn ychwanegol y flwyddyn â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Pryd hynny, nid oedd mapio drafft y tir mynediad newydd wedi dechrau er i CCGC gynnig amcangyfrifon y gwelwyd ymhen amser iddynt fod yn rhai cywir, o'r holl dir ac o ddosbarthiad y tir mynediad newydd. Fodd bynnag, dywedodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a rhai rheolwyr cefn gwlad wrthym nad oedd dosbarthiad y tir mynediad yn ffactor briodol ar gyfer y fformiwla dyrannu adnoddau oherwydd ei fod yn gysylltiedig ag un rhan o CGHT yn unig a bod peth tir mynediad agored eisoes ar gael i'r cyhoedd ac felly arno angen llai o waith paratoadol na darnau eraill o dir mynediad agored (Gweler Atodiad 2). Ystyriai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad y byddai hyd cymharol y rhwydwaith llwybrau troed ym mhob awdurdod mynediad lleol wedi bod yn sail briodol ar gyfer dosbarthu arian i sicrhau mynediad i'r tir mynediad newydd hwn ond bod y ffigyrau a oedd ar gael ar y pryd ynghylch hyd yr hawliau tramwy ar y cyfan yn cael eu hystyried yn rhai annibynadwy.

**1.28** Felly, seiliodd Llywodraeth y Cynulliad ei fformiwla ar gyfer dosbarthu'r adnoddau ychwanegol yn ôl pwysiad cyfartal ar gyfer poblogaeth a chyfanswm arwynebedd tir pob awdurdod mynediad lleol. Er bod perthynas fras rhwng cyfanswm arwynebedd tir awdurdod mynediad lleol a hyd ei hawliau tramwy, arweiniodd y fformiwla at rai anghysondebau rhwng swm yr arian a ddarparwyd a hyd cymharol yr hawliau tramwy mewn gwahanol ardaloedd adwurdod mynediad lleol (Atodiad 3). Er enghraifft:

- Mae poblogaeth Cyngor Sir Caerdydd dair gwaith yn fwy na phoblogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn derbyn 34 y cant yn fwy o arian CGHT, er bod hyd hawliau tramwy Conwy wyth gwaith yn fwy na rhai Caerdydd;
- Mae gan Gyngor Sir Mynwy fwy na dwywaith cymaint o hyd hawliau tramwy, a 27 y cant yn fwy y pen o boblogaeth, na Chyngor Sir Ynys Môn. Fodd bynnag, mae Ynys Môn yn derbyn 20 y cant yn fwy o arian Llywodraeth y Cynulliad; ac
- Mae gan Gynghorau Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf hyd hawliau tramwy tebyg. Fodd bynnag, mae gan Rondda Cynon Taf 71 y cant yn fwy o boblogaeth ac yn derbyn mwy na 40 y cant yn fwy o arian Llywodraeth y Cynulliad na Chastell-nedd Port Talbot.

**1.29** Newidiodd Llywodraeth y Cynulliad y fformiwla o 2002/2003 ymlaen, gan leihau'r ffactorau pwysiad y boblogaeth a'r tir o 50 y cant i 45 y cant yr un, ac ychwanegu pwysiad o 10 y cant ar gyfer nifer uwch y boblogaeth ymwelwyr ar gyfer yr awdurdodau mynediad lleol hynny â chanddynt Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Nodir dyletswyddau statudol mewn perthynas ag Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn Rhan 4 CGHT. Fodd bynnag, nid oedd perthynas eto rhwng mesur perthynol tir mynediad agored na hyd rhwydwaith yr hawliau tramwy ym mhob ardal awdurdod mynediad lleol. Gan fod ffigurau manwl gywir bellach ar gael, ar gyfer dosbarthiad tir CGHT ac ar gyfer yr hawliau tramwy, bydd Llywodraeth y Cynulliad mewn gwell sefyllfa i ddosbarthu arian mynediad i gefn gwlad yn y dyfodol.



*Mae gwariant awdurdodau mynediad lleol ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â CGHT yn cynyddu, ond mae dibynadwyedd y wybodaeth yn amheus*

**1.30** Er nad yw'r arian ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad wedi cael ei neilltuo, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i awdurdodau mynediad lleol adrodd yn ôl ar y ffyrdd y maent yn gwario'u dyraniadau CGHT. Mae hyn yn golygu bod ffigurau blynyddol ar wariant awdurdodau mynediad lleol ar gyflwyno a rheoli CGHT ar gael.

**1.31** Mae gwariant awdurdodau lleol wedi cynyddu dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf: nodwyd ganddynt eu bod wedi gwario 23 y cant o'u dyraniadau ar swyddogaethau mewn perthynas â CGHT yn 2001/2002, 58 y cant yn 2002/2003 a 95 y cant yn 2003/2004. Yn 2004/2005, nododd awdurdodau lleol iddynt wario'r cyfan o'r arian ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn ogystal â phump y cant ychwanegol o rannau eraill eu cyllidebau, ar weithgareddau a oedd yn gysylltiedig â CGHT (Atodiad 4).

**1.32** Mae'r cynnydd yn y gwariant yn adlewyrchu'r ffaith y daeth rheoliadau CGHT i rym fesul cam rhwng 2001 a 2005. Hefyd, nid oedd llawer o ddiben cynhyrchu arwyddion a mannau mynediad tan ychydig cyn y cyflwyno. Efallai bod y gyfran isel o arian y nododd yr awdurdodau lleol iddynt ei wario yn 2001/2002 hefyd, yn rhannol, yn dilyn effaith Clwy'r Traed a'r Genau wrth rwystro mynediad i gefn gwlad am rai misoedd yn 2001.

**1.33** Er ei bod hi'n ymddangos bod gwariant awdurdodau mynediad lleol ar swyddogaethau sy'n gysylltiedig â CGHT wedi bod yn cynyddu, mae peth ansicrwydd ynghylch dibynadwyedd y gwariant yr adroddwyd amdano. Ni chyflwynodd dau awdurdod mynediad lleol, Cyngor Sir Casnewydd a Chyngor Sir Ynys Môn, eu ffigurau ar gyfer 2004/2005 oherwydd nad oeddynt yn gallu dadelfennu gwariant a oedd yn gysylltiedig â CGHT oddi wrth benawdau gwariant cefn gwlad eraill, fel cynnal a chadw hawliau tramwy. Cafodd Gyngor Sir Penfro'r un trafferth gan gyflwyno ffigurau a oedd yn cynnwys gwariant o dan benawdau eraill. Efallai bod hyn yn esbonio, yn rhannol, yr ystod eang o wariant fel canran o ddyraniad pob Awdurdod lleol o'r arian ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad - rhwng 41 a 319 y cant - a nodwyd gan awdurdodau unigol yn 2004/2005. Yn ogystal, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ceredigion hefyd wedi adrodd ynghylch gwallau yn ystod yr astudiaeth hon yn y ffigurau a gyflwynwyd ganddynt yn wreiddiol (Atodiad 4).

## Lle bo modd, dylid neilltuo digon o amser i gysylltu â thirfeddianwyr ac i ddod i gytundeb â nhw

*Mae cydweithrediad y tirfeddianwyr yn allweddol i agor cefn gwlad ar gyfer mynediad cyhoeddus*

**1.34** Mae tirfeddianwyr yn cadw holl hawliau perchnogaeth tir y gall y cyhoedd gael mynediad iddo o dan CGHT, sy'n dir y mae tirfeddianwyr, yn enwedig ffermwyr, yn aml yn rhedeg eu busnesau arno. Oherwydd hyn, roedd rhai tirfeddianwyr yn wrthwynebus i CGHT ac mae ganddynt agweddau negyddol tuag at fynediad cyhoeddus yn gyffredinol. Gall hyn arwain at yr angen am gamau cyfreithiol, er enghraifft i sicrhau bod tirfeddianwyr yn clirio hawliau tramwy sydd wedi'u rhwystro, gan arwain o bosibl at oedi ac at ddargyfeirio adnoddau prin oddi wrth gynnal a chadw a gwella mynediad. Fodd bynnag, cydweithredodd y rhan fwyaf o'r tirfeddianwyr â CCGC a'r awdurdodau mynediad lleol wrth gyflwyno CGHT. Bu'n fantais cael ymwneud cynnar a chyson â thirfeddianwyr a'u cynrychiolwyr, oherwydd y gallai newidiadau cadarnhaol fod wedi eu cyfyngu heb eu cydweithrediad.

### Astudiaeth Achos A: Sicrhau cydweithrediad tirfeddianwyr trwy reoli rhagweithiol

Cyn i lywodraeth y DU gyhoeddi Mesur CGHT, cyfarfu Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro â thirfeddianwyr perthnasol i drafod goblygiadau'r Mesur a sut y gallent weithio gyda'i gilydd i gyflwyno'r hyn a oedd yn debygol o fod yn y Mesur. Cynhaliodd yr Awdurdod hefyd gynllun prawf o fforwm mynediad lleol a gynhwysai dirfeddianwyr, ac mae ei wardeniaid cymuned mewn cysylltiad cyson â'r tirfeddianwyr. Adeiladodd y gwasanaeth wardeniaid ar brofiad a gafwyd wrth reoli Llwybr Arfordir Penfro, lle mae cydweithrediad bron i bob un o'r 190 o dirfeddianwyr yn cyfrannu'n fawr at gynnal a chadw'r hawliau tramwy.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

*Sicrhawyd cydweithrediad y tirfeddianwyr trwy wybodaeth, esbonio, trafod a chytuno*

**1.35** Mae'n amlwg bod ymestyn mynediad cyhoeddus i gefn gwlad yn gofyn am gymodi diddordebau cyferbyniol y rheiny sy'n berchen y tir a'r rheiny sy'n dymuno cael mynediad iddo. Wrth fynd i'r afael â'r posibilrwydd amlwg o wrthdaro â thirfeddianwyr, a all yn ddigon dealladwy fod yn wrthwynebus i fynediad cyhoeddus i'w tir, mabwysiadodd CCGC strategaeth a oedd yn ymwneud â'r tirfeddianwyr a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli yn ystod holl gamau allweddol y broses o gyflwyno CGHT. Cafwyd tystiolaeth glir o effaith y strategaeth hon yn yr ymateb cadarnhaol a gawsom wrth i ni gysylltu â chynrychiolwyr Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru a Chymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, a nododd i gyd bod CCGC wedi cyflwyno Rhan 1 CGHT yn deg ac yn effeithiol.

**1.36** Gweithiodd yr awdurdodau mynediad lleol hefyd gyda thirfeddianwyr i gael mynediad cyhoeddus trwy drafodaeth a chytundeb. Mae Astudiaeth Achos A yn dangos effaith fanteisiol cymryd yr agwedd ragweithiol o reoli'r berthynas â thirfeddianwyr yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

**1.37** Mae ein harolwg o awdurdodau mynediad lleol wedi datgelu mai cysylltiad personol â thirfeddianwyr oedd yr un ffactor unigol bwysicaf a gyfranai at wella'r berthynas â thirfeddianwyr. Ymhlith y camau eraill a nodwyd gan awdurdodau mynediad lleol yn rhai a wellai'r berthynas â thirfeddianwyr oedd:

- cynnwys y tirfeddianwyr yn aelodau'r fforymau mynediad lleol;
- cynnal cyfarfodydd rheolaidd â sefydliadu sy'n cynrychioli tirfeddianwyr;
- wardeiniaid yn cysylltu â thirfeddianwyr yn anffurfiol; a
- chynnig ariannu digonol ar gyfer arwyddion, dodrefn llwybrau troed a wardeiniaid.

### Dylid cynnal cynlluniau prawf sydd wedi eu hariannu'n ddigonol ac sy'n berthnasol i gymaint o ardaloedd eraill â phosibl, a lledaenu'r canlyniadau'n helaeth

**1.38** Mae hi'n bwysig cynnal cynlluniau prawf o brif agweddau'r ddeddfwriaeth er mwyn dysgu gwersi a lleihau costau ac oedi wrth ei gyflwyno yn ei grynswth. Casglodd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG) ar gyflwyno CGHT yn Lloegr fod y ffaith nad oedd yr Asiantaeth Cefn Gwlad[5] wedi cynnal cynlluniau prawf yn un o'r prif resymau dros orwario sylweddol ar y cyflwyno.[6] Ariannodd CCGC gynlluniau prawf ar gyfer rhai agweddau'r ddeddfwriaeth newydd, er mwyn dysgu gwersi y gellid eu lledaenu ledled Cymru cyn cyflwyno Rhan 1 CGHT. Ym

5 Roedd yr Asiantaeth Cefn Gwlad yn sefydliad cyfatebol CCGC yn Lloegr. Yn Hydref 2006, unodd gyda Natur Lloegr a'r Gwasanaeth Datblygu Cefn Gwlad i ffurfio Lloegr Naturiol

6 Adroddiad y Goruchwyliwr a'r Archwilydd Cyffredinol, *The right of access to open countryside*, HC1046, Mehefin 2006, paragraff 1.7



Mryniau Clwyd a'r Berwyn noddodd CCGC dri chynllun prawf gwahanol mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Dinbych. Cynigiodd y Prosiectau wersi ynghylch ymgynghori, mapio, strwythuro fforwm mynediad lleol a'r berthynas â thirfeddianwyr a cherddwyr. Mae CCGC yn credu iddo ef a'r awdurdod mynediad lleol allu datrys nifer o broblemau yn ystod y prosiectau hyn a hwylusodd y gwaith o gyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd ledled Cymru. Cyfrannodd CCGC £45,000 tuag at y Prosiectau rhwng 2001 a chwblhau'r cyflwyno yn 2005.

**1.39** Y ddau brif gynllun prawf arall a ariannwyd gan CCGC oedd:

- Prosiect traws-ffiniol y Mynydd Du, a oedd yn cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyngor Swydd Henffordd a'r Asiantaeth Cefn Gwlad yn Lloegr, a astudiodd ffyrdd o integreiddio'r hawliau mynediad newydd â'r defnydd hamdden presennol a rheoli twristiaeth leol. Roedd hyn yn cynnwys cyflogi warden i weithio ar bob ochr i'r ffin lle'r oedd rheoliadau ac amserlen y cyflwyno'n wahanol. Gwariodd CCGC £100,000 ar y cynllun prawf hwn, yn bennaf ar isadeiledd fel camfeydd ac arwyddion, trwy grant a dderbyniwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; a

- Phrosiect Cefnen Tarran yn Ne Eryri, a oedd yn cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Gwariodd CCGC £13,000 ar y cynllun prawf hwn a ddeilliodd o Fforwm Mynediad Lleol De Eryri ar gynllunio a chyflwyno gwelliannau mynediad mewn ardal a oedd ag ychydig o hawliau mynediad yn unig cyn cyflwyno Rhan 1 CGHT.

**1.40** Roedd pymtheg allan o'r dau awdurdod mynediad lleol ar hugain yn ystyried bod y cynlluniau prawf wedi bod yn effeithiol, gan gyflwyno rhai neu'r cyfan o'r gwersi oddi wrthynt. Roeddent hefyd yn ystyried bod y swm o arian a roddodd CCGC i'r prosiectau wedi bod yn hanfodol i'w llwyddiant. Fodd bynnag, roedd dau awdurdod mynediad lleol yn anymwybodol o'r cynlluniau prawf. Credai pump arall y gallai lledaenu'r gwersi a ddysgwyd o'r cynlluniau prawf fod wedi bod yn fwy trylwyr ac amserol.

**1.41** Er mwyn cael cymaint o effaith ag y bo modd, dylai cynlluniau prawf mynediad ail-greu'r amodau sydd i'w cael mewn cymaint o ardaloedd yng Nghymru â phosibl. Credai tri allan o'r ddau awdurdod mynediad lleol ar hugain nad oedd y cynlluniau prawf CGHT yn gymwys i'w hardal hwythau gan nad oedd y cynlluniau wedi ymdrin ag awdurdodau ag amgylchiadau tebyg i'w rhai nhw. Fodd bynnag, byddai wedi bod yn anodd, yn gostus a byddai wedi cymryd llawer o amser i drefnu cynlluniau prawf a fyddai'n berthnasol i bob math o ardal wledig yng Nghymru.

**1.42** Yn ogystal â chynlluniau prawf CCGC, cynhaliodd y Bwrdd Croeso Cymru gynt gyfres o 'Gynlluniau Prawf Cerdded Mewn Trefi a Phentrefi' er mwyn archwilio dulliau o greu twristiaeth gerdded newydd. Ategwyd y £45,000 a roddwyd gan y Bwrdd Croeso gan arian cyfatebol gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Undeb Ewropeaidd. Adroddodd y Bwrdd Croeso am ganlyniadau interim y cynlluniau prawf i Grŵp Llywio Cyfleoedd Cefn Gwlad (gweler Blwch 2) gan eu dosbarthu hefyd i awdurdodau lleol a chanolfannau croeso lleol.

## Mae angen rhoi blaenoriaeth ddigonol i gynnal a chadw a gwella hawliau tramwy i dir mynediad

**1.43** Unwaith y maen nhw oddi ar y ffyrdd i gerbydau, mae hawliau tramwy yn cynnig i'r cerddwr y prif fodd o gael mynediad i gefn gwlad ac i ardaloedd mynediad agored. Os nad yw

hawliau tramwy'n cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da, bydd mynediad i gefn gwlad yn cael ei gyfyngu oherwydd bydd cerddwyr yn cael anhawster wrth ddefnyddio llwybrau sydd wedi eu rhwystro neu sydd mewn cyflwr gwael. Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau mynediad lleol i gynnal a chadw'r holl hawliau tramwy fel eu bod yn agored ac yn hawdd i'w defnyddio. Mae gan dirfeddianwyr gyfrifoldeb i sicrhau nad ydynt yn rhwystro hawliau tramwy ac mae'r awdurdodau mynediad lleol yn gyfrifol am orfodi'r cyfrifoldeb hwn.

**1.44** Dynododd CGHT lecynnau o dir mynydd, tir gweunydd, rhostiroedd a thwyni yn dir mynediad newydd. Fodd bynnag, er bod llawer o'r tir mynediad newydd yn hygyrch o'r rhwydwaith llwybrau troed a oedd yn bodoli eisoes neu o briffyrdd cyhoeddus, roedd y sefyllfa yn fwy anodd mewn rhai ardaloedd. Felly, roedd awdurdodau mynediad lleol yn gallu ariannu gwelliannau i'r llwybrau mynediad i dir CGHT allan o'r adnoddau ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, er mwyn integreiddio'r tir mynediad newydd i'r rhwydwaith cenedlaethol o hawliau tramwy a llwybrau mynediad eraill, fel ffyrdd cyhoeddus. Gwnaeth awdurdodau mynediad lleol gynnydd da tuag at sicrhau bod y rhan fwyaf o'r tir mynediad agored agored yn hygyrch trwy wella'r hawliau tramwy. Bydd angen tebyg i sicrhau bod y cysylltiadau angenrheidiol wedi eu gwneud rhwng ardaloedd mynediad agored sy'n bodoli eisoes a'r rhwydwaith llwybrau troed arfordirol fel rhan o'r gwella arfaethedig ar y mynediad i'r arfordir.

**1.45** Yn seiliedig ar Ddangosyddion Perfformiad Llywodraeth y Cynulliad ynghylch cyflwr hawliau tramwy, mae cyflwr cyffredinol y rhwydwaith hawliau tramwy yng Nghymru yn wael ac wedi dirywio yn y ddwy flynedd ddiwethaf y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer. Awgrymodd adroddiad diweddar gan CCGC, er bod mynediad da i'r arfordir mewn llawer man, bod cyflwr rhannau o'r rhwydwaith llwybrau troed ar hyd arfordir Cymru hefyd yn wael ac yn gyson â'r arolygon ynghylch cyflwr hawliau tramwy (gweler Blwch 5). O ganlyniad, bydd talu sylw i gynnal a chadw hawliau tramwy yn elfen allweddol o gyflwyno gwelliannau effeithiol i fynediad i'r arfordir.

### Blwch 5: Nid yw'r rhwydwaith llwybrau troed ar hyd arfordir Cymru mewn cyflwr da

"Nid yw'r rhwydwaith o hawliau tramwy yn gyfan gwbl briodol at y diben mewn llawer man, gan gynnwys rhwystrau, arwyddion gwael a llwybrau anghyfleus ar gyfer defnyddwyr a phreswylwyr. Lle mae hyn yn digwydd, mae'r safon isel hon a'r diffyg eglurder yn rhwystr mawr wrth droedio'r rhodfa arfordirol gul a chymhleth. Mae hyn yn cyfyngu potensial twristiaeth a'r defnyddioldeb i drigolion. Ychydig iawn o lwybrau sy'n bodloni safonau Mynediad Lleiaf Rhwystrol[7], sydd o'r herwydd yn rhwystro llawer o bobl rhag eu defnyddio. Mae bylchau a diffyg llwybrau cylchol mewn llawer o fannau yn cyfyngu'r dewisiadau ar gyfer mwynhau rhai arfordiroedd."

*Ffynhonnell: Adroddiad Swyddogion i Gyngor Cenedlaethol Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Chwefror 2006*

7 Paragraff 2.40





# Rhan 2: Mae dangosyddion yn awgrymu bod defnydd y cyhoedd ar gefn gwlad wedi cynyddu, ond bydd cynnydd pellach yn galw am ledaenu arfer da a goresgyn rhai rhwystrau

## Mae dangosyddion yn awgrymu bod defnydd y cyhoedd ar gefn gwlad wedi cynyddu ond bod grwpiau dan anfantais yn gwneud llai o ddefnydd o'u hawliau mynediad ac nad yw pob defnydd yn ddefnydd cyfrifol

### Mae dangosyddion yn awgrymu bod defnydd y cyhoedd ar gefn gwlad wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf

**2.1** Mae hi'n gynnar iawn i ddod i gasgliadau ystyrlon ynghylch effaith cyflwyno CGHT ar ddefnydd y cyhoedd ar gefn gwlad, yn enwedig gan fod mynediad *de facto* i'r tir perthnasol mewn llawer man yng Nghymru cyn cyflwyno CGHT. Fodd bynnag, mae peth tystiolaeth bod aelodau'r cyhoedd wedi cymryd mantais o'u hawliau mynediad newydd yn y chwe mis yn dilyn cyflwyno CGHT. Datgelodd ein harolwg o 160 o aelodau Cymdeithas Cerddwyr Cymru fod 28 y cant ohonyn nhw wedi ymweld â thir CGHT rhwng cyflwyno Deddf CGHT ym Mai 2005 ac Ionawr 2006. O'r rhain, credai dros ddwy ran o dair ohonynt fod y Ddeddf newydd wedi gwella eu gallu i gael mynediad i gefn gwlad. Credai tri ar hugain o 60 o dirfeddianwyr a arolygwyd fod cynnydd wedi bod yn y nifer y cerddwyr a gafodd fynediad cyfreithlon i'w tir ers cyflwyno Deddf CGHT, er nad oedd 36 wedi sylwi ar unrhyw wahaniaeth a chredai un y bu lleihad. Yn hydref 2005, amcangyfrifodd Arolwg Cartrefi CCGC[8] fod 8,000 o bobl wedi ymweld â chefn gwlad yn amlach o ganlyniad i glywed am yr hawliau newydd.

**2.2** Awgrymodd yr un arolwg hefyd gynnydd o 34 y cant yn hydref 2002 i 43 y cant yn hydref 2005 yn y gyfran o'r cyhoedd yng Nghymru sy'n ymweld â chefn gwlad o leiaf unwaith yr wythnos, a chynnydd o 42 y cant i 50 y cant yn y gyfran o'r cyhoedd yng Nghymru a oedd wedi ymweld â chefn gwlad yn ystod yr wythnos flaenorol.


### Mae pobl anabl, aelodau cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl sydd heb eu cludiant eu hunain yn ymweld â chefn gwlad gryn dipyn yn llai aml na phoblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd

**2.3** Mae mwy na 60 y cant o boblogaeth Cymru'n ymweld â chefn gwlad o leiaf unwaith y mis ond mae pump ar hugain y cant yn gwneud hynny lai nag unwaith y flwyddyn, os o gwbl (Ffigur 2). Fodd bynnag, mae pobl anabl, aelodau cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl sydd heb eu cludiant eu hunain yn ymweld â chefn gwlad yn llai aml na'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd (Ffigur 3).

**2.4** Cadarnhaodd arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn 2004 o ymwelwyr i'w goetiroedd wahaniaethau sylweddol hefyd yn y graddfeydd y mae grwpiau cymdeithasol gwahanol yn ymweld â'r coedwigoedd, gyda grwpiau sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n gymdeithasol yn ymweld â choedwigoedd yn llai aml o gryn dipyn na'r boblogaeth gyfan (Ffigur 4).


8 Comisiynodd CCGC arolwg dros y ffôn o sampl cynrychioladol o 1,016 o gartrefi yng Nhgymru. Ymgymerwyd yn gwaith maes yn hydref 2005 gan Beaufort Research Ltd

Ffigur 2: Er bod mwy na 60 y cant o'r cyhoedd yng Nghymru yn ymweld â chefn gwlad o leiaf unwaith y mis, mae 25 y cant yn gwneud hynny lai nag unwaith y flwyddyn, os o gwbl




*Ffynhonnell: Arolwg Cartrefi CCGC: Hydref 2005*

Ffigur 3: Mae pobl anabl, aelodau cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r rheiny sydd heb gludiant yn ymweld â chefn gwlad yn llai aml na'r boblogaeth gyfan




*Ffynhonnell: Arolwg Cartrefi CCCG: Hydref 2005*



## Ffigur 4: Mae pobl o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lai breintiedig yn economaidd yn ymweld â chefn gwlad yn llai aml o lawer na'r boblogaeth gyfan

| Grŵp Cymdeithasol | Canran poblogaeth Cymru* | Canran yr holl ymweliadau choedwigoedd Cymru |
|---|---|---|
| Du a lleiafrifoedd ethnig | 2 y cant | <0.5 y cant |
| Pobl anabl | 24 y cant | 8 y cant |
| Llai breintiedi | 23 y cant | 8 y cant |

* Cafodd Comisiwn Coedwigaeth Cymru ffigurau'r golofn hon o Arolwg Adnoddau Teuluoedd yr Adran Gwaith a Phensiynau

*Ffynhonnell: Comisiwn Coedwigaeth Cymru 2004*


**2.5** Daeth adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyflwyno CGHT[9] yn Lloegr hefyd i'r casgliad bod gan rhai carfannau o'r cyhoedd anghenion arbennig wrth gael mynediad i gefn gwlad. Mae hyn yn wir am gefn gwlad yn gyffredinol, er enghraifft, am hawliau tramwy a pharciau gwledig, yn hytrach na dim ond mynediad i dir y rhoddodd Deddf CGHT hawl mynediad statudol i fynd arno. Mae'r Asiantaeth Cefn Gwlad yn Lloegr yn cynnal adolygiad amrywiaeth er mwyn archwilio ffyrdd o annog pobl anabl, aelodau cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, y rheiny sy'n byw yng nghanol dinasoedd a phobl ifanc, i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored. Bydd yr adolygiad yn arwain at gynllun gweithredu amrywiaeth er mwyn i'r Asiantaeth Cefn Gwlad yn Lloegr gynyddu cyfranogaeth grwpiau cymdeithasol mewn gweithgareddau hamdden awyr agored, grwpiau cymdeithasol sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli yn y fath weithgareddau.

### Er bod y rhan fwyaf o gerddwyr yn defnyddio cefn gwlad mewn ffordd gyfrifol, mae rhai yn achosi problemau i dirfeddianwyr

*Mae'r rhan fwyaf o gerddwyr yn defnyddio cefn gwlad mewn ffordd gyfrifol*

**2.6** Er mwyn sicrhau bod mynediad y cyhoedd i gefn gwlad yn digwydd mewn modd sy'n parchu hawliau'r cerddwyr a'r tirfeddianwyr, mae hi'n hanfodol bod aelodau'r cyhoedd yn ymddwyn yn gyfrifol. Nododd y rhan fwyaf o berchnogion tir CGHT (85 y cant o'r rheiny a

## Ffigur 5: Cŵn afreolus a gadael gatiau'n agored yw'r prif broblemau i dirfeddianwyr




*Ffynhonnell: Arolwg SAC o dirfeddianwyr CGHT, Ionawr 2006*

9 Adroddiad yr Arolygwr a'r Archwilydd Cyffredinol, *The right of access to open countryside,* HC 1046. Mehefin 2006


## Blwch 6: Côd Cefn Gwlad

Daeth y Côd Cefn Gwlad i rym yn 1951 er mwyn gwneud y cyhoedd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth ymweld â chefn gwlad. Byddai hyn yn caniatáu iddynt gael gymaint o fwynhad â phosibl o'u hymweliad, tra'n parchu hawliau'r tirfeddianwyr. Yn dilyn codiadau sylweddol yn nifer yr ymwelwyr â chefn gwlad, cyhoeddwyd côd newydd yn 1981. Gyda'r hawliau mynediad newydd sy'n deillio o Ddeddf CGHT 2000, cynhaliodd Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r sefydliad cyfatebol yn Lloegr, yr Asiantaeth Cefn Gwlad, ymarferiad ymgynghorol yn 2003 a chyhoeddi'r Côd Cefn Gwlad newydd yng Ngorffennaf 2004. Mae CCGC yn cynhyrchu cyngor ategol i dirfeddianwyr yng Nghymru.

ymatebodd i'n harolwg) fod y cyfan neu'r rhan fwyaf o gerddwyr yn ymddwyn yn gyfrifol ar eu tir ers cyflwyno Deddf CGHT. Y problemau mwyaf cyffredin a nodwyd oedd cŵn heb fod dan reolaeth a gadael gatiau'n agored (Ffigur 5).

### Er bod y rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol o'r Côd Cefn Gwlad, mae llai yn gallu cofio rhannau pwysig ohono

**2.7** Datgelodd Arolwg Cartrefi CCGC yn Hydref 2005 fod 70 y cant o'r cyhoedd yng Nghymru, a 76 y cant o'r rheiny sy'n ymweld yn rheolaidd â chefn gwlad, wedi clywed am y Côd Cefn Gwlad (Blwch 6). Mae gan CCGC darged o gyrraedd ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r Côd o 80 y cant erbyn 2008.




Aardman Animations

Ffigur 6: Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd yng Nghymru o wahanol rannau'r Côd Cefn Gwlad yn amrywio

| Ifen allweddol y Côd Cefn Gwlad | Canran y cyhoedd a oedd yn gallu ei gofio heb eu hannog |
|---|---|
| Peidio â gadael sbwriel | 62 |
| Gadael gatiau fel yr oedden nhw | 54 |
| Dilyn unrhyw arwyddion | 24 |
| Gwarchod planhigion ac anifeiliaid | 23 |
| Cadw cŵn o dan reolaeth dynn | 20 |
| Bod yn ddiogel | 14 |
| Ystyried pobl eraill | 11 |
| Cynllunio o flaen llaw | 3 |
| Peidio â chychwyn tanau | 2 |
| Cadw at lwybrau troed | 2 |

*Ffynhonnell: Arolwg Cartrefi CCGC, Hydref 2005*



**2.8** Er bod lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r Côd Cefn Gwlad, o'i bwysigrwydd ac o rai o'i brif negeseuon, mae llai o wybodaeth ynghylch y manylion. Gallai mwy na hanner ymatebwyr Cymru i Arolwg Cartrefi CCGC gofio, heb eu hannog, ddwy ran y Côd sy'n cyfeirio at sbwriel a gadael gatiau fel yr oedden nhw. Fodd bynnag, dim ond 23 y cant oedd yn cofio am yr angen i warchod planhigion ac anifeiliaid, a dim ond 20 y cant a allai gofio am yr angen i reoli cŵn (Ffigur 6). Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt wedyn a oeddent yn ystyried bod elfennau amrywiol y Côd yn bwysig, cytunodd dros 90 y cant â phob elfen, sydd efallai'n rhoi arwydd gwell o ymddygiad na chofio'r Côd heb eu hannog.

*Mae rhai ffermwyr a thirfeddianwyr yn credu nad oes digon o orfodi cyfrifoldebau cerddwyr*

**2.9** Ofnai cynrychiolwyr tirfeddianwyr y byddai ehangu ar fynediad i gefn gwlad trwy CGHT yn gwaethygu problemau a oedd yn bodoli eisoes o ddim digon o orfodi eu cyfrifoldebau ar gerddwyr. Roedden nhw'n ystyried nad oedd awdurdodau mynediad lleol yn gwneud digon o ddefnydd o'u pwerau i benodi wardeiniaid i gysylltu â thirfeddianwyr a cherddwyr ac i annog defnydd cyfrifol ar gefn gwlad.

## Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru wedi datblygu arfer da sylweddol er mwyn annog defnydd cyhoeddus cynyddol ar gefn gwlad


### Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru wedi gosod y dinesydd wrth galon gwaith mynediad i gefn gwlad

*Mae awdurdodau mynediad lleol wedi defnyddio'r gwasanaeth addysg i annog mynediad cyfrifol i gefn gwlad*

**2.10** Er mwyn cynyddu defnydd a mwynhad y cyhoedd ar gefn gwlad, mae hi'n ddefnyddiol magu gwerthfawrogiad o gefn gwlad ymysg plant ifanc. Oherwydd hyn, mae rhai awdurdodau mynediad lleol wedi hybu defnydd ar gefn gwlad trwy eu gwasanaethau addysg (Astudiaeth Achos B). Mae dau ar hugain o'r awdurdodau mynediad lleol hefyd yn awdurdodau addysg lleol, hynny yw, y cyfan heblaw am awdurdodau'r parciau cenedlaethol.

*Mae awdurdodau mynediad lleol yn darparu gwybodaeth berthnasol ac o safon uchel i'r cyhoedd ynghylch ymweld â chefn gwlad, ond nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod am eu hawliau mynediad newydd*

**2.11** Mae ar ymwelwyr â chefn gwlad angen gwybodaeth o safon dda, cyn eu hymweliad ac ar y safle wrth gyrraedd yno. Daethom o hyd i enghreifftiau o daflenni a deunydd cyhoeddusrwydd arall yn hyrwyddo'r defnydd



Pembrokeshire Coast National Park Authority

**Meg a Mot: sioe bypedau a noddwyd gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro (Astudiaeth Achos B)**

## Astudiaeth Achos B: Hybu defnydd cyfrifol ar gefn gwlad trwy addysg

**Addysgu plant am gefn gwlad ar fferm weithredol**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn rhedeg ei fferm weithredol ei hun fel profiad o gefn gwlad i blant a theuluoedd. Mae Fferm Gymunedol Greenmeadow yn cynnal rhaglenni addysgiadol sydd wedi eu cysylltu'n bennaf â chyfnodau allweddol 2 (rhwng 7 ac 11 oed) a 4 (rhwng 14-16 oed) y cwricwlwm cenedlaethol. Mae gan y fferm sylfaen gref o wirfoddolwyr a chysylltiadau rhagorol ag ysgolion lleol a'r coleg addysg bellach lleol. Mae nifer o grwpiau cymuned lleol hefyd yn defnyddio'r fferm yn lleoliad. Bwriad Greenmeadow yw rhoi i ymwelwyr brofiad dysgu pleserus o fywyd gwledig ac o faterion amgylcheddol mewn cyd-destun cyfrifol. Mae'n denu oddeutu 70,000 o ymwelwyr y flwyddyn, 13,000 ohonynt yn rhan o bartïon ysgolion a drefnwyd. Costiodd y fferm £486,000 i'w rhedeg yn 2005/2006, gyda gwerthiannau'n cyfrannu £171,000 a ffïoedd mynediad yn cyfrannu £156,000 tuag at y ffigur hwnnw.

**Gweithgareddau dosbarth i annog mynediad cyfrifol i gefn gwlad**

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cefnogi gweithgareddau dosbarth mewn ysgolion i hybu mynediad cyfrifol i gefn gwlad ac i'r arfordir ymysg plant ysgolion cynradd. Mae warden yn ymweld ag ysgolion i siarad â nhw ac i roi gwybodaeth. Mae'r Awdurdod hefyd yn ariannu drama bypedau mewn ysgolion cynradd ynghylch ymweliadau pleserus a chyfrifol i gefn gwlad ac arfordir Sir Benfro.

**Ymweliadau addysgiadol â pharc cenedlaethol, wedi eu cysylltu â'r cwricwlwm cenedlaethol**

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnig pecynnau addysgiadol pwrpasol sydd wedi eu cysylltu â chyfnod allweddol 2 (oed 7 i 11) y cwricwlwm cenedlaethol, sy'n cynnwys ymweliadau addysgiadol â'r parc. Mae'r pecynnau yn cynnwys gwyddoniaeth, celf, daearyddiaeth, ac addysg bersonol a chymdeithasol, sy'n cwmpasu diogelwch, ymddygiad a chyfrifoldeb. Yn dilyn peth amharodrwydd gan staff dysgu i fynd a phartïon ysgol i'r Parc, teilwrodd yr Awdurdod y pecynnau i'w gwneud yn fwy perthnasol i'r cwricwlwm cenedlaethol. Yn 2005/2006, arweiniodd staff y Parc Cenedlaethol weithgareddau addysgiadol dibreswyl i 3,868 o fyfyrwyr ysgolion a cholegau ac i 2,912 ar gyrsiau preswyl.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

ar gefn gwlad ym mhob un o'r 11 o awdurdodau mynediad lleol y gwnaethon ni ymweld â nhw. Mae awdurdodau mynediad lleol, CCGC a Bwrdd Croeso Cymru (sydd bellach yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad o dan yr enw Croeso Cymru) i gyd yn cynhyrchu amrywiaeth o'r fath daflenni ar ffurfiau lliw deniadol. Yn ystod ein hymweliadau ag awdurdodau mynediad lleol, daethom o hyd i lythyrau i gartrefi mewn derbynfeydd a oedd yn hybu mynediad i gefn gwlad a safleoedd penodol. Mae'r taflenni newyddion hyn ar gael yn helaeth yn adeiladau'r cyngor, fel prif adeiladu'r cyngor a llyfrgelloedd.

**2.12** Mae'r Rhyngrwyd yn cynnig cyfleoedd newydd i hyrwyddo mynediad i gefn gwlad ac yn cynnig gwybodaeth o safon uchel ynghylch hawliau mynediad a llwybrau cerdded. Gwelsom fod


Torfaen County Council Borough Council




14 allan o'r 25 o awdurdodau mynediad lleol (y cyfan o'r tri Awdurdod Parciau Cenedlaethol ac 11 o awdurdodau lleol) wedi rhoi mapiau manwl o lwybrau cerdded lleol ar eu gwefannau (gweler Ffigurau 7 i 9 am enghreifftiau).

**2.13** Fodd bynnag, datgelodd Arolwg Cartrefi CCGC fod 28 y cant o'r rheiny nad ydynt yn ymweld â chefn gwlad yn nodi diffyg gwybodaeth yn rhwystr allweddol. Nododd un ar hugain y cant o'r rheiny sydd yn ymweld â chefn gwlad hefyd fod diffyg gwybodaeth fel rheswm dros beidio ag ymweld yn amlach. Yn ogystal, dim ond 34 y cant o ymatebwyr a oedd wedi clywed am eu hawliau mynediad agored newydd er bod hyn yn cymharu'n ffafriol â'r 31 y cant o bobl yn Lloegr a oedd yn ymwybodol o'r hawliau newydd.[10] Fodd bynnag, nid yw diffyg ymwybyddiaeth benodol o'r cyfleoedd mynediad agored newydd, hynny yw, Rhan 1 CGHT, ynddo'i hun yn arwydd o wybodaeth gyffredinol pobl am y cyfleoedd mynediad sydd ar gael iddynt. Efallai eu bod wedi bod yn mynd ar y tir perthnasol cyn i CGHT gael ei gyflwyno neu efallai'n gweld yr arwyddion mynediad agored heb unrhyw wybodaeth o'r ddeddfwriaeth.

***Mae awdurdodau mynediad lleol yn ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch eu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, ond ychydig o ymgynghori yn unig sy'n digwydd â'r cyhoedd ynghylch mynediad i gefn gwlad yn gyffredinol***

**2.14** Gosododd Adran 60 Deddf CGHT ddyletswydd ar awdurdodau mynediad lleol i ymgynghori'n helaeth wrth baratoi eu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ac ar anghenion y presennol ac anghenion tebygol y dyfodol y cyhoedd


Ffigur 7: Map o Lwybr Gwaenynog, Sir Ddinbych




*Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych*

10 Arolwg Cartrefi CCGC, Hydref 2005 ac Adroddiad y Goruchwyliwr a'r Archwilydd Cyffredinol *The Right of Access to Open Countryside, HC1046,* Mehefin 2006


Ffigur 8: Dyffryn Mounton, Sir Fynwy




*Ffynhonnell: Cyngor Sir Fynwy*



Ffigur 9: Taith gylch Summerhill ac Amroth, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro




Provided courtesy of Pembrokeshire Coast National Park Authority.
This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and lay lead to prosecution or civil proceedings. Pembrokeshire Coast National Park licence/account number 100022534, 2005

*Ffynhonnell: Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro*

am hawliau tramwy lleol. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau mynediad lleol yn annog y cyhoedd i gyfrannu i'r ymgynghori. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn defnyddio eu gwefannau i ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y Cynllun maen nhw'n eu paratoi ar y cyd, ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi rhoi holiaduron mewn cyfleusterau ymwelwyr yng nghefn gwlad i geisio barn y cyhoedd am eu Cynllun hwythau. Mae awdurdodau mynediad lleol hefyd yn gwneud defnydd o fforymau mynediad lleol fel modd o ymgynghori â'r cyhoedd. Rhoddodd CCGC wybod i ni fod rhai awdurdodau mynediad lleol hefyd yn defnyddio grwpiau ffocws, holiaduron paneli o ddinasyddion a digwyddiadau sioeau teithiol i ymgynghori â'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn defnyddio cefn gwlad, ynghylch eu Cynlluniau.

**2.15** Ychydig o dystiolaeth yn unig y daethom o hyd iddo o ymgynghori â'r cyhoedd ar fynediad mwy cyffredinol i gefn gwlad. Awdurdodau'r parciau cenedlaethol sy'n ymgynghori fwyaf â'r cyhoedd, trwy ddefnyddio holiaduron at y pwrpas. Mae awdurdodau mynediad lleol eraill, fel Cynghorau Bwrdeistrefi Sirol Wrecsam a Phen-y-bont ar Ogwr, wedi cynnwys cwestiynau perthnasol mewn arolygon ar y rhyngrwyd neu ar Baneli Dinasyddion. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi cynnal arolwg cyffredinol o'r boblogaeth, a roddwyd ar ei wefan ac ar fewnrwyd y staff, ac mae Cyngor Sir Fynwy'n cynnal grwpiau defnyddwyr y mae'r Swyddog Hawliau Tramwy'n eu mynychu. Fodd bynnag, mae'n harolwg ni'n awgrymu nad yw mwyafrif yr awdurdodau mynediad lleol yn ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch materion mynediad i gefn gwlad. Mae Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru wrthi'n sefydlu cyfres o gwestiynau arolwg penodol y gall awdurdodau mynediad lleol eu defnyddio gyda'r cyhoedd ynghylch mynediad i gefn gwlad.

### *Mae'r awdurdodau mynediad lleol i gyd yn trefnu neu gefnogi digwyddiadau i'r cyhoedd i hyrwyddo mynediad i gefn gwlad ond ni ydynt yn gwerthuso'r digwyddiadau fel rheol*

**2.16** Gellir defnyddio digwyddiadau penodol i annog y cyhoedd i wneud mwy o ddefnydd o gefn gwlad. Mae'r 25 o awdurdodau mynediad lleol i gyd yn trefnu neu gefnogi ystod o ddigwyddiadau cyhoeddus sydd wedi eu cynllunio i hyrwyddo mynediad i gefn gwlad. Mae'r rhain yn cynnwys gwyliau cerdded, teithiau tywysedig a rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau. Mae Cynghorau Cymuned a sefydliadau gwirfoddol lleol yn aml yn gweithio gyda'r awdurdodau mynediad lleol wrth ddatblygu'r digwyddiadau hyn.

**2.17** Pan fo adnoddau sylweddol wedi eu dynodi i ddatblygu'r fath ddigwyddiadau, mae hi'n bwysig bod awdurdodau mynediad lleol yn gwerthuso eu llwyddiannau er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod beth sy'n gweithio'n fwyaf effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau mynediad lleol yn gwerthuso'r digwyddiadau hyn yn rheolaidd neu'n systematig. Chwe awdurdod yn unig sy'n ymgymryd â rhyw fath o werthuso: mae pedwar yn rhoi ffurflenni i bobl ar ddiwedd taith neu'n eu rhoi gyda'r wybodaeth a argraffwyd eisoes am y daith, tra bod dau yn cynnal gwaith arolwg mwy manwl sy'n gysylltiedig â datblygu eu rhaglen flynyddol o deithiau a digwyddiadau cefn gwlad.

### *Mae peth gwaith ymchwil ar droed i'r rhwystrau i fynediad i gefn gwlad*

*Mae peth gwaith ymchwil wedi bod ar lefel genedlaethol*

**2.18** Mae hi'n bwysig bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn deall pa mor helaeth yw defnydd y cyhoedd o gefn gwlad a'r rhwystrau rhag mwy o ddefnydd, fel y gellir targedu adnoddau'n effeithiol. Mae CCGC yn comisiynu arolygon sy'n cynnig ystod eang o wybodaeth ynghylch ymwelwyr â chefn gwlad yn ôl rhyw, hil, oedran, rhanbarth ac anabledd, ac am y rhesymau pam



nad yw pobl yn ymweld â chefn gwlad neu pham nad ydynt yn gwneud hynny'n amlach. Mae hefyd yn datblygu prosiect prawf yn ne Cymru sydd â'r bwriad o annog mwy o hamdden awyr agored. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar agweddau iechyd hamdden awyr agored, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ar greu a chynnal mannau gwyrdd lleol, gyda phwyslais penodol ar gynyddu'r defnydd ymysg pobl sy'n byw mewn cymunedau dan anfantais. Bwriad CCGC yw defnyddio'r prosiect prawf i hybu cynyddu mynediad i gefn gwlad trwy fudiadau sy'n gweithio mewn cymunedau dan anfantais.

**2.19** Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi cyflogi Prifysgol Caerdydd i ymchwilio'r rhwystrau seicolegol i fynediad i gefn gwlad. Un o'r rhwystrau allweddol yw'r ffaith na wnaiff llawer o bobl yr ymdrech i ymweld â chefn gwlad os yw ymhellach na 500 metr i ffwrdd. Adlewyrchwyd pwysigrwydd agosatrwydd cefn gwlad hefyd yn strategaeth *Dringo'n Uwch*. Mae gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru hefyd gangen ymchwil i'r DU gyfan, yr Asiantaeth Ymchwil Coedwigaeth, sydd wedi ymgymryd â pheth gwaith ar adnabod y rhwystrau i fynediad i gefn gwlad.

**2.20** Mae *Mentro Allan* yn rhaglen y Gronfa Loteri Fawr a reolir gan bartneriaeth sy'n cynnwys CCGC, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, Cyngor Chwaraeon Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Bwriad y rhaglen yw hybu mwy o weithgarwch corfforol ymysg grwpiau "anodd eu cyrraedd" trwy ddefnyddio'r amgylchedd naturiol. Bydd pymtheg o brosiectau'n cael eu hariannu ar draws Cymru rhwng 2006 a 2010, wedi eu hanelu at grwpiau sydd â lefelau is na'r cyfartaledd o fynediad i gefn gwlad, fel pobl ifanc, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a'r rheiny sydd ar incwm isel. Er enghraifft, yn Abertawe, mae *Mentro Allan* yn ariannu prosiect a fydd yn targedu gofalwyr yn ogystal â phobl ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu, merched a phobl h n. Bydd y cynllun yn gwerthuso pob un o'r pymtheg prosiect mewn ymgais i gynnig swmp o waith ymchwil i gefnogi mwy o ddefnydd gan y cyhoedd ar gefn gwlad.

*Er bod rhai awdurdodau mynediad lleol yn casglu gwybodaeth am ymwelwyr i gefn gwlad, ychydig iawn o waith ymchwil lleol sydd wedi bod i'r rhwystrau rhag mynediad i gefn gwlad*

**2.21** Mae gwybodaeth am nifer a nodweddion pobl sy'n mynd i wahanol rannau o gefn gwlad yn galluogi awdurdodau mynediad lleol i gynllunio ac i fonitro mentrau i gynyddu defnydd gan y cyhoedd. Mae hefyd yn eu galluogi i ymateb i alw cyhoeddus. Mae gwaith ymchwil cenedlaethol yn cynnig tystiolaeth bwysig ynghylch y ffyrdd mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu pobl rhag cynyddu'r defnydd. Fodd bynnag, mae angen hefyd am waith ymchwil lleol i'r rhwystrau sy'n benodol i amgylchiadau pob awdurdod mynediad lleol. Gall rhwystrau lleol fod yn ymwneud â safleoedd cefn gwlad penodol, cludiant cyhoeddus neu â grwpiau penodol o bobl mewn cymunedau lleol.

**2.22** Mae saith awdurdod mynediad lleol yn defnyddio rhifyddion electronig ar y llwybrau i fonitro'r defnydd ar eu hawliau tramwy pwysig. Er bod Awdurdodau eraill yn ystyried defnyddio rhifyddion electroneg ar y llwybrau, ar hyn o bryd maent yn dibynnu ar ddulliau fel cyfrif ceir mewn meysydd parcio ac arolygon ymwelwyr. Dywedodd un ar ddeg o'r pum awdurdod mynediad lleol ar hugain wrthym eu bod nhw'n ymgynghori â phobl anabl ynghylch mynediad i gefn gwlad. Mae ffurf yr ymgynghori'n amrywio o arolygon i gyfarfodydd ac ymweliadau â safleoedd. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth sydd yna bod awdurdodau mynediad lleol yn cynnal gwaith ymchwil i'r rhwystrau i fynediad yng nghefn gwlad sy'n wynebu pobl o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Mae sgôp felly am welliannau ar draws y rhan fwyaf o Gymru wrth gasglu gwybodaeth

Ffigur 10: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod tri nod uchelgeisiol, tymor hir sy'n gysylltiedig â'r defnydd ar gefn gwlad

| | |
|---|---|
| Nod 10 | Bydd canran y bobl sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn cynyddu o 36 y cant i 60 y cant. |
| Nod 11 | Bydd gan 95 y cant o'r bobl yng Nghymru lwybr troed neu lwybr beicio o fewn gwaith cerdded deng munud i'w cartref. |
| Nod 12 | Ni ddylai neb fyw ymhellach na gwaith cerdded chwe munud (300 metr) o'u man gwyrdd naturiol agosaf. |

*Ffynhonnell: Dringo'n Uwch, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ionawr*

am ymwelwyr, nid yn unig i gynorthwyo awdurdodau mynediad lleol wrth reoli mynediad i gefn gwlad, ond hefyd i roi darlun cenedlaethol mwy cynhwysfawr a dibynadwy i CCGC a Llywodraeth y Cynulliad ynghylch mynediad i gefn gwlad a thueddiadau ymwelwyr.

## Mae sefydliadau sector cyhoeddus Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ar y cyfan yn eu gwaith ynghylch mynediad i gefn gwlad

*Mae sector cyhoeddus Cymru wedi dechrau gweithio tuag at nodau strategol cyffredin sy'n gysylltiedig â'r defnydd ar gefn gwlad*

**2.23** Mae gan *Dringo'n Uwch,* strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer chwaraeon a gweithgaredd corfforol, dri nod uchelgeisiol, tymor hir i'w cyflawni erbyn 2025 sy'n ymwneud â mynediad i gefn gwlad (Ffigur 10). Bydd cyflawni'r nodau hyn yn dibynnu ar gydweithio effeithiol rhwng nifer o sefydliadau sector cyhoeddus, ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu gweithgor i fonitro cynnydd. Mae'r grŵp yn cynnwys CCGC, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Croeso Cymru (Bwrdd Croeso Cymru gynt) a Chyngor Chwaraeon Cymru. Mae'r grŵp wrthi'n cynllunio Arolwg Hamdden Cefn Gwlad Cymru, a allai gael ei ddefnyddio'n rhannol i fonitro cynnydd tuag at nodau *Dringo'n Uwch*, ac i gasglu gwybodaeth berthnasol arall.

**2.24** Bydd Strategaeth Gludiant newydd yn gogynnwys *Strategaeth Cerdded a Seiclo Cymru* (Rhagfyr 2003) ar ôl yr ymgynghoriad presennol ar y drafft. Er mai nod cyffredinol y strategaeth bresennol yw "cynyddu lefelau cerdded", nid oes ganddo nod rhifol mewn perthynas â cherdded. Dywedodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrthym y bydd y Strategaeth Gludiant newydd yn gosod a monitro targedau, y bydd angen iddyn nhw fod yn gyson â thargedau *Dringo'n Uwch*.

*Gellid gwella'r berthynas rhwng rhai awdurdodau mynediad lleol a'u fforymau mynediad lleol*

**2.25** Roedd CGHT yn gofyn ar i bob awdurdod mynediad lleol sefydlu fforwm mynediad lleol i'w cynghori ar faterion mynediad i gefn gwlad (Blwch 4). Penderfynodd rhai Awdurdodau fel Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sefydlu mwy nac un fforwm mynediad lleol ar sail ddaearyddol. Teimlai tri chwarter cadeiryddion fforymau mynediad lleol i'w Fforwm nhw ddylanwadu ar weithredoedd eu hawdurdod mynediad lleol. Roedd cyfran debyg o awdurdodau'n credu bod eu fforymau mynediad lleol wedi gwneud cyfraniad effeithiol ynghylch mynediad i gefn gwlad yn eu hardal. Gan mai ond er tair blynedd y mae'r rhan fwyaf o'r fforymau wedi bod mewn bodolaeth, mae hyn yn dangos cynnydd da eu wrth sefydlu'u hunain yn rym dylanwadol ym materion mynediad i gefn gwlad.



**2.26** Fodd bynnag, nododd rhai awdurdodau mynediad lleol a rhai o gadeiryddion fforymau mynediad lleol broblemau yn y berthynas rhyngddynt. Nododd tri awdurdod nad oedd eu Fforymau'n ddigon deinamig: dywedodd un nad oedd ei Fforwm wedi cynnig unrhyw gyngor nac adborth effeithiol yn ystod tair blynedd ei fodolaeth; dywedodd un arall fod ei Fforwm i'w weld yn amharod i arwain ar unrhyw fater; a dywedodd trydydd awdurdod nad oedd ei Fforwm wedi gallu darparu sylwadau manwl ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, er gwaethaf hyfforddiant ac anogaeth.

**2.27** Mewn pum ardal arall, credai cadeiryddion y fforymau mynediad lleol nad oedd eu hawdurdodau mynediad lleol yn eu cymryd o ddifrif, gan ystyried ymateb yr awdurdod a'r berthynas rhwng aelodau'r awdurdod a'r Fforwm yn wael neu'n wael iawn. Felly, mewn un rhan o dair o ardaloedd gwelsom

## Astudiaeth Achos C

**Cyflwyno manteision iechyd cerdded mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn Sir Ddinbych**

Mae menter *Cerdded Llwybr Iechyd* yn Sir Ddinbych, o dan yr enw *Traed yn Rhydd*, yn rhaglen o deithiau cerdded tywysedig 30 munud a throsodd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar unigolion sy'n anactif neu sy'n ynysig yn gymdeithasol. Dechreuodd y bartneriaeth leol sy'n cynnal y rhaglen trwy dargedu'r Rhyl ac, yn benodol, dwy ardal Cymunedau'n Gyntaf y dref. Mae'r cynllun yn ehangu i ardaloedd eraill yn Sir Ddinbych. Mae tîm o 28 o wirfoddolwyr wedi'u hyfforddi yn arwain y teithiau yn eu hardaloedd. Yn 2005, cymerodd 1,213 o unigolion ran yn y teithiau tywysedig. Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol hefyd wedi lansio teithiau cerdded amser cinio o Barc Busnes Llanelwy ac Ysbyty Stanley o dan gynllun Traed yn Rhydd. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi dosbarthu 35,000 o daflenni ac wedi llwyddo i gael 41 o storïau am y prosiect yn y cyfryngau lleol.

**Prosiect TAWE mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn Abertawe**

Enw menter *Cerdded Llwybr Iechyd* yn Abertawe yw prosiect TAWE. Mae'n bartneriaeth rhwng y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, y Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol lleol ac adrannau perthnasol Cyngor Sir Dinas Abertawe. Bwriad y fenter yw sefydlu teithiau cerdded iechyd mewn wyth ardal Cymunedau'n Gyntaf. Swyddogion y cyngor yw arweinwyr y teithiau fel arfer. Hyfforddwyd aelodau'r cyhoedd hefyd fel y gallant fod yn arweinwyr teithiau gwirfoddol. Mae wyth taith yr wythnos ar draws Abertawe. Yn y deuddeng mis hyd Mai 2006, bu 340 o deithiau gyda rhwng chwech ac 14 o gerddwyr rheolaidd ar bob un, y rhan fwyaf ohonynt yn ferched dros eu 50 oed. Mae'r teithiau'n rhai amrywiol ac yn cynnwys parciau, glan y môr, y marina ac ystadau tai lleol. Hysbysebir nhw mewn meddygfeydd, llyfrgelloedd, canolfannau cymuned a busnesau lleol. I godi ymwybyddiaeth o negeseuon iechyd gweithgaredd corfforol ac annog pobl i gymryd rhan yn y teithiau iechyd hyn, mae swyddfa leol y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol wedi dosbarthu 18,000 o lyfrynnau i safleoedd cymunedol gan gynnwys siopau, llyfrgelloedd, fferyllfeydd a theatrau, wedi hysbysebu yn y wasg leol, wedi defnyddio baneri dros bontydd ac wedi mynychu gwyliau lleol.

**Adeiladu gallu trwy hyfforddi gwirfoddolwyr yn Ystradgynlais**

Yn Ystradgynlais, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol sy'n rhedeg y fenter *Cerdded Llwybr Iechyd*. Mae'n rhaglen o deithiau tywysedig ac annibynnol a arweinir gan wirfoddolwyr sydd wedi derbyn diwrnod o hyfforddiant gan staff y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol. Ar hyn o bryd mae 14 o wirfoddolwyr yn Ystradgynlais gyda 10 arall am gael hyfforddiant cyn diwedd 2006. Cangen leol Cymdeithas Cerddwyr Cymru a chydlynydd a gyflogwyd a fapiodd y teithiau, a all gynnwys rhwng dau a 35 o bobl ac sy'n digwydd unwaith yr wythnos ar hyn o bryd, er bod bwriad i'w cynnal yn amlach. Mae'r Cydlynydd wedi sefydlu cysylltiadau â chlybiau colli pwysau a gweithleoedd. Erbyn diwedd 2006, y bwriad yw y bydd gan y prosiect becyn adnoddau, gyda mapiau a thaflenni cerdded, a gwefan gysylltiedig.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.*

bosibilrwydd amlwg i ddatblygu perthynas waith mwy effeithiol rhwng y fforwm mynediad lleol a'r awdurdod mynediad lleol.

*Mae partneriaethau wedi sefydlu rhai mentrau llwyddiannus i hyrwyddo'r manteision o ran iechyd i gerdded*

**2.28** Mae manteision iechyd cerdded yn un o'r prif fanteision o gynyddu defnydd y cyhoedd ar gefn gwlad. Bwriad menter *Cerdded Llwybr Iechyd* yw gwella iechyd cyhoeddus trwy hyrwyddo cerdded bywiog yn rheolaidd. Prosiect pedair blynedd ydyw i ddechrau a fydd yn cael ei gynnal hyd at 2007, gan ganolbwyntio ar bobl hŷn ac ar y rheiny sydd â phroblemau cardiaidd, yn bennaf mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf (Astudiaeth Achos C). Y partneriaid ariannu yw CCGC, y Gronfa Cyfleoedd Newydd, Llywodraeth y Cynulliad a Sefydliad Prydeinig y Galon. Awdurdodau lleol sy'n arwain ar ffurfio partneriaethau lleol. Mae'r arfer da y daethpwyd o hyd iddynt o'r astudiaethau achos yn cynnwys:

**a** amlygu'r cysylltiadau rhwng hybu iechyd ac amddifadedd cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf;

**b** cynnwys meddygon teulu er mwyn annog pobl ag anghenion iechyd y gellir eu cefnogi â cherdded yn rheolaidd; ac

**c** adeiladu gallu trwy hyfforddi aelodau'r cyhoedd i arwain teithiau cerdded.

**2.29** Ar wahân i fenter *Cerdded Llwybr Iechyd*, ceir enghreifftiau eraill o gyrff sector cyhoeddus yn cysylltu iechyd a gwasanaethau mynediad i gefn gwlad. Er enghraifft, yng Nghaerffili, rhoddwyd arian Cronfa Anghydraddoldeb Iechyd[11] trwy'r Bwrdd Iechyd Lleol i arbenigwr

## Astudiaeth Achos D

**Cysylltu iechyd a mynediad i gefn gwlad trwy gyd-ariannu swydd arbenigwr ymarfer corff**

Bwrdeistref Sirol Caerffili sydd â'r disgwyliad oes pedwerydd o'r isaf, y statws iechyd meddyliol a chorfforol trydydd o'r isaf, y lefelau uchaf o ordewdra ac un o'r lefelau uchaf o Glefyd Coronaidd y Galon (CCG) yng Nghymru. Mae hi felly'n ardal flaenoriaeth ar gyfer mentrau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Trwy sefydlu swydd Arbenigwr Ymarfer Corff, mae Adran Adsefydlu Cardiaidd Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent ac Adran Cefn Gwlad a Thirwedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi arloesi rhaglen "calonnau iach" o ddosbarthiadau addysgiadol ac ymarfer a atgyfeirir gan feddygon teulu i gleifion sydd â Chlefyd Coronaidd y Galon sefydledig, a chynllun cerdded ar gyfer y rheiny sydd yn dymuno cynyddu lefelau eu gweithgaredd corfforol wrth fynd i gefn gwlad. Cost y cynllun, sy'n cynnwys cyfraniad gan nyrs adsefydlu cardiaidd arbenigol, yw £60,000 y flwyddyn. Mae'r Arbenigwr Ymarfer yn treulio tri diwrnod yr wythnos yn gweithio mewn ysbytai a safleoedd cymunedol gyda'r tîm adsefydlu cardiaidd, a dau ddiwrnod yr wythnos gydag Adran Cefn Gwlad a Thirwedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, gan hyrwyddo ac arwain teithiau cerdded yng nghefn gwlad a chydlynu rhwydwaith o arweinwyr teithiau wedi'u hyfforddi sy'n arwain teithiau wythnosol rheolaidd. Mae'r cynllun cerdded yn targedu pum ardal Cymunedau'n Gyntaf yn y Fwrdeistref sydd hefyd yn agored i gleifion nad ydynt yn gleifion cardiaidd. Yn ystod wyth mis cyntaf ei fodolaeth o Fedi 2004, ymgymerodd 140 o unigolion ag oddeutu 1,006 o deithiau rhyngddynt. Yn ogystal ag arwain y teithiau, datblygodd yr Arbenigwr Ymarfer lwybrau newydd, hyfforddodd 34 o wirfoddolwyr i fod yn arweinwyr teithiau, cynhyrchodd lyfrynnau a dosbarthu 7,500 o daflenni am y cynllun mewn cyfleusterau cymunedol fel meddygfeydd, llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol. Erbyn diwedd Ebrill 2006, roedd 10 Meddyg Teulu a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd yn atgyfeirio cleifion i'r cynllun.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

11 Cronfa yw hon a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i weithredu rhai o argymhellion ynghylch anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru yn dilyn cyhoeddi "Adolygiad o Ofal Iechyd a Chymdeithasol yng Nghymru" yn 2003, dan gadeiryddiaeth Syr Derek Wanless.



## Astudiaeth Achos E: Cyflwyno manteision economaidd-gymdeithasol mynediad i gefn gwlad trwy gysylltiadau cludiant cyhoeddus

**Partneriaeth Goriad Gwyrdd Eryri**

Mae prosiect Goriad Gwyrdd yn bartneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau Llywodraeth y Cynulliad (Awdurdod Datblygu Cymru gynt) a Chroeso Cymru (Bwrdd Croeso Cymru gynt). Ei fwriad yw darparu rhwydweithiau cludiant integredig a chynaliadwy ac i hyrwyddo cymunedau hyfyw trwy adfywio economaidd. Mae mynediad gwell i ogledd Eryri trwy gludiant cynaliadwy yn elfen allweddol o'r cynllun, sy'n gweithio'n agos â grwpiau defnyddwyr a busnesau lleol. Mae'r cynllun hefyd yn anelu i leihau'r ddibyniaeth ar y car trwy mynediad trwy gludiant cyhoeddus i ardal graidd gogledd Eryri. Bwriad arall hefyd yw gwella meysydd parcio a chysylltiadau i lwybrau cerdded a llwybrau seiclo. Mae cynlluniau ar gyfer codi arian mewn rhai meysydd parcio er mwyn ariannu gwasanaethau bysiau yn yr ardal. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys cynigion i wella rhai o'r llwybrau cerdded a seiclo allweddol yn Eryri.

**Cynllun Lonydd Glas Sir Benfro**

Mae cynllun Lonydd Glas yn Sir Benfro yn hyrwyddo a hwyluso mynediad cynaliadwy i gefn gwlad i drigolion lleol ac ymwelwyr. Mae'n cael ei reoli gan bartneriaeth sy'n cynnwys Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, CCGC, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Grŵp Mynediad Sir Benfro (yn cynrychioli pobl anabl), Amgylchedd Cymru (grŵp o elusennau amgylcheddol sy'n gweithio yn y sir) a Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro er Menter a Datblygu (PLANED). Mae'r cynllun yn cwmpasu gwasanaethau bysiau a threnau, seiclo a cherdded i bobl o bob gallu corfforol. Mae'r Bartneriaeth wedi gweithio â grwpiau anabledd lleol i wella mynediad i'r anabl i rannau o'r rhwydwaith llwybrau troed ac ar ei hyd. Mae'n lledaenu gwybodaeth am y teithiau lawer sydd ar gael yn yr ardal ac yn ysgogi cyfleoedd busnes sy'n gysylltiedig â mynediad i gefn gwlad. Mae hefyd yn hyrwyddo a chynnal arolygon adborth cwsmeriaid. Adlewyrchir manteision economaidd y cynllun i'r economi leol yn y gefnogaeth a roddir gan y gymuned fusnes lleol. Fel arwydd o lwyddiant y Bartneriaeth, erbyn 2004 roedd holl Lwybr yr Arfordir ar ei hyd yn hygyrch trwy gludiant cyhoeddus, o'i gymharu ag ond un rhan o dair yn 2000. Darperir y gwasanaethau hyn gan gyfraniadau ariannol oddi wrth y Parc Cenedlaethol, a'u hyrwyddo trwy Bartneriaeth Lonydd Glas.

**Bws Crwydrwr Clwyd**

Gwasanaeth yn ystod dyddiau Sul a Gwyliau Banc yr haf yw hwn a gynlluniwyd i hwyluso mynediad cefn gwlad ym Mryniau Clwyd yn ne-ddwyrain Cymru. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar dair ardal awdurdodau mynediad lleol – Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam – y maent i gyd yn cynnwys ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, ond sydd hefyd yn cysylltu â phoblogaethau helaethach gogledd-orllewin Lloegr a gogledd Cymru. Bu ar waith ers wyth mlynedd gan dderbyn cymhorthdal cyhoeddus o ryw £30,000. Mae ei lwybr yn cysylltu â gwasanaethau bysiau eraill ac, am y tro cyntaf yn 2005 fe wasanaethodd y gwersylloedd gwyliau ar yr arfordir. Cysylltir y llwybrau hefyd â'r rhwydwaith rheilffyrdd a gall llawer o'r gwasanaethau gludo beiciau. Yn 2005, defnyddiodd 2,000 o bobl y gwasanaeth. Heb y gwasanaeth, byddai cael mynediad i Fryniau Clwyd yn eithriadol o anodd i lawer o bobl, fel y rheiny sydd heb eu cludiant preifat eu hunain.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

### Astudiaeth Achos F: Darparu buddion economaidd-gymdeithasol trwy ddatblygu Llwybr Arfordir Ynys Môn

Datblygwyd Llwybr Arfordir Ynys Môn gan bartneriaeth a oedd yn cynnwys Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru (ill dau bellach yn rhan o Adran Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau Llywodraeth y Cynulliad), Cyngor Sir Ynys Môn, CCGC, Menter Môn (y corff datblygu economaidd lleol), yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae'r Bartneriaeth yn amcangyfrif bod 303,000 o gerddwyr yn defnyddio'r llwybr yn flynyddol, gan greu budd economaidd o fwy na £12 miliwn. Gan adeiladu ar hawliau tramwy a oedd yn bodoli eisoes, mae'r Bartneriaeth wedi cwblhau llwybr troed 125 milltir o hyd o gwmpas arfordir yr ynys gyda dau fwlch bychan yn unig. Gwellwyd rhai rhannau o'r llwybr wedi ar gyfer y rheiny sydd â phroblemau symud. Mae'r llwybr wedi ei integreiddio â chludiant cyhoeddus mewn amryw o fannau allweddol ar ei hyd. Sicrhaodd y Bartneriaeth fod y gwaith adeiladu'n cael ei wneud gan weithwyr lleol trwy ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy lleol. Rhoddwyd blaenoriaeth yn ogystal i gael perthynas dda â thirfeddianwyr hefyd, a arweiniodd at gytundeb llwyddiannus ar hawliau tramwy newydd a hawliau mynediad newydd trwy ganiatâd. Cynhyrchwyd ystod o ddeunydd hyrwyddo hefyd. Bu'r Bartneriaeth yn llwyddiannus trwy alluogi'r holl asiantaethau allweddol i weithio gyda'i gilydd tuag at nodau cyffredin sy'n cefnogi nodau'r asiantaethau unigol eu hunain. Estynnodd y dull partneriaeth hefyd i ariannu'r prosiect – wrth i'r £1.43 miliwn a gafwyd dros bedair blynedd ddod o gronfa Amcan Un yr Undeb Ewropeaidd ac arian cyfatebol gan yr asiantaethau partner.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

ymarfer corff weithio i dîm Adsefydlu Cardiaidd Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent ac Adran Cefn Gwlad a Thirwedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Astudiaeth Achos D). Y ffactorau allweddol yn llwyddiant y fenter oedd y bartneriaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth GIG, yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol, darparu arian cylchol, a'r pwyslais ar adeiladu gallu trwy hyfforddi gwirfoddolwyr.

*Sefydlwyd nifer o gynlluniau cludiant llwyddiannus er mwyn ei gwneud yn fwy hwylus i fynd i gefn gwlad*

**2.30** Mae diffyg cludiant cyhoeddus yn rhwystr sylweddol i gynyddu'r defnydd ar gefn gwlad, yn enwedig ymysg pobl anabl a'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. Daethom o hyd i nifer o gynlluniau sy'n seiliedig ar gludiant a gynlluniwyd i annog cynyddu defnydd y cyhoedd ar gefn gwlad, pob un yn golygu bod sefydliadau sector cyhoeddus yn cydweithio mewn partneriaeth (Astudiaeth Achos E). Roedd nodweddion y cynlluniau hyn yn cynnwys cludiant integredig, dull o ddefnyddio partneriaeth a chyllidebau cyffredin.

*Mae gweithio mewn partneriaeth wedi cyflwyno prosiectau mynediad i gefn gwlad o safon uchel gyda manteision economaidd-gymdeithasol sylweddol*

**2.31** Yn ogystal â phrosiectau ar y cyd sydd â'r bwriad o wella iechyd neu gludiant, daethom o hyd i enghreifftiau o brosiectau ar y cyd sydd wedi creu neu wella mynediad cyhoeddus i gefn gwlad, tra hefyd yn cyflwyno manteision economaidd-gymdeithasol sylweddol i'r gymuned leol. Er enghraifft mae Llwybr Arfordir Ynys Môn yn awgrymu y gall buddsoddi strategol mewn mynediad i gefn gwlad fod yn gost-effeithiol (Astudiaeth Achos F).

*Mae rhai awdurdodau mynediad lleol yn cydweithio ag asiantaethau statudol eraill i wella mynediad i gefn gwlad*

**2.32** Mae rhai awdurdodau mynediad lleol yn cydweithio ag asiantaethau statudol eraill a chyrff gwirfoddol i wella mynediad i gefn gwlad yn eu hardaloedd (Astudiaeth Achos G). Gall manteision y trefniadau hyn gynnwys cynyddu ymrwymiad lleol i wella mynediad i gefn gwlad a gwneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd ar



Astudiaeth Achos G: Mae rhai awdurdodau mynediad lleol yn gweithio gyda cyrff statudol er mwyn gwella mynediad i gefn gwlad

**Cynnwys cynghorau cymuned wrth gynnal a chadw llwybrau troed yn Sir Gaerfyrddin**

Mae hanner cant allan o 72 o Gynghorau Cymuned Sir Gaerfyrddin wedi ymuno â Rhaglen Gymuned y Cyngor Sir, sy'n cynnig ariannu gwerth 90 y cant o'r arian ar gyfer cynnal a chadw llwybrau troed a llwybrau ceffyl. Mae'r Cyngor Sir yn clustnodi oddeutu un rhan o dair o'i gyllideb cynnal a chadw flynyddol at y cynllun, sydd ar hyn o bryd wedi ymdrin â rhyw 10 y cant o'r 3,000 o lwybrau'r Sir a thua 15,000 o eitemau o ddodrefn llwybr. Mae Cynghorau Cymuned yn ceisio am yr arian yn ystod y gwanwyn, ar gyfer gwneud y gwaith yn ystod yr haf a'r hydref. Gall y ceisiadau amrywio o un neu ddau o lwybrau i raglenni mawr sy'n cynnwys hyd at 30 o lwybrau.

Aelodau a chlercod y Cynghorau Cymuned sy'n gwneud llawer o'r gwaith gweinyddol, gan felly leihau'r baich ar yr awdurdod mynediad lleol. Mae Cynghorwyr Cymuned yn adnabod eu rhwydweithiau llwybr troed lleol, yn deall anghenion lleol, ac yn adnabod contractwyr lleol. Mae ariannu'r gwaith a'r cyfrifoldeb dros asesu safon y gwaith yn aros yn y gymuned leol. Mae'r broses wedi mynd gam ymhellach mewn rhai cynghorau cymuned sydd ar gyrion trefi, wrth iddyn nhw ddod yn asiant ffurfiol ar gyfer gwaith cynnal a chadw llwybrau troed.

**Ariannu cynnal a chadw llwybrau trwy ddefnyddio meini prawf eglur ynghylch y manteision yng Ngheredigion**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn dyrannu £20,000 y flwyddyn (15 y cant o'i gyllideb hawliau tramwy) i'w Gynllun Llwybrau Cymunedol y mae'n ei reoli gyda Chynghorau Cymuned. Cymerodd un Cyngor Cymuned ar ddeg ran yn 2005/2006 ac mae'r awdurdod mynediad lleol yn rhagweld y bydd 15 yn cymryd rhan yn 2006/2007. Mae'r Cyngor Sir ar hyn o bryd yn ariannu 75 y cant o'r gwaith ar hawliau tramwy y mae'r Cynghorau Cymuned yn eu nodi yn eu hardaloedd. Mae'r meini prawf y mae Cyngor Sir Ceredigion yn eu defnyddio ar gyfer dyrannu'r grant yn cynnwys:

- y manteision i'r gymuned leol ac i ymwelwyr;
- darparu cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad;
- darparu cysylltiadau rhwng cyfleusterau cymuned a nodweddion o ddiddordeb;
- sefydlu neu wella'r cysylltiadau i greu rhwydweithiau llwybrau troed;
- cyfrannu at ddatblygu rhwydwaith strategol o lwybrau cymuned;
- ail-agor llwybrau a rwystrwyd;
- gwella cyfleoedd ar gyfer mynediad gan bobl anabl; a
- darparu cysylltiadau i dir mynediad agored newydd.

Mae rheolwyr yn credu bod cymunedau lleol wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynllun, sydd wedi bod o help iddynt ganolbwyntio ar yr hawliau tramwy y maent yn eu hystyried o werth. Mae hefyd wedi codi proffil llwybrau toed a mynediad i gefn gwlad yn gyffredinol.

**Y Gwasanaeth Prawf**

Gall troseddwyr gael eu dedfrydu i ymgymryd â hyd at 300 awr o waith di-dâl sydd o fudd i'r gymuned leol (y Gorchmynion Gwasanaeth Cymunedol gynt). Mae Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru wedi goruchwylio troseddwyr sy'n gweithio ar amrywiaeth eang o waith cynnal a chadw a gwella llwybrau troed mewn amryw o safleoedd lleol gan gynnwys:

*parhad...*

- clirio llwybrau troed;
- gwaith cadwraeth cyffredinol;
- adeiladu pontydd troed;
- gwellau glannau afonydd; ac
- adeiladu ac atgyweirio dodrefn llwybrau troed fel ffensys, meinciau a grisiau.

Mae Gwasanaeth Prawf Dyfed-Powys hefyd wedi goruchwylio troseddwyr ar ystod o brosiectau mynediad i gefn gwlad gan gynnwys:

- gosod llwybrau troed a ffensys newydd ym Mharc Dinefwr, lle mae troseddwyr wedi bod yn cynorthwyo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am 14 blynedd;
- adeiladu ffordd gerdded risiog o barc carafanau poblogaidd at afon; a
- gwaith maes cyffredinol a gosod a chynnal a chadw llwybrau.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

## Astudiaeth Achos H: Mae rhai awdurdodau mynediad lleol yn gweithio gyda gwirfoddolwyr er mwyn gwella mynediad i gefn gwlad

**Gwella hawliau tramwy trwy gyfrwng sefydliad gwirfoddol ym Mro Morgannwg**

Sefydliad gwirfoddol yw Valeways sy'n gweithio ar lwybrau troed ym Mro Morgannwg. Mae ei weithlu rheng flaen yn cynnwys hyd at 50 o wirfoddolwyr, gan gynnwys rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu. Mae'r sefydliad yn gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod mynediad lleol, Cyngor Bro Morgannwg, wrth gynllunio ei raglen o wella ac ail-agor llwybrau troed. Trwy ddefnyddio arian gan yr awdurdod lleol, bwriad Valeways yw gwella 15 cilomedr o'r rhwydwaith hawliau tramwy ym Mro Morgannwg y flwyddyn, gan gynnwys gosod ac ailosod dodrefn llwybrau. Mae Valeways wedi adeiladu oddeutu 60 o deithiau cylch ar 15 darn o lwybrau troed. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar gynllun ar gyfer llwybr y gall pobl anabl yn ei ddefnyddio. Mae Valeways hefyd yn arwain teithiau cerdded ac yn cynhyrchu deunydd hyrwyddo. Mae gwersi allweddol yn cynnwys gwerth o wiethio mewn partneriaeth â'r Cyngor, Cymdeithas y Cerddwyr a thirfeddianwyr; cael bwrdd rheoli ac ymddiriedolwyr rhagweithiol a medrus; datblygu sylfaen gadarn o wirfoddolwyr; a chynnig cyfleoedd gwirfoddoli i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu.

**Gweithio gyda gwirfoddolwyr**

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen dri grŵp o wirfoddolwyr yn eu cynorthwyo gyda gwella mynediad i gefn gwlad. Mae un grŵp yn gweithio gyda wardeiniaid wrth osod dodrefn llwybrau. Maent wedi gosod mwy na mil o eitemau gan gynnwys camfeydd, gatiau, meinciau a chuddfan gwylio adar. Maent hefyd wedi gosod rhwystrau i berswadio pobl yn erbyn beicio modur anghyfreithlon oddi ar y ffordd. Mae ail grŵp yn canolbwyntio ar reoli'r amryw goetiroedd bychain cymunedol yn Nhorfaen. Mae trydydd grŵp yn gweithio gyda'r gwasanaeth ceidwaid parc ar Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon, gan ymgymryd â nifer o dasgau yno, gan gynnwys monitro ecolegol, casglu sbwriel, gwaith diogelwch a chynnal a chadw hawliau tramwy. Cred y Cyngor Bwrdeistref Sirol bod y cynlluniau gwirfoddol wedi ennill parch tirfeddianwyr am safon y gwaith.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*





Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

**Gwirfoddelwyr yn Torfaen (Astudiaeth Achos H)**

gael ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwella. Mae llawer o Gynghorau Tref a Chymuned yn awyddus i ddefnyddio eu grymoedd statudol i godi arwyddbyst a hysbysfyrddau.

**2.33** Yn ogystal â gweithio gyda cyrff statudol, fel Cynghorau Cymuned a'r Gwasanaeth Prawf, gall awdurdodau mynediad lleol wella mynediad i gefn gwlad hefyd trwy weithio gyda sefydliadau sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr unigol (Astudiaeth Achos H). Gall gweithio gyda'r sector gwirfoddol nid yn unig wella mynediad i gefn gwlad, gall hefyd annog mwy o ymrwymiad cyhoeddus i gefn gwlad a gall wella'r berthynas â thirfeddianwyr.

**Er bod enghreifftiau o arfer da i'w cael, mae angen i sector cyhoeddus Cymru ymwneud fwy â phobl anabl, cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig**

***Mae rhai enghreifftiau da o awdurdodau mynediad lleol yn gweithio gyda phobl anabl i gynyddu eu defnydd ar gefn gwlad, ond nid yw'r rhain yn rhai helaeth***

*Mae nifer fach o awdurdodau mynediad lleol yn cynnwys pobl anabl yn uniongyrchol wrth asesu eu cyfleusterau cefn gwlad ar gyfer mynediad i'r anabl*

**2.34** Mae rhai awdurdodau mynediad lleol yn cynnwys pobl anabl yn uniongyrchol wrth asesu addasrwydd hawliau tramwy cyhoeddus a'u gofynion o ran mynediad i gefn gwlad. Yn Sir Fynwy, cynhwysodd yr awdurdod mynediad lleol bobl anabl annibynnol wrth asesu rhannau penodol o lwybrau troed (Astudiaeth Achos I). Ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, adolygodd Grŵp Mynediad Sir Benfro[4] lwybr yr arfordir o safbwynt mynediad i'r anabl. Arweiniodd hyn at gyhoeddi arweinlyfr i bobl anabl sydd eisiau defnyddio'r llwybr. Asesodd Grŵp Gweithredu Sir Benfro hefyd safleoedd mynediad i gefn gwlad a reolir ar gyfer mynediad

12 Sefydliadau sector gwirfoddol o bobl anabl mewn ardal Awdurdod Lleol penodol yw Grwpiau Mynediad Lleol, sy'n bodoli i hyrwyddo gwasanaethau i bobl anabl.

### Astudiaeth Achos I: Cymryd anghenion pobl anabl i ystyriaeth

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi datblygu nifer o fentrau i hyrwyddo a hwyluso mynediad i gefn gwlad i bobl anabl. Mae ganddo gysylltiadau hir sefydlog â phum grŵp anabl sy'n cynrychioli tri math o anabledd: corfforol, synhwyraidd a gwybyddol. Er mwyn asesu priodoledd rhai mannau allweddol o'i rwydwaith llwybrau troed o ran mynediad i'r anabl, cynhwysodd y Cyngor bobl annibynnol i gerdded sawl rhan o'r llwybrau gyda phobl anabl gan felly allu cymryd eu barn i ystyriaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn dilyn polisi mynediad lleiaf rhwystrol sy'n cael gwared â'r holl rwystrau y gellir eu symud yn ddiogel, er enghraifft lle nad oes unrhyw ystyriaethau o ran rheoli anifeiliaid fferm. Mae hyn hefyd yn cynorthwyo grwpiau eraill, fel pobl â choetsys, i gael mynediad i gefn gwlad.

Mae gan Gyngor Sir Mynwy hefyd wefan benodol[13] ar gyfer mynediad cefn gwlad i'r anabl, sy'n cyhoeddi teithiau cerdded a gweithgareddau eraill a chynnig cysylltiadau i fapiau ar y we. Mae'r wefan hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod sgwteri i'r anabl ar gael, er mwyn galluogi pobl anabl i gael mynediad i rai rhannau o rwydwaith llwybrau troed y Cyngor.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

i'r anabl. Ym Mro Morgannwg, cerddodd y fforwm mynediad lleol lwybrau gyda phobl ddall ar ran yr awdurdod mynediad lleol. Ym Mhowys, cynhwysodd yr awdurdod mynediad lleol grŵp mynediad lleol wrth ddatblygu arweinlyfr ynghylch mynediad i gefn gwlad i'r anabl.

**2.35** Ychydig o dystiolaeth arall o ymwneud mor uniongyrchol â hyn a ddatgelodd ein harolwg o awdurdodau mynediad lleol. Cyfeiriodd amryw at ymgynghori â phobl anabl, yn aml wrth ddatblygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Fodd bynnag, awgrymodd ein harolwg o Grwpiau Mynediad Lleol sy'n cynrychioli pobl anabl mai cyfyngedig oedd eu cyfraniad yn aml, a bod awdurdodau mynediad lleol weithiau'n ymgynghori â phobl y maen nhw'n eu hystyried yn arbenigwyr ar anabledd, yn hytrach na phobl anabl eu hunain.

*Mae pum awdurdod mynediad lleol yn trefnu digwyddiadau yn benodol neu'n bennaf i bobl anabl*

**2.36** Yn ein harolwg, adroddodd pedwar awdurdod mynediad lleol iddynt drefnu digwyddiadau cefn gwlad i bobl anabl:

- mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau perthnasol, gan gynnwys diwrnodau'n rhoi blas i amryw o grwpiau anabl. Yn 2005, trefnodd "Daith Wendy" a olygodd fod rhyw 200 o ddefnyddwyr newydd anabl wedi gallu mynd at lwybr yr arfordir;
- mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn trefnu digwyddiadau yn ei barciau gwledig i amryw grwpiau o bobl anabl, gan gynnwys y rheiny sydd â phroblemau iechyd meddwl;
- mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi trefnu digwyddiadau i bobl â nam ar eu golwg a phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl; ac
- mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn bwriadu anelu digwyddiadau at grwpiau penodol o 2006 ymlaen.

**2.37** Fodd bynnag, ni nododd y rhan fwyaf o awdurdodau mynediad lleol unrhyw ddigwyddiadau a drefnwyd ganddynt yn benodol i bobl anabl. Pwysleisiodd rhai eu bod yn ceisio gwneud eu digwyddiadau'n addas ar gyfer pobl o bob gallu, yn hytrach na threfnu digwyddiadau penodol i bobl anabl.

*Mae Fforymau Mynediad Lleol wedi cael trafferth recriwtio aelodau anabl ac nid ydynt i gyd wedi mynd i'r afael ag ystyried mynediad i'r anabl*

13 http://www.monmouthshire.gov.uk/Monmouth/English/Environment_and_Planning/Countryside/Explore_the_Countryside/CountrysideMobility/



**2.38** Adroddodd deuddeg o'r ddau gadeirydd ar hugain o FfMLlau a ymatebodd i'r cwestiynau perthnasol yn ein harolwg lwyddiant yn eu hymdrechion i ddenu aelod anabl, er i'r aelodau anabl ymddiswyddo'n hwyrach mewn dau achos. Adroddodd y deg fforwm mynediad arall i'w hymdrechion i ddenu aelodau anabl fod yn aflwyddiannus.

**2.39** Adroddodd cadeiryddion saith fforwm mynediad lleol i'w Fforwm gydnabod gofynion pobl anabl, tra bod saith arall wedi nodi na roddwyd fawr o sylw i'r mater ganddynt. Tybiodd naw fod y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ymgorffori anghenion pobl anabl. Nid oedd dau arall wedi derbyn ymateb gan eu hawdurdod mynediad lleol i'w sylwadau ar fynediad i'r anabl.

*Er bod mynediad cefn gwlad i bobl anabl wedi gwella, mae lle sylweddol i ddeall eu hanghenion yn fwy eglur*

**2.40** Mae gwella mynediad cefn gwlad i bobl anabl fel arfer yn cyflwyno gwelliannau mynediad i bobl eraill â phroblemau symud, fel pobl hŷn a phobl â phlant bach mewn coetsys. Fodd bynnag, wrth ei natur, mae llawer o gefn gwlad yn debygol o aros yn anhygyrch i lawer o bobl ag anableddau corfforol oherwydd rhiwiau neu wyneb anwastad. Serch hynny, gwelsom fod y rhan fwyaf o awdurdodau mynediad lleol wedi gwneud gwelliannau i lwybrau troed a Llwybrau seiclo i bobl anabl. Adroddodd 22 allan o'r 25 o awdurdodau mynediad lleol eu bod yn ymgorffori gofynion pobl anabl yn eu rhaglenni cynnal a chadw parhaus. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau yn dilyn polisi mynediad rhwystr lleiaf, gan ddewis yr ateb sy'n gosod y lleiaf o rwystr wrth ystyried yr angen am ddodrefn llwybrau. Er enghraifft, man mae angen i gamfa gael ei hail-osod neu ei hatgyweirio, mae llawer o awdurdodau mynediad lleol yn ystyried a yw rhwystr yn angenrheidiol o hyd. Os ydynt yn penderfynu ei fod, byddant yn ystyried a fyddai gât yn ddewis posibl gan fod gât yn haws i bobl anabl ei thrafod na chamfa.



Cymdeithas y Cerddwyr Cymru

**2.41** Mae pum awdurdod mynediad lleol wedi cynnal arolwg o lwybrau troed allweddol er mwyn asesu rhwyddineb eu defnyddio gan bobl anabl ac mae dau arall yn bwriadu gwneud hyn. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gynllun allwedd i bobl anabl allu defnyddio gatiau sydd fel arall ar glo, er enghraifft er mwyn atal beicwyr modur rhag defnyddio hawliau tramwy'n anghyfreithlon. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi gosod crybiau ac yn cynnig cadair olwyn fodur ar un safle. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi rhoi blaenoriaeth i waith mynediad i'r anabl mewn parciau gwledig a chefn gwlad sy'n agos i ardaloedd trefol y mae pobl anabl yn fwyaf tebygol o ymweld â hwy.

**2.42** Er i ni ddod o hyd i enghreifftiau o arfer da wrth wella mynediad cefn gwlad i bobl anabl, tueddai'r rhain i fod yn dameidiog ac ychydig o dystiolaeth a gafwyd bod awdurdodau mynediad lleol yn cymryd agwedd strategol wrth wella mynediad i bobl anabl. Cadarnhaodd ein harolwg o Grwpiau Mynediad Lleol a'n cyfweliadau â grwpiau eraill sy'n cynrychioli pobl anabl y darlun cymysg hwn, lle'r ymddengys bod rhai awdurdodau mynediad lleol yn gweithio'n galetach nag eraill i ymwneud â phobl anabl i drafod a gwella mynediad i gefn gwlad.

**2.43** Er nad oes fframwaith cenedlaethol na chanllawiau arfer da i wella mynediad i gefn gwlad i bobl anabl wedi cael eu cytuno, sefydlodd cyhoeddi *By all reasonable means: inclusive access to the outdoors for disabled people* gan CCGC ym Medi 2006 feincnodau ynghylch mynediad i'r anabl, ar gyfer pan mae rheolwyr cefn gwlad yn ystyried cynnal a chadw a gwella cyfleusterau a llwybrau troed cefn gwlad. Cyhoeddodd yr Asiantaeth Cefn Gwlad yn Lloegr ei fersiwn hi o'r canllaw arfer da hwn yn 2005, ond ymgynghorodd CCGC ag Anabledd Cymru gan wneud newidiadau i'r canllaw cyn cyhoeddi'r fersiwn Gymreig. Dywedodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrthym eu bod yn bwriadu cyhoeddi canllaw statudol i awdurdodau mynediad lleol yn y flwyddyn ariannol gyfredol ynghylch gwella dodrefn llwybrau i fodloni anghenion yr anabl, o dan adran 69 CGHT.

### *Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael bod sector cyhoeddus Cymru yn gweithio i annog cynyddu'r defnydd ar gefn gwlad gan aelodau o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig*

*Ychydig o awdurdodau mynediad lleol na fforymau mynediad lleol sy'n cymryd camau cadarnhaol i annog cynyddu'r niferoedd anghyfrannol o isel y bobl o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n ymweld â chefn gwlad*

**2.44** Mae'r rhan fwyaf o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn byw yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe, ac yn llai na dau y cant o boblogaeth Cymru. Er mai lefelau isel sydd i'r defnydd ar gefn gwlad gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn perthynas â'r holl boblogaeth (Ffigur 3), ychydig o dystiolaeth y daethom o hyd iddo fod awdurdodau mynediad lleol na fforymau mynediad lleol yn ystyried hyn yn fater iddyn nhw. Nododd llawer o gadeiryddion fforymau mynediad lleol fod eu hawdurdod mynediad lleol yn gweithredu polisïau cynhwysol sy'n gymwys i'r holl boblogaeth. Nododd un awdurdod mynediad lleol nad oeddent yn ystyried mynediad cefn gwlad i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn fater yn eu hardal. Nododd cadeirydd un fforwm mynediad lleol nad oedd mynediad cefn gwlad i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn broblem yn eu hardal ac nad oedd yr awdurdod mynediad lleol perthnasol wedi cymryd unrhyw gamau penodol i ddenu pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gefn gwlad. Er y gall rhai awdurdodau mynediad lleol a fforymau mynediad lleol dybio nad yw mynediad i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn ystyriaeth iddyn nhw oherwydd nad yw eu trigolion yn perthyn i gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, mae gofynion y bobl o'r cymunedau hyn yn berthnasol o hyd oherwydd





Black Environment Network

bod llawer o'r rheiny sy'n ymweld â chefn gwlad yn aml yn dod o ardaloedd awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys y canolfannau dinesig mawr.

**2.45** Dau awdurdod mynediad lleol yn unig sydd wedi gweithio gyda sefydliadau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i ddenu pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gefn gwlad. Yn ein harolwg, nododd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog iddo gynnal ymweliadau Mosaic. Prosiect i'r DU gyfan yw Mosaic sy'n gwahodd arweinwyr cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i'r Parciau Cenedlaethol i roi profiad o gefn gwlad iddynt. Y bwriad yw y byddant o ganlyniad yn gweithredu'n genhadon dros gefn gwlad yn eu cymunedau eu hunain. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi trefnu tripiau i'r Parc i ddau grŵp pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig o Abertawe, gan weithio gyda Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon (BEN), sefydliad sector gwirfoddol y DU gyfan sy'n anelu at gynyddu cynnwys pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn gwaith sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'u mwynhad o gefn gwlad. Mae'r niferoedd dan sylw'n isel.

**2.46** Nid oedd y gwaith i annog pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i ddefnyddio cefn gwlad yn helaeth ymysg awdurdodau mynediad lleol. Nododd un awdurdod mynediad lleol iddo gysylltu â dau grŵp pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ond na chafwyd ateb. Nododd un arall y byddai'n amhocibl y byddai camau sydd wedi eu hanelu at ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn cwmpasu cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, ni allai'r rhan fwyaf o awdurdodau mynediad lleol nodi unrhyw weithgaredd penodol a gynhaliwyd ganddynt gyda sefydliadau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i annog cynyddu'r defnydd ar gefn gwlad.

*Nid yw sector cyhoeddus Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i fynediad i gefn gwlad i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig*

**2.47** Dywedodd cynrychiolwyr grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig wrthym nad oedd mynediad i gefn gwlad yn flaenoriaeth uchel i'w haelodau, gan fod ganddynt bryderon mwy dybryd, yn aml yn deillio o amddifadedd. Yn ogystal, maen nhw hefyd o'r farn bod teimlad cyffredinol mai gweithgaredd pobl wynion, dosbarth canol yw mynd i gefn gwlad. Fodd bynnag, roedd cynrychiolwyr pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn credu y dylai sector cyhoeddus Cymru fynd i'r afael â chyfraddau isel mynediad i gefn gwlad gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

**2.48** Un ffordd o annog mwy o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i ymweld â chefn gwlad, a gwneud awdurdodau mynediad lleol yn ymwybodol o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig wrth ymweld â chefn gwlad, fyddai trwy annog cynyddu'r gynrychiolaeth o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ar fforymau mynediad lleol. Un o'r 25 fforwm mynediad lleol yn unig sydd ag aelod o gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Gellid gwella cyfranogaeth pobl o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn fforymau mynediad lleol trwy gysylltiadau â'r Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol (CCH), y cyrff statudol sydd â'r dasg o hyrwyddo a gwella cydraddoldeb hiliol trwy'r Deyrnas Unedig, a'r Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon (BEN). Gellid hefyd defnyddio cysylltiadau presennol cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ag awdurdodau lleol a chynghorwyr unigol, y mae rhai ohonynt yn dod o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, i annog mwy o geisiadau gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ar gyfer bod yn aelod o fforwm mynediad lleol.

**2.49** Mae lle hefyd i awdurdodau mynediad lleol ddefnyddio eu cytundebau lefel gwasanaeth blynyddol â'r Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol i osod amcanion mewn perthynas â mynediad i gefn gwlad gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae gan awdurdodau lleol eu hunain ddyletswydd i baratoi cynllun cydraddoldeb hiliol sy'n nodi'r camau y maent yn ymrwymo i'w cymryd i hybu cydraddoldeb hiliol wrth ddarparu gwasanaethau ac yn eu hardaloedd yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i awdurdodau osod nodau ar gyfer gwella mynediad i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gefn gwlad mewn fframwaith strategol, yn ogystal â helpu i godi ymwybyddiaeth o'r materion perthnasol ymysg ei aelodau ac uwch swyddogion.

***Mae sector cyhoeddus Cymru yn gweithio tuag at annog cynyddu'r defnydd ar gefn gwlad gan drigolion sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, ond mae rhwystrau rhag cynnydd yn parhau***

*Mae sector cyhoeddus Cymru yn ceisio hyrwyddo mynediad i gefn gwlad i drigolion sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf*

**2.50** Mae menter Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad yn targedu cymorth i drigolion wardiau mwyaf difreintiedig Cymru yn economaidd ac yn gymdeithasol. Mae sector cyhoeddus Cymru wedi ymdrechu i annog trigolion ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf i ymweld â chefn gwlad. Trefnodd Lywodraeth y Cynulliad ddigwyddiadau lansio CGHT ym Mai 2005 mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf dan y slogan "mae cefn gwlad ar garreg eich drws". Cynhaliodd CCGC ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd fel "Swyn Naturiol", yn ogystal gan bwysleisio pa mor hawdd yw hi i bobl fynd i gefn gwlad. Mae llawer o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yng nghymoedd y de-ddwyrain ac yn agos i ardaloedd gwledig. Mae llawer o hawliau tramwy trefol hefyd sy'n cysylltu rhai o'r ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf trefol â'r rhwydwaith hawliau tramwy gwledig.

**2.51** Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi creu cyfres o "Byrth y Goedwig", nodweddion deniadol a chroesawgar ar gyrion eu tir. Yn ne-ddwyrain Cymru, mae mwyafrif y nodweddion hyn mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, neu'n agos iawn atynt. Adroddodd hanner yr awdurdodau mynediad lleol eu bod wedi cefnogi mynediad i gefn gwlad ymysg trigolion ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Mewn rhai achosion, sefydliadau gwirfoddol a ymgymerodd â'r gwaith, a oedd yn cynnwys:

- ymweliadau a theithiau tywysedig;
- ymweliadau ceidwaid parciau ag ysgolion;



- ysgolion coedwig (gweithgareddau addysgiadol sy’n ategu’r Cwricwlwm Cenedlaethol a gyflwynir mewn coedwigoedd);
- penwythnosau “goroesi” lle mae’n rhaid i bobl ifanc, o dan oruchwyliaeth, oroesi yn yr awyr agored gyda chyflenwadau sylfaenol yn unig; a
- phartïon gweithio sy’n cynnwys clirio llwybrau, adeiladu cyfleusterau, codi hysbysfyrddau a.y.b.

*Gall mynd i’r afael â’r rhwystrau sy’n cyfyngu mynediad i gefn gwlad gan drigolion ardaloedd Cymunedau’n Gyntaf arwain at gynnydd yn eu defnydd ar gefn gwlad*

**2.52** Dywedodd Cydlynwyr Cymunedau’n Gyntaf wrthym nad yw mynediad i gefn gwlad yn flaenoriaeth i’r rhan fwyaf o’u trigolion. Dywedodd un awdurdod mynediad lleol wrthym fod yna blant deg oed yn Hwlffordd nad ydynt erioed wedi gweld yr arfordir. Yn Abertawe, dywedodd cydlynwyr wrthym fod yna blant yno sy’n gallu gweld y môr o’u hystâd ond nad ydynt erioed wedi bod i’r traeth. Mae llawer o drigolion Cymunedau’n Gyntaf yn wynebu problemau fel diffyg swyddi a diffyg cludiant, adnoddau ariannol prin a chamddefnyddio sylweddau ac mewn un ardal mae gan 38 y cant o’r trigolion salwch tymor hir cyfyngol. Mae llawer o rieni yn amharod i adael i’w plant chwarae yn y coedwigoedd neu yny wlad sydd wrth ymyl eu tai, gan eu bod nhw’n ofni y caiff eu plant eu cam-drin yno ac achos nodwyddau sy’n cael eu gadael yn anghyfrifol yno. Dywedodd cydlynwyr wrthym hefyd mai effaith gyfyngedig sydd gan ymgyrchoedd posteri a thaflenni yno, yn rhannol oherwydd problemau llythrennedd.

**2.53** Cyfeiriodd cydlynwyr Cymunedau’n Gyntaf hefyd at broblemau diwylliannol: fel y rheiny o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, mae llawer o bobl sy’n byw mewn ardaloedd Cymunedau’n Gyntaf yn ystyried mai rhywbeth i’r dosbarth canol yw ymweld â chefn gwlad. Dywedodd cydlynwyr Cymunedau’n Gyntaf wrthym nad yw sector Cyhoeddus Cymru’n ystyried mynediad i gefn gwlad o safbwynt pobl sy’n byw mewn ardaloedd Cymunedau’n Gyntaf, a bod y dull ‘dosbarth canol’ o’u denu i gefn gwlad yn annhebygol o fod yn effeithiol.

**2.54** Fel gyda phobl anabl a’r rheiny o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, mae angen i sector cyhoeddus Cymru ddeall yn gliriach y rhwystrau rhag mynediad i gefn gwlad sy’n wynebu trigolion ardaloedd Cymunedau’n Gyntaf. Nid oes dim ymchwil uniongyrchol wedi bod sydd wedi gofyn i drigolion ardaloedd Cymunedau’n Gyntaf am y rhwystrau hyn ac am eu hanghenion, er y dylai nifer o brosiectau

## Astudiaeth Achos J: Annog trigolion Cymunedau’n Gyntaf yn Abertawe i fynd i gefn gwlad

Dechreuodd y cydlynydd Cymunedau’n Gyntaf fynd am dro bob amser cinio dydd Gwener yn y wlad sy’n ymylu ar ystadau’r Clase a Chaemawr yn Abertawe, sy’n ardal Cymunedau’n Gyntaf. Casglodd drigolion y llwyddodd i’w perswadio i fynd am dro gydag ef. Roedd y grwpiau cerdded yn amrywio rhwng tri a deg o bobl. Roedd hwn yn ddull anffurfiol o ymweld â chefn gwlad sydd ar garreg ddrws y gymuned. Mae’r grŵp wedi dod yn annibynnol ac nid oes arno angen cyfranogaeth weithredol y cydlynydd Cymunedau’n Gyntaf erbyn hyn. Mae hefyd yn defnyddio “cynllunio parti” sy’n ariannu bwffe yng nghartref rhywun sydd wedi cymryd rhan yn y teithiau cerdded. Mae’r person hwnnw’n gwahodd eraill a sôn wrthynt am y daith er mwyn annog rhagor i fynd ar y daith nesaf. Gwelodd y cydlynydd fod cartref aelod o’r gymuned yn lleoliad mwy anffurfiol ac effeithiol ar gyfer y fath gyfarfod na chyfarfod ffurfiol yn y ganolfan gymuned leol. Preswyliwr y t  sy’n arwain y siarad am y teithiau gan ddangos lluniau o’r teithiau. Mae staff Cymunedau’n Gyntaf yn mynychu’r bwffe i ateb cwestiynau ac i roi manylion am y daith nesaf. Cynhaliwyd saith “parti” o’r fath gan gynnwys tua 32 o drigolion.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*


cenedlaethol sydd ar y gweill neu wedi cychwyn gyfrannu at ddatblygu dealltwriaeth gliriach (gweler paragraffau 2.15-2.21). Dywedodd cydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf wrthym hefyd ei bod hi'n hanfodol defnyddio ysgolion i hyrwyddo mynediad i gefn gwlad mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Mae lle felly i awdurdodau mynediad lleol gymhwyso'r arfer da sy'n bodoli eisoes wrth gysylltu addysg a mynediad i gefn gwlad yn eu hymdrechion yn wardiau difreintiedig Cymunedau'n Gyntaf. Yn fwy cyffredinol, roedd y ffactorau hanfodol yn y llwyddiant yn cynnwys dull anffurfiol, dim cost i'r rhai sy'n cymryd rhan a bod cefn gwlad wrth law sy'n ymylu ar ardal Cymunedau'n Gyntaf. Awgrymodd cydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf hefyd rhai ffyrdd ymarferol y gallai sector cyhoeddus Cymru gynyddu mynediad i gefn gwlad gan drigolion Cymunedau'n Gyntaf. (Astudiaeth Achos J).

## Trwy ddilyn arfer da, gallai sector cyhoeddus Cymru gyflwyno gwell gwerth am arian wrth wella mynediad i gefn gwlad

*Gall astudio contractau cynnal a chadw llwybrau troed arwain at arbedion ariannol*

**2.55** Daethom o hyd i dystiolaeth y gallai fod darbodion maint i'w cael mewn contractau gwaith clirio llwybrau. Yn 2001, talodd Cyngor Dinas Abertawe £26,000 i gyfanswm o wyth o gontractwyr gwahanol i glirio llwybrau. Fodd bynnag, erbyn 2005 llwyddodd Cyngor y Ddinas i leihau'r gost i £10,000, gan ddefnyddio dau gontractwr yn unig i glirio mwy o lwybrau nag o dan gontractau 2001. Mae hyn yn awgrymu y gallai awdurdodau mynediad lleol eraill arbed arian trwy adolygu eu cytundebau cynnal a chadw a chlirio llwybrau.

**2.56** Dywedodd rhai o'r Cynghorau Cymuned yr ymwelwyd â nhw wrthym fod ganddynt eu trefniadau cynnal a chadw llwybrau eu hunain â chontractwyr lleol, sy'n aml yn codi prisiau rhesymol. Yn ogystal, mae gan rai Cynghorau



Pembrokeshire Coast National Park Authority

**Hysbyseb Gwersyll Gwyliau, Dinbych-y-Pysgod (Astudiaeth Achos K)**

Cymuned brofiad sylweddol o drefnu partïon gwaith gwirfoddol, sydd nid yn unig yn lleihau'r gost o gynnal a chadw a chlirio llwybrau, ond sydd hefyd yn gallu cynyddu diddordeb lleol yn y rhwydwaith llwybrau troed a'u hymlyniad iddo.

*Er nad oes Adrannau Cefn Gwlad ar y cyd, mae manteision i'w cael o ariannu swyddi a gwasanaethau ar y cyd*

**2.57** Mae datblygu gwasanaethau y gellir eu rhannu yn elfen allweddol o weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus, fel y nodwyd yn *Gwneud y Cysylltiadau*. Datgelodd ein harolwg o awdurdodau mynediad lleol nad oes Adrannau Cefn Gwlad ar y cyd na strwythurau rhanbarthol yn benodol ar gyfer hyrwyddo mynediad i gefn gwlad. Fodd bynnag, daethom o hyd i dystiolaeth o weithio anffurfiol ar y cyd, yn bennaf mewn perthynas â hawliau tramwy, y mae llawer ohonynt yn croesi ffiniau awdurdodau.



Yn yr amgylchiadau hyn, mae cydweithredu ymysg awdurdodau mynediad lleol yn helpu i sicrhau dull unffurf, yn enwedig ar lwybrau pellter hir. Daethom hefyd o hyd i dystiolaeth bod awdurdodau mynediad lleol, fel Cynghorau Sir Powys, Mynwy a Chnygor Swydd Henffordd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn cydweithio â'i gilydd a chyda CCGC a'r Asiantaeth Cefn Gwlad yn Lloegr lle mae hawliau tramwy yn croesi amryw o ffiniau.

**2.58** Adroddodd wyth allan o'r 25 o awdurdodau mynediad lleol eu bod yn ariannu swyddi wardeiniaid neu geidwaid ar y cyd ag awdurdodau mynediad lleol eraill neu ag asiantaethau statudol eraill, fel CCGC a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Ymhlith y ffactorau allweddol ar gyfer llwyddo i gyflwyno gwerth am arian trwy gydweithio effeithiol oedd cydgyfrannu adnoddau, cytuno ar gynllun prosiect ac ymatebion llawn dychymyg i broblemau a chyfleoedd cyffredin (Astudiaeth Achos K).

## Nid yw arfer da yn cael ei adnabod na'i ledaenu mewn modd systematig

**2.59** Mae'r adroddiad hwn yn amlygu llawer o enghreifftiau o arfer da wrth annog cynyddu'r defnydd ar gefn gwlad. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a CCGC yn cynnal cyfarfodydd, yn dosbarthu taflenni newyddion ac mewn cysylltiad rheolaidd â'r rheolwyr perthnasol yn yr awdurdodau mynediad lleol a sefydliadau gwirfoddol er mwyn dod o hyd i arfer da a'i ledaenu'n anffurfiol. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad a CCGC ill dau rwydweithiau e-bost i gysylltu ag adrannau cefn gwlad awdurdodau mynediad lleol. Mae gan y Gymdeithas Tirfesuryddion Sirol

### Astudiaeth Achos K: Gwella gwerth am arian trwy gydweithio

**Safle treftadaeth y byd Blaenafon – gwasanaethau warden ar y cyd**

Partneriaeth Blaenafon sy'n rheoli'r Safle Treftadaeth y Byd. Er bod y dreftadaeth yn cyfeirio at orffennol diwydiannol, mae'r rhan fwyaf o'r tir yn dir gwledig neu dir sydd wedi dychwelyd unwaith eto'n gefn gwlad. Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys tri o awdurdodau mynediad lleol (Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) a CCGC yn gweithredu gwasanaeth warden ar y cyd ar y safle. Mae un warden llawn amser yn gweithio gyda deg o wardeiniaid gwirfoddol. Gall hefyd alw ar wardeniaid eraill sy'n gweithio i'r tri awdurdod mynediad lleol, os yw'r angen yn codi. Mae'r gwasanaeth wardeiniaid ar y cyd yn gweithio gyda thirfeddianwyr, ymwelwyr a'r rheiny sydd â hawliau pori ar y tir comin er mwyn hybu mynediad cyfrifol i'r Safle Treftadaeth y Byd, ac i warchod ei blanhigion a'i fywyd gwyllt. Mae'r trefniadau ariannol presennol yn dod i ben yn Awst 2006, ond mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gweithio gyda'r partneriaid presennol a Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau ariannu i barhau'r gwasanaeth.

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – trefniadau ar y cyd â'r sector preifat**

Mae'r Awdurdod yn gweithredu gwasanaethau wardeiniaid ar y cyd ag Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau a'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn archwilio wardeinio ar y cyd â CCGC ac yn gweithio'n agos ar welliannau mynediad gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae ganddo hefyd drefniadau ar y cyd â chwmni preifat, gyda'r cwmni'n ariannu 75 y cant o gyflog y warden. Mae'r cwmni'n rhedeg parciau carafanau, bu'r ymwelwyr sy'n aros yno'n gyndyn o fentro i'r Parc Cenedlaethol ei hun.

**Cydweithio wrth lunio Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy**

Mae Deddf CGHT yn gofyn ar i bob awdurdod mynediad lleol lunio, erbyn diwedd 2007, Gynllun Gwella Hawliau Tramwy sy'n asesu'r modd y mae ei rwydwaith hawliau tramwy yn bodloni anghenion y presennol a'r dyfodol, a'r modd y mae'n bwriadu gwella'r rhwydwaith. Yn Sir Benfro, mae'r awdurdod lleol a'r Parc Cenedlaethol yn paratoi cynllun ar y cyd.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

Weithgor Cefn Gwlad Cymru sy'n rhannu arfer mynediad cefn gwlad dda ymysg ei haelodau. Mae gan Sefydliad Swyddogion Hawliau Tramwy (IPROW) Ganllaw Arfer Da ar gyfer rheoli Hawliau Tramwy ar ei wefan.

**2.60** Fodd bynnag, nid oes unrhyw beirianwaith TG rhyngweithredol y gall awdurdodau mynediad lleol ledaenu arfer da a dysgu drwyddynt wrth hyrwyddo mynediad i gefn gwlad yn barhaus, er enghraifft trwy safle ar y rhyngrwyd. Nid oes chwaith ddadansoddiad systematig o'r hyn sy'n gwneud arfer da na pha ffactorau sy'n cyfrannu tuag at ei gwneud hi'n hawdd i'w mesur a'u trosglwyddo: gall yr hyn sy'n arfer da mewn un rhan o Gymru beidio â gweithio mewn rhan arall. Yn ogystal, nid oes rhestr wirio y cytunwyd yn gyffredinol arni'n bodoli (fel y rhestr wirio a roddwyd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru, www.wao.gov.uk) y gellir meincnodi rheolaeth mynediad i gefn gwlad yn gyffredinol yn ei herbyn yn hytrach na rheolaeth hawliau tramwy'n unig.

## Rhaid goresgyn rhai cyfyngiadau i annog mwy o bobl i ddefnyddio cefn gwlad

### Yn gyffredinol, mae awdurdodau mynediad lleol yn rhoi blaenoriaeth isel i fynediad i gefn gwlad wrth ddyrannu adnoddau ac mewn strategaethau perthnasol

*Mynediad i gefn gwlad yn cael blaenoriaeth isel o ran dyrannu adnoddau*

**2.61** Yn ein harolygon, ceisiom farn ar y rhwystrau mwyaf sylweddol sydd ar ôl i gael mynediad i gefn gwlad. Roedd yr ymatebion oddi wrth reolwyr cefn gwlad awdurdodau mynediad lleol, cadeiryddion fforymau mynediad lleol ac aelodau'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol yn debyg, gyda phob un o'r grwpiau hyn yn nodi diffyg blaenoriaeth wleidyddol yn lleol, a'r diffyg adnoddau o ganlyniad i hynny, fel y rhwystrau mwyaf sylweddol. Roedd ugain o'r 22 rheolwr cefn gwlad awdurdod lleol, 19 o'r 25 o gadeiryddion fforymau mynediad lleol a phob un o'r un ar ddeg o aelodau'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol a ymatebodd i'n harolwg yn ystyried bod diffyg blaenoriaeth ar lefel leol, ynghyd ag adnoddau annigonol, yn rhwystr sylweddol neu sylweddol iawn.

**2.62** Cadarnhaodd ein hymweliadau ag awdurdodau mynediad lleol a fforymau mynediad lleol nad oedd mynediad i gefn gwlad yn cael blaenoriaeth uchel o'i gymharu â chyfrifoldebau eraill, ac eithrio yn Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol lle rhoddwyd blaenoriaeth uwch i fynediad am ei fod yn gyfrifoldeb craidd. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn Awdurdodau Parc Cenedlaethol, roedd barn unfrydol bod diffyg adnoddau yn rhwystr sylweddol i gynyddu mynediad.

**2.63** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol o'r diffyg blaenoriaeth cymharol a roddir i fynediad i gefn gwlad ar lefel awdurdodau mynediad lleol. Trefnodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad gynhadledd i awdurdodau mynediad lleol ym mis Medi 2004 i hyrwyddo mynediad i gefn gwlad a'r hawliau mynediad newydd, a rhoddwyd gwybod i ni eu bod yn bwriadu cynnal cynhadledd ddilynol yn 2006. Cynhaliodd Llywodraeth y



Torfaen County Borough Council



Cynulliad hefyd sesiwn i arweinwyr awdurdodau mynediad lleol ym mis Ionawr 2005 i hyrwyddo manteision mynediad i gefn gwlad ac amlygu'r angen i gwblhau paratoadau ar gyfer gweithredu CGHT Rhan 1 ym mis Mai 2005.

*Nid yw strategaethau perthnasol awdurdodau mynediad lleol bob tro'n adlewyrchu pwysigrwydd mynediad i gefn gwlad*

**2.64** Un o'r dadleuon i gefnogi cynyddu defnydd y cyhoedd ar gefn gwlad oedd ei gyfraniad at adfywio gwledig, yn enwedig wedi'r achos o glwy'r traed a'r genau yn 2001. Amcangyfrifodd Bwrdd Croeso Cymru gynt bod twristiaeth cerdded yn werth £550 miliwn i economi wledig Cymru yn 2002,[14] ac mae gan Lywodraeth y Cynulliad nod i gynyddu budd economaidd twristiaeth gerdded i'r economi wledig i £750 miliwn erbyn 2010. Bwriad y gwella arfaethedig ar fynediad i'r arfordir yw cynorthwyo i gyrraedd y nod hwn. Mae Arolwg Twristiaeth y DU, sy'n fenter ar y cyd rhwng holl fyrddau croeso y DU, yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â cherdded. Felly, dylai fod yn bosibl monitro cynnydd tuag at y nod o £750 miliwn yn flynyddol.

**2.65** Gyda golwg ar ei bwysigrwydd, rhaid i awdurdodau mynediad lleol gymryd ymagwedd strategol tuag at fynediad at gefn gwlad, yn enwedig wrth sefydlu cysylltiadau â pholisïau a strategaethau eraill ar gyfer datblygu economaidd, trafnidiaeth ac iechyd. Fodd bynnag, yn ein harolwg o'r pum awdurdod mynediad lleol ar hugain, dim ond deuddeg ohonynt a ddywedodd bod ganddynt strategaeth neu bolisi penodol yngl n â chefn gwlad.

**2.66** Mae gan dwristiaeth cerdded fanteision economaidd i bob rhan o Gymru, nid yn unig i safleoedd pwysig i dwristiaid fel y Parciau Cenedlaethol. Er bod mwyafrif yr awdurdodau mynediad lleol yn hyrwyddo mynediad at gefn gwlad, dim ond naw ohonynt a adroddodd fod ganddynt Strategaeth Datblygu Economaidd a gyfeiriai'n eglur at fuddion economaidd mwy o fynediad at gefn gwlad. Mae trafnidiaeth yn elfen strategol allweddol wrth annog pobl i gynyddu eu defnydd o gefn gwlad, ac mae gan ddau draean o awdurdodau mynediad lleol strategaeth neu bolisi sy'n cynnwys cyfeiriadau at fynediad at gefn gwlad. Mae cysylltiadau strategol rhwng cerdded ac iechyd yn bwysig hefyd, am fod cerdded yn hyrwyddo iechyd da a lles. Mae pedwar ar ddeg o'r ddwy strategaeth ar hugain Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn cyfeirio at gerdded a'i gyfraniad at wella iechyd a lles, er dim ond un ohonynt sy'n crybwyll buddion iechyd defnyddio cefn gwlad.

*Mae'r fforymau mynediad perthnasol mewn lle da i ddylanwadu ar y flaenoriaeth a roddir i wella mynediad i gefn gwlad*

**2.67** Mae'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol yn dod â chynrychiolwyr yr holl brif grwpiau rhanddeiliaid ynghyd ar lefel genedlaethol. Mae Llywodraeth y Cynulliad a CCGC ill dau o'r farn fod y Fforwm wedi cael dylanwad sylweddol ar faterion penodol sy'n ymwneud â mynediad i gefn gwlad, ac mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Fforwm yn ystyried y bu'n effeithiol wrth ddylanwadu ar bolisi CCGC a Llywodraeth y Cynulliad. Felly, Mae'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol mewn safle da i ddylanwadu ar yr arweinwyr allweddol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yngl n â manteision cynyddu mynediad i gefn gwlad ledled Cymru.

**2.68** Mae'r rhan fwyaf o fforymau mynediad lleol yn ddylanwad pwysig ar awdurdodau mynediad lleol o ran mynediad cyhoeddus i gefn gwlad. Er bod fforymau mynediad lleol wedi treulio llawer o'u tair blynedd gyntaf yn gweithio gydag awdurdodau mynediad lleol a CCGC i weithredu CGHT, mae ganddynt hefyd swyddogaeth ehangach i hyrwyddo

14 *Camu 'Mlaen*, Croeso Cymru, *2005*

Ffigur 11: Problemau â hawliau tramwy yng Nghymru a nodwyd yn adroddiad yr ymgynghorwyr a gomisiynwyd gan CCGC

Canfu'r ymgynghorwyr broblemau â'r rhwydwaith hawliau tramwy a oedd yn ymwneud â'i gyflwr, ansawdd y wybodaeth a oedd ar gael a chostau gwella'r rhwydwaith i'r safon gywir a'i gynnal a'i gadw wedi hynny.

**Cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy**

- byddai defnyddwyr yn dod ar draws problem bob 230 metr, fel rhwystr a oedd yn anodd mynd heibio iddo;
- byddai defnyddwyr yn dod ar draws problem a wnâi'r llwybr yn amhosibl i'w ddefnyddio bob 650 metr;
- dangosodd astudiaethau cymharol fod y perfformiad hwn dair gwaith yn waeth na'r data perfformiad cyfartal ar gyfer Lloegr; ac
- roedd chwe deg un y cant o arwyddion llwybrau cerdded o'r heol agosaf yn eisiau neu'n annigonol.

**Gwybodaeth am y rhwydwaith hawliau tramwy**

- roedd diffyg gwybodaeth sylfaenol am y rhwydwaith yn cyfyngu ar osod targedau, monitro cyflwr, dosbarthu adnoddau a rheoli meintiol;
- roedd y system o samplo cyflwr yr hawliau tramwy yn amhriodol; ac
- mae data cymharol cenedlaethol yn annibynadwy o ganlyniad i'r ffaith bod awdurdodau lleol gwahanol wedi defnyddio dulliau gwahanol o arolygu.

**Cost adfer cyflwr y rhwydwaith**

- amcangyfrif y gost o ddod â'r rhwydwaith at y safon gywir oedd £26 miliwn dros bum mlynedd; ac
- amcangyfrif y gost o wneud gwaith cynnal a chadw blynyddol ychwanegol wedi hynny oedd £8.4 miliwn.

*Ffynhonnell: CCGC*

mynediad cyfrifol i gefn gwlad yn gyffredinol. Nhw yw'r cyrff sylfaenol sy'n dod â'r prif randdeiliaid ynghyd ar lefel leol ac, felly, maent mewn lle da i ddylanwadu ar awdurdodau mynediad lleol ar lefel aelodau i sicrhau mwy o ymrwymiad i fynediad i gefn gwlad, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am ei fanteision.

## Er bod cyflwr rhannau mwyaf poblogaidd y rhwydwaith hawliau tramwy cenedlaethol yn gwella, mae ei ansawdd cyffredinol yn wael ac mae perygl y ceir dirywio pellach

### *Mae rhai awdurdodau mynediad lleol yn rhoi blaenoriaeth i gynnal a chadw eu llwybrau troed lleol mwyaf poblogaidd*

**2.69** Llwybrau troed a hawliau tramwy eraill yw'r ffyrdd pennaf o gael mynediad at gefn gwlad. Cadarnhaodd Arolwg Cartrefi CCGC hydref 2005 bod cyflwr gwael y rhwydwaith llwybrau troed yn golygu nad yw rhai pobl yn ymweld â chefn gwlad. Crybwyllodd tri deg tri y cant o'r rheiny nad ydynt byth ymweld â chefn gwlad bod llwybrau mewn cyflwr gwael neu lwybrau caeëdig yn rhwystr allweddol, tra crybwyllodd 28 y cant ddiffyg llwybrau troed neu lwybrau beicio addas. Gofynnodd yr arolwg hefyd i'r rheiny sy'n ymweld â chefn gwlad beth sy'n eu hatal rhag gwneud hynny'n amlach. Crybwyllodd tri deg dau y cant lwybrau mewn cyflwr gwael neu lwybrau caeëdig a 29 ddiffyg llwybrau troed neu lwybrau beicio addas.



**2.70** Mae gan awdurdodau mynediad lleol ddyletswydd gyfreithiol i gynnal pob hawl dramwy. Mae mwyafrif yr awdurdodau mynediad lleol yn rhoi blaenoriaeth uchel i gynnal a gwella llwybrau troed uchel eu proffil, fel y llwybrau hir a'r llwybrau arfordirol, ac mae rhai wedi buddsoddi mewn gwelliannau lleol penodol i'w rhwydwaith hawliau tramwy, er enghraifft, trwy greu teithiau cerdded cylchol newydd. Mae'r awdurdodau mynediad lleol a'r Canolfannau Croeso yn hyrwyddo'r fath lwybrau'n helaeth iawn, a gall niferoedd ymwelwyr fod yn fawr iawn. Er enghraifft, mae Llwybr Arfordir Ynys Môn yn denu amcangyfrif o 300,000 o ddefnyddwyr bob blwyddyn, sy'n cyfrannu budd economaidd sylweddol i'r gymuned leol (Astudiaeth Achos F).

*Yn gyffredinol, mae cyflwr y rhwydwaith yn wael ac yn dirywio, sy'n ei wneud yn anodd cael mynediad at rai rhannau o gefn gwlad y mae gan y cyhoedd hawl cyfreithiol cael mynediad ato*



Ramblers' Association Wales



Ramblers' Association Wales

**2.71** Yn 2002, comisiynodd CCGC ymgynghorwyr i gynnal arolwg o gyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy yng Nghymru. Daeth eu hadroddiad yn 2003 i gyfres o gasgliadau am gyflwr y rhwydwaith, gwybodaeth reoli am y rhwydwaith a chostau camau adferol i wella cyflwr y rhwydwaith (Ffigur 11). Trefnodd CCGC bod yr adroddiad a'r data ar gael yn eang i awdurdodau mynediad lleol, Llywodraeth y Cynulliad a'r cyhoedd yn uniongyrchol ac ar wefan CCGC. Roedd y meini prawf a ddefnyddiwyd ar gyfer asesu pa mor hawdd y gellid defnyddio hawliau tramwy yn dynnach na'r rheiny a ddefnyddiwyd i asesu cydymffurfio â Dangosydd Perfformiad 6.10 Llywodraeth y Cynulliad ei hun (Gweler Atodiad 5).

**2.72** Mae dangosyddion perfformiad Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer llywodraeth leol yn cynnwys dangosydd o ran pa mor hawdd y gall y cyhoedd ddefnyddio hawliau tramwy. Mae'r dangosydd yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau mynediad lleol asesu sampl ar hap, a ddewisir gan yr awdurdod, o bump y cant o'u rhwydwaith hawliau tramwy bob blwyddyn.

**2.73** I fod yn gymwys fel hawliau tramwy hawdd eu defnyddio, rhaid i lwybr fodloni'r holl feini prawf hyn:

- rhaid bod arwyddion o'r ffordd fetel agosaf;
- rhaid i'r llwybr fod yn rhydd o rwystrau anghyfreithlon neu unrhyw ymyrraeth arall; a
- rhaid bod y wyneb a rhwystrau cyfreithlon, fel camfeydd, mewn cyflwr digon da i ganiatáu i'r cyhoedd ei ddefnyddio heb ormod o anghyfleustra

**2.74** Yn 2002/2003, roedd 43.7 y cant o'r rhwydwaith hawliau tramwy yn cydymffurfio â phob un o'r tri maen prawf. Fodd bynnag, yn 2004/2005, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae gwybodaeth ar gael ar ei chyfer, dim ond 40.6 y cant o'r rhwydwaith hawliau tramwy a fodlonai pob un o'r tri maen prawf, sy'n dangos bod cyflwr cyffredinol y rhwydwaith llwybrau troed cenedlaethol wedi dirywio yn ystod y ddwy flynedd hyd at 2005 (Atodiad 5). Mewn adroddiad Cyngor CCGC ar gynnydd wrth asesu cyflwr presennol mynediad at yr arfordir ym mis Chwefror 2006, mynegwyd y farn hefyd fod problemau â'r rhwydwaith llwybrau cerdded sy'n gwasanaethu'r arfordir (Blwch 5), er yr ystyriai'r adroddiad fod mynediad at yr arfordir, ar y cyfan, yn dda.

**2.75** Efallai bod maint bach y sampl yn esbonio rhai o'r amrywiadau mawr mewn perfformiad a adroddwyd o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, mae ffigur perfformiad Cymru gyfan yn debygol o gydbwyso unrhyw amrywiadau sylweddol oddi mewn i awdurdodau mynediad lleol unigol. Mae Llywodraeth y Cynulliad, CCGC a chynrychiolwyr llywodraeth leol yn adolygu'r meini prawf i ddatblygu ystod ehangach a mwy dibynadwy o ddangosyddion rheolaeth cefn gwlad.



Ramblers Association Wales



*Mae perygl y bydd cyflwr cyffredinol y rhwydwaith llwybrau troed cyhoeddus yn dirywio mwy oherwydd yr adnoddau cyfyngedig a ddyrennir i'w cynnal a'u cadw a'r tebygolrwydd y bydd cyfanswm hyd y rhwydwaith yn cynyddu*

**2.76** Amcangyfrifodd astudiaeth 2002 o'r rhwydwaith hawliau tramwy mai cost dod â'r rhwydwaith i fyny at y safon gywir fyddai £26 miliwn dros bum mlynedd, ac mai cost ei gynnal a'i gadw fyddai £8.4 miliwn y flwyddyn. Felly, y cyfanswm amcangyfrifedig oedd £13.6 miliwn ym mhob un o'r pum mlynedd gyntaf ac £8.4 miliwn y flwyddyn wedi hynny. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys effaith unrhyw ddirywiad pellach i'r rhwydwaith, na chwyddiant, er 2002/2003.

**2.77** Rhoddodd awdurdodau mynediad lleol wybod i ni eu bod wedi gwario £5.1 miliwn ar waith cynnal a chadw hawliau tramwy yn 2004/2005, a bod eu cyllideb gyfunol ar gyfer 2005/2006 yn debyg. Mewn rhai awdurdodau mynediad lleol, mae'r ffigurau hyn yn cynnwys gwariant nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â chynnal a chadw, fel costau staff anghysylltiedig a chostau hyrwyddo a gwaith cyfreithiol. O ganlyniad, mae awdurdodau mynediad lleol yn gwario'n sylweddol lai na'r swm a ystyriwyd yn ofynnol yn 2003 i gynnal y rhwydwaith yn ei gyflwr gwael presennol. Yn ein hymweliadau gwaith maes yn gynnar yn 2006, ac mewn trafodaethau wedi hynny, roedd arwyddion y gall pwysau ariannol a blaenoriaethau sy'n cystadlu gyfaddawdu mwy ar wariant awdurdodau mynediad lleol ar gynnal a chadw hawliau tramwy yn 2006/2007.

**2.78** Dywedodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a CCGC wrthym fod cyllid ychwanegol ar gael trwy grantiau CCGC ar gyfer mynediad i gefn gwlad: rhyw £1.1 miliwn yn 2006/2007. Gall y £2.4 miliwn a ddarperir yn y Grant Cynnal Refeniw gefnogi gwelliannau hawliau tramwy yn anuniongyrchol hefyd. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi peri bod symiau ychwanegol ar gael yn 2006/07 ar gyfer gwella hawliau tramwy yn y parciau cenedlaethol, gyda phwyslais penodol ar fynediad i bobl anabl. Mae hefyd wedi gofyn i awdurdodau lleol ystyried gwelliannau i hawliau tramwy wrth wario adnoddau Cronfa Cymunedau Actif, y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gynnig trwy Gyngor Chwaraeon Cymru i gynorthwyo wrth weithio tuag at dargedau *Dringo'n Uwch*. Yn ogystal, gwnaed ceisiadau llwyddiannus am gyllid Ewropeaidd o ran nifer o brosiectau penodol, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud ceisiadau tebyg eraill. Rhoddodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wybod i ni eu bod yn ceisio cyllid newydd i gefnogi'r prosiect i wella mynediad i'r arfordir. Dros amser, gall y buddsoddi cynyddol hwn yn y rhwydwaith llwybrau cerdded leihau'r bwlch rhwng y swm sy'n ofynnol ar gyfer cynnal a chadw a'r gwariant gwirioneddol.

**2.79** Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i gynnal map terfynol o hawliau tramwy cyhoeddus y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol. Fodd bynnag, ni chofnodir pob hawl dramwy o'r fath ar y mapiau terfynol. Cynigiodd Deddf CGHT 2026 yn ddyddiad cau terfynol ar gyfer cyflwyno ceisiadau i ychwanegu neu ddileu hawliau tramwy o'r map terfynol. O dan y Ddeddf, gall unrhyw un geisio dynodi tir yn hawl dramwy gyhoeddus os oes tystiolaeth dda iddi gael ei defnyddio felly. Yn 2002, amcangyfrifodd astudiaeth y gallai cyfanswm hyd y rhwydwaith hawliau tramwy yng Nghymru gynyddu o hyd at 11 y cant erbyn 2026.[15] Canlyniad y fath estyniad i'r rhwydwaith hawliau tramwy fyddai cynnydd yn y costau cynnal a chadw.

15 Prifysgol Caerloyw: *Discovering Lost Ways in England and Wales* (2002)

*Yn gyffredinol, mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi ceisio cydweithio â thirfeddianwyr i'w hannog i wella mynediad at eu tir, yn hytrach na gorfodi sancsiynau cyfreithiol*

**2.80** Mae gan awdurdodau mynediad lleol ddyletswydd i gynnal wyneb hawliau tramwy, ac mae gan dirfeddianwyr ddyletswydd i ddarparu a chynnal dodrefn llwybr a chadw llwybrau'n rhydd o rwystrau fel llystyfiant bargodol neu sy'n tyfu dros y llwybr, neu rwystrau ffisegol fel ffensys, clwydi caeëdig neu waliau. Mae gan awdurdodau mynediad lleol bwerau i gynorthwyo tirfeddianwyr i ariannu dodrefn llwybr newydd; i anfonebu tirfeddiannwr am ddodrefn llwybr newydd neu ddodrefn llwybr a ailosodir ganddo; ac i ddigolledu tirfeddiannwr os caiff hawl dramwy newydd ei chreu ar draws ei dir.

**2.81** Canfuom dystiolaeth o drefniadau cydweithredol lle'r oedd awdurdodau mynediad lleol yn cynnig dodrefn llwybr yr oedd tirfeddianwyr yn eu gosod ar eu cost eu hunain. Dywedodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, swyddogion awdurdodau mynediad lleol a chynrychiolwyr tirfeddianwyr wrthym fod y trefniadau hyn, yn ymarferol, yn arwain at gysylltiadau mwy adeiladol rhwng awdurdodau mynediad lleol a thirfeddianwyr, a bod mwy o ewyllys da y naill at y llall na phe ceid ymdrechion i adennill pob swm y gallai fod gan awdurdodau mynediad lleol y p er i'w hawlio gan dirfeddianwyr. Roeddent o'r farn bod gwerth yr ewyllys da a gafwyd o ganlyniad i'r ymagwedd hon yn debygol o ragori ar gostau gorfodi, yn ariannol ac o ran llai o gydweithrediad.

**2.82** Dywedodd rhai rheolwyr cefn gwlad wrthym fod diffyg ewyllys da ar ran nifer fach o dirfeddianwyr yn un o'r rhwystrau allweddol i gynyddu cyfran y rhwydwaith hawliau tramwy sy'n agored i'r cyhoedd, ac nad yw lleiafrif o dirfeddianwyr yn cydweithio â'u hawdurdodau mynediad lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau i gynnal hawliau tramwy agored ar eu tir. Y sancsiwn eithaf yn y fath achosion yw camau cyfreithiol, ond canfuom mai mater o 'pan fetho popeth arall' yn aml oedd hyn i awdurdodau mynediad lleol oherwydd y gost a'r oedi posibl.

**2.83** Mae Deddf CGHT yn rhoi i aelodau'r cyhoedd yr hawl i gyflwyno hysbysiad i'r awdurdod lleol o rwystro llwybr troed. Mae hawl hefyd i wneud cais i Lys Ynadon am Orchymyn sy'n gorfodi cymryd camau os nad yw'r aelod o'r cyhoedd yn fodlon â'r camau a gymerodd yr awdurdod lleol wrth ymdrin â'r rhwystr neu wrth ei wneud yn ofynnol i'r tirfeddiannwr wneud hynny. Er bod y p er newydd hwn yn debygol o gynyddu sylfaen wybodaeth hawliau tramwy awdurdodau lleol, efallai y bydd hefyd yn cynyddu'r gofynion ar eu gwariant.

**2.84** Cafwyd ymagweddau gwahanol yng Nghymru a Lloegr tuag at gyfundrefn sancsiynau o ran cynllun y Taliad Sengl. Yng Nghymru, cyngor cyfreithiol Llywodraeth y Cynulliad yw nad oes ganddo'r p er i weithredu cyfundrefn trawsgydymffurfio lle mae ffermwyr yn colli rhan o'u taliad os nad ydynt yn cynnal hawliau tramwy ar eu tir. Fodd bynnag, mae cadw hawliau tramwy yn glir yn un o amodau'r cynllun amaeth-amgylchedd Tir Cynnal newydd y mae pob ffermwr yn gymwys i wneud cais amdano. Mae hefyd yn rhan o gynllun amaeth-amgylchedd mwy sefydledig ac sy'n gofyn llawer, Llywodraeth y Cynulliad, sef Tir Gofal, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys bron i 20 y cant o'r tir amaethyddol yng Nghymru. Yn Lloegr, bu'r cyngor cyfreithiol yn wahanol a gweithredir trawsgydymffurfio. Mae'n rhy gynnar i werthuso llwyddiannau cymharol yr ymagweddau gwahanol gan fod y ddwy ymagwedd yn newydd, yn enwedig yn absenoldeb cynsail cyfreithiol.



## Gellid targedu gwybodaeth yn well tuag at y rheiny sydd byth neu'n anaml yn ymweld â chefn gwlad

**2.85** Mae ar bobl sy'n dymuno ymweld â chefn gwlad angen gwybodaeth am ble gallant fynd a pha gyfleusterau sydd ar gael. Fodd bynnag, canfu Arolwg Cartrefi CCGC yn hydref 2005 bod diffyg y fath wybodaeth yn rhwystr i ymweld â chefn gwlad i fwy na thraean (36 y cant) o'r rhai nad oeddynt yn ymweld, a grybwyllodd ddiffyg byrddau gwybodaeth ac arwyddion yng nghefn gwlad yn un rheswm dros beidio ag ymweld â chefn gwlad. Crybwyllodd mwy na chwarter (27 y cant) y rheiny sy'n ymweld â chefn gwlad ddiffyg y fath wybodaeth yn rheswm am beidio â gwneud hynny'n amlach hefyd.

## Mae isadeiledd y cludiant yn rhwystr i gael mynediad i gefn gwlad

**2.86** Er y canfuom enghreifftiau o arfer da o ran cysylltu mynediad i gefn gwlad â chludiant cyhoeddus (gweler Astudiaeth Achos E), yn Arolwg Cartrefi CCGC yn hydref 2005 crybwyllodd 41 y cant o'r rheiny nad ydynt yn ymweld â chefn gwlad bod diffyg cludiant cyhoeddus yn rhwystr pwysig rhag ymweld â chefn gwlad. Crybwyllodd dau ddeg saith y cant o'r rheiny sydd yn ymweld â chefn gwlad fod diffyg cludiant cyhoeddus yn rheswm dros beidio â gwneud hynny'n amlach hefyd. Mae gan lawer o gymunedau yng Nghymru fynediad hawdd at gefn gwlad yn agos at eu cartrefi. Fodd bynnag, mae rhai o'r lleoliadau mwyaf poblogaidd yn anodd eu cyrraedd heb gludiant. Mae enghreifftiau'n cynnwys Eryri, Sir Benfro a Bannau Brycheiniog. Felly, mae diffyg cludiant cyhoeddus yn debygol o fod yn rhwystr i gynyddu mynediad i gefn gwlad, yn enwedig ymysg grwpiau sydd mewn perygl o gael eu heithrio'n gymdeithasol ac sydd yn berchen llai o geir preifat na gweddill y boblogaeth. I ymdrin â'r lefelau isel anghymesur hyn o fynediad at gefn gwlad ymysg y fath grwpiau, bydd gwelliannau i gludiant cyhoeddus yn hanfodol.

**2.87** Yn Arolwg Cartrefi CCGC, crybwyllodd 30 y cant o'r rheiny nad ydynt yn ymweld â chefn gwlad ddiffyg lle i barcio car yn rhwystr allweddol. Hefyd, crybwyllodd tri deg un y cant o'r rheiny sydd yn ymweld fod diffyg lle i barcio car yn rheswm am beidio â gwneud hynny'n amlach. Felly, rhaid i yrwyr fod yn hyderus y bydd digon o gyfleusterau diogel a hygyrch ar gyfer parcio ceir. Mae menter Goriad Gwyrdd Eryri yn enghraifft o beth cynnydd ynglŷn â'r mater hwn (Gweler Astudiaeth Achos E).

# Atodiad 1: Methodoleg

1 Ymdriniodd yr astudiaeth hon â'r cwestiwn, *a yw Cymru'n gwneud cynnydd da tuag at amcan Llywodraeth y Cynulliad o gynyddu mynediad cyhoeddus cyfrifol i gefn gwlad?* Ymdriniodd â'r ddau is-gwestiwn isod:

- Oes cynnydd da yn cael ei wneud tuag at gael mwy o gefn gwlad ar gael ac yn hygyrch i'r cyhoedd?; ac
- A yw'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwneud cynnydd da tuag at ymdrin â'r rhwystrau rhag cynyddu defnydd y cyhoedd ar gefn gwlad?

2 Roedd y gwaith maes yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau:

i **adolygu dogfennau** – archwiliom ffeiliau ac adroddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru a CCGC sy'n ymwneud â gweithredu CGHT Rhan 1.

ii **cyfweliadau lled-strwythuredig** â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a CCGC; uwch reolwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru; swyddogion y Fforwm Mynediad Cenedlaethol; Cyfarwyddwr y Cyngor Cydraddoldeb Hiliol; Anabledd Cymru; Cymdeithas y Cerddwyr Cymru; Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon (RhAPDd); Bwrdd Croeso Cymru (Croeso Cymru erbyn hyn); a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

iii **ymweld ag awdurdodau mynediad lleol** - ymwelom â Chyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Abertawe ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Roedd yr ymweliadau hyn yn cynnwys cyfweliadau lled-strwythuredig ag uwch swyddogion yr Adrannau Cefn Gwlad, cadeirydd y fforwm mynediad lleol, cadeiryddion Cynghorau Cymuned, cynrychiolwyr y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a Chydlynwyr Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Aethom ar ymweliadau mwy canolbwyntiedig ag Adrannau Cefn Gwlad Cynghorau Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chastell-nedd Port Talbot, Cynghorau Sir Powys, Penfro a Chaerfyrddin, Cyngor Bro Morgannwg ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Ymwelom hefyd â Valeways, sef mudiad gwirfoddol ym Mro Morgannwg. Nod yr ymweliadau oed d archwilio themâu a godai o'n gwaith, dod o hyd i safbwynt yr awdurdodau mynediad lleol a nodi astudiaethau achos o arfer da i'w lledaenu drwy'r prosiect hwn.

iv **cyfweliadau dros y ffôn** – siaradom dros y ffôn ag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad; Un Llais i Gymru; ac â nifer o Adrannau Cefn Gwlad awdurdodau mynediad lleol eraill mewn perthynas â'r astudiaethau achos.

v **samplo achosion** - archwiliom ffeiliau achos i weld sut yr ymdriniai'r CCGC â sylwadau gan dirfeddianwyr ar ôl cyhoeddi'r mapiau CGHT drafft; ac i ystyried sut yr ymdriniai'r Arolygiaeth Gynllunio ag apeliadau gan dirfeddianwyr yn erbyn darpar fapiau'r CGHT.



vi **arolygon** - cynhaliwyd cyfres o arolygon gennym. Ein prif arolwg oedd arolwg o bob un o'r 25 o awdurdodau mynediad lleol. Hefyd, arolygom gadeiryddion y 29 o fforymau mynediad lleol, samplau ar hap o 500 o aelodau Cymdeithas y Cerddwyr Cymru a 500 o dirfeddianwyr yr effeithiwyd arnynt gan CGHT Rhan 1, pob un o 38 o aelodau'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol a phob un o'r 27 o Grwpiau Mynediad Lleol. Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfraddau ymateb am bob un o'r arolygon a gynhaliwyd gennym. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a ymatebodd i'r arolygon hyn ac i CCGC, Anabledd Cymru a Chymdeithas y Cerddwyr am eu cymorth wrth ddosbarthu. Rydym hefyd yn ddiolchgar i CCGC ac Ymchwil Beaufort am ganiatáu i ni dynnu ar a chyfrannu cwestiynau at Arolwg Cartrefi CCGC (arolwg dros y ffôn o bobl yng Nghymru) yn 2005.

| Arolwg | yfradd ymateb (y cant) |
|---|---|
| Awdurdodau mynediad lleol | 100 |
| Cadeiryddion fforymau mynediad lleol | 100 |
| Aelodau Cymdeithas y Cerddwyr Cymru | 32 |
| Grwpiau Mynediad Lleol | 30 |
| Aelodau'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol | 29 |
| Tirfeddianwyr y mae'r Ddeddf CGHT yn effeithio arnynt | 16 |

## Panel o arbenigwyr

Sefydlom banel o 17 o arbenigwyr ar faterion mynediad cefn gwlad i gynnig cyngor i dîm yr astudiaeth trwy gydol y prosiect. Rydym yn ddiolchgar i aelodau'r panel am eu cyngor a'u sylwadau ar gwmpas y prosiect, ar gynllun a chynnwys ein harolygon, ac ar faterion perthnasol a ymddangosodd yn ystod y gwaith maes.

Cynhaliom gyfarfod o'r panel ar ddiwedd y gwaith maes i drafod ein canfyddiadau ac argymhellion posibl. Cynigiodd aelodau'r panel hefyd adborth lefel uchel ar ddrafft gyntaf yr adroddiad hwn. Ceir enwau aelodau ein panel o arbenigwyr isod.

| | |
|---|---|
| Richard Ball | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Gill Berntsen | Bwrdd Croeso Cymru |
| Kevin Bishop | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Jont Bulbeck | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Graham Findlay | Anabledd Cymru |
| Paul Griffiths | Cyngor Sir Powys |
| Peter Harwood | Un Llais i Gymru |
| Dafydd Jarrett | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |
| Norman Liversuch | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Rhian Nowell-Phillips | Undeb Amaethwyr Cymru |
| Mike Ogden* | Cadeirydd, Fforwm Cenedlaethol y Fforymau Mynediad Lleol |
| Beverley Penney | Cymdeithas y Cerddwyr Cymru |
| Bryan Riddleston | Cadeirydd, Fforwm Mynediad Cenedlaethol |
| Julian Salmon | Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad |
| Howard Sutcliffe | Cyngor Sir Ddinbych |
| Clive Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Bruce Wallace | Cyngor Sir Gâr |

* Ar ôl hynny, ni cheisiodd ailenwebiad i'r Fforymau Mynediad Lleol



# Atodiad 2: Dosbarthiad tir CGHT yn ôl awdurdod mynediad lleol

| Awdurdod | Canran o gyfanswm y Tir Mynediad Agored yng Nghymru (%) |
|---|---|
| Ynys Môn | 0.5 |
| Blaenau Gwent | 1.0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1.3 |
| Caerffili | 1.4 |
| Caerdydd | 0.1 |
| Sir Gâr | 6.9 |
| Ceredigion | 15.8 |
| Conwy | 2.1 |
| Sir Ddinbych | 3.5 |
| Sir y Fflint | 0.3 |
| Gwynedd | 2.2 |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 28.1 |
| Merthyr Tudful | 0.7 |
| Sir Fynwy | 0.7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2.9 |
| Casnewydd | 0.3 |
| Sir Benfro | 0.2 |
| Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 1.3 |
| Powys | 21.6 |
| Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 13.9 |
| Rhondda Cynon Taf | 2.6 |
| Abertawe | 1.4 |
| Torfaen | 0.8 |
| Bro Morgannwg | 0.1 |
| Wrecsam | 1.2 |

Cronnir yr holl ffigurau i'r 0.1 y cant agosaf.

# Atodiad 3: Seiliwyd dosbarthu adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu CGHT gan Lywodraeth y Cynulliad ar boblogaeth ac arwynebedd tir yn hytrach nag ar hyd yr hawliau tramwy

| Awdurdod | hwydwaith Hawliau Tramwy yng Nghymru (%)[1] | oblogaeth (2004) (000oedd)[2] | Arwynebedd Tir (milltiroedd sgwâr)[3] | lynyddol CGHT Llywodraeth y Cynulliad o 2004/2005 (%)[2] |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 3.0 | 68.7 | 275 | 5.6 |
| Blaenau Gwent | 0.8 | 68.8 | 42 | 1.3 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1.8 | 130.4 | 97 | 2.7 |
| Caerffili | 2.6 | 170.7 | 107 | 3.2 |
| Caerdydd | 0.6 | 316.8 | 54 | 5.2 |
| Sir Gâr | 7.1 | 177.6 | 915 | 8.3 |
| Ceredigion | 7.1 | 78.1 | 693 | 6.1 |
| Conwy | 4.8 | 111.8 | 434 | 3.9 |
| Sir Ddinbych | 5.9 | 95.6 | 323 | 5.2 |
| Sir y Fflint | 3.0 | 150.1 | 169 | 4.0 |
| Gwynedd | 10.7 | 118.1 | 979 | 6.3 |
| Merthyr Tudful | 0.2 | 55.1 | 43 | 1.0 |
| Sir Fynwy | 6.1 | 87.2 | 328 | 4.6 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2.0 | 135.8 | 170 | 3.1 |
| Casnewydd | 1.0 | 139.5 | 74 | 2.5 |
| Sir Benfro | 6.6 | 117.3 | 625 | 4.8 |
| Powys | 28.4 | 130.7 | 2000 | 13.6 |
| Rhondda Cynon Taf | 2.1 | 231.8 | 164 | 4.4 |
| Abertawe | 1.7 | 225.5 | 146 | 6.6 |
| Tor-faen | 0.9 | 90.4 | 49 | 1.6 |
| Bro Morgannwg | 1.6 | 122.3 | 128 | 2.7 |
| Wrecsam | 2.4 | 130.2 | 195 | 3.2 |

*Source: 1 CCW , 2 Welsh Assembly Government, 3 Welsh Local Government Data Unit.*

**Nodyn 1**
Er bod y cyfanswm wedi parhau yn £2.4 miliwn, dim ond poblogaeth ac arwynebedd tir a gymerwyd i ystyriaeth yn nosbarthiad gwreiddiol y cyllid rhwng yr awdurdodau lleol yn 2001/2002, tra ychwanegodd Llywodraeth y Cynulliad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn yr ardal at fformiwla 2002/2003 (paragraff 1.29).

**Nodyn 2**
Byddai'r fformiwla dosbarthiad gwreiddiol wedi defnyddio data poblogaeth cynharach gan nad oedd canlyniadau cyfrifiad 2001, a ddefnyddir yn y tabl hwn, ar gael ar y pryd.



# Atodiad 4: Mae awdurdodau mynediad lleol wedi treulio cyfran gynyddol o'r adnoddau ychwanegol sy'n ymwneud â CGHT ac a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar weithredu CGHT

| | Gwariant adnoddau CGHT ychwanegol (£) | | | Cyllid blynyddol CGHT Llywodraeth y Cynulliad (£)[1] |
|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod** | **2002/2003** | **2003/2004** | **2004/2005** | **2004/2005** |
| nys Môn[2] | 41,500 | – | – | 135,000 |
| Blaenau Gwent | 7,000 | 7,111 | 19,666 | 31,000 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 61,000 | 66,858 | 74,889 | 64,000 |
| Caerffili | 85,000 | 83,182 | 96,907 | 76,000 |
| Caerdydd | 75,000 | 139,010 | 165,725 | 125,000 |
| Sir Gâr | 70,000 | 224,000 | 224,000 | 200,000 |
| Ceredigion[3] | 101,000 | 162,000 | 162,000 | 146,000 |
| Conwy[4] | 70,000 | 50,500 | 52,500 | 93,000 |
| Sir Ddinbych | 56,549 | 121,476 | 121,476 | 124,000 |
| Sir y Fflint | 100,000 | 81,625 | 95,565 | 95,000 |
| Gwynedd | 27,841 | 93,288 | 147,060 | 151,000 |
| Merthyr Tudful | 28,000 | 36,000 | 36,000 | 25,000 |
| Sir Fynwy | 70,000 | 78,415 | 87,709 | 111,000 |
| Castell-nedd Port Talbot | 85,000 | 87,000 | 93,500 | 75,000 |
| Casnewydd[2] | – | – | – | 61,000 |
| Sir Benfro[5] | 128,000 | 365,000 | 370,000 | 116,000 |
| Powys | 131,000 | 341,000 | 342,000 | 326,000 |
| Rhondda Cynon Taf | 76,000 | 115,000 | 127,000 | 105,000 |
| Abertawe | 44,000 | 29,000 | 65,000 | 159,000 |
| Tor-faen | 23,000 | 23,000 | 28,000 | 39,000 |
| Bro Morgannwg | 93,385 | 96,100 | 115,000 | 65,000 |
| Wrecsam | 14,000 | 87,000 | 89,000 | 77,000 |
| **Cyfanswm y gwariant yr adroddwyd amdano** | **1,387,275** | **2,286,565** | **2,512,997** | **2,399,000** |
| Canran o'r cyfanswm blynyddol o £2.4 miliwn | 58 per cent | 95 per cent | 105 per cent | |

**Nodyn 1**
Er bod y cyfanswm wedi parhau yn £2.4 miliwn, dim ond poblogaeth ac arwynebedd tir a gymerwyd i ystyriaeth yn nosbarthiad gwreiddiol y cyllid rhwng yr awdurdodau lleol yn 2001/2002, tra ychwanegodd Llywodraeth y Cynulliad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn yr ardal at fformiwla 2002/2003 (paragraff 1.29)

**Nodyn 2**
Nid oedd Cyngor Sir Ynys Môn na Chyngor Dinas Casnewydd yn gallu cynnig ffigurau (paragraff 1.33).

**Nodyn 3**
Yn dilyn hyn, adroddodd Cyngor Sir Ceredigion wall wrth gyfrifo'r cyfanswm a wariwyd ganddo yn ystod 2002/2003. Erbyn hyn, mae'n adrodd gwariant o £162,000 ar gyfer y flwyddyn honno (paragraff 1.33).

**Nodyn 4**
Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi adrodd y caed gwall wrth gyfrifo'r cyfanswm y bu'n ei wario. Erbyn hyn mae'n adrodd gwariant ychwanegol o £25,000 ym mhob un o'r blynyddoedd yn y tabl uchod (paragraff 1.33).

**Nodyn 5**
Mae ffigurau Cyngor Sir Penfro yn cynnwys gwariant ar gynnal a chadw hawliau tramwy ar wahân i'r rheiny sy'n cynnig mynediad at dir CGHT (paragraff 1.33).

*Ffynhonnell: Ffigurau awdurdodau mynediad lleol i Lywodraeth y Cynulliad*



# Atodiad 5: Mae perfformiad yn erbyn dangosydd perfformiad Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer pa mor hawdd y gall y cyhoedd ddefnyddio hawliau tramwy yn isel, a gwnaethant gwympo rhwng 2003 a 2005

| Awdurdod Lleol | Canran yr hawliau tramwy sy'n hawdd eu defnyddio | |
|---|---|---|
| | 2002/2003 | 2004/2005 |
| Ynys Môn | 40 | 45 |
| Blaenau Gwent | 88 | 96 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 53 | 26 |
| Caerffili | 85 | 85 |
| Caerdydd | 34 | 53 |
| Sir Gâr | 9 | 20 |
| Ceredigion | 27 | 36 |
| Conwy | 57 | 36 |
| Sir Ddinbych | 65 | 67 |
| Sir y Fflint | 53 | 58 |
| Gwynedd | 44 | 30 |
| Merthyr Tudful | 49 | 80 |
| Sir Fynwy | – | 47 |
| Castell-nedd Port Talbot | 77 | 63 |
| Casnewydd | 47 | 54 |
| Sir Benfro | 34 | 45 |
| Powys | 46 | 35 |
| Rhondda Cynon Taf | 52 | 64 |
| Abertawe | 50 | 51 |
| Tor-faen | 37 | 49 |
| Bro Morgannwg | 57 | 54 |
| Wrecsam | 22 | 39 |
| **Cymru**[2] | **43.7** | **40.6** |

Ni ddefnyddiwyd ffigurau 2003/04 yn ganllaw dibynadwy i sefyllfa cydymffurfio â dangosydd perfformiad 6.10 ar draws Cymru, am y rhoddodd un awdurdod mynediad lleol wybod wedi hyn am wallau sylweddol yn ei ffigurau a fyddai wedi achosi amrywiad cymaint â 5 y cant yng nghyfanswm Cymru.

**Nodyn 1**
Ni chyflwynodd Sir Fynwy ffigur ar gyfer 2002/2003

**Nodyn 2**
Mae cyfansymiau Cymru yn cymryd i ystyriaeth yr amrywiadau sylweddol yn hyd cymharol y rhwydweithiau hawliau tramwy yn yr ardaloedd awdurdod lleol gwahanol, e.e. mae gan Bowys 6250 milltir, ac mae gan Ferthyr Tudful 40 milltir.

*Fynhonnell: Uned Ddata Llywodraeth Leol:*
*(http://www.lgdu-wales.gov.uk/Documents/Project/PIs/ADS06000 Spreadsheet__ for publishing 200405_eng.xls).*

Yn ôl dangosydd perfformiad 6.10 Llywodraeth Cynulliad Cymru, rhaid i lwybrau fodloni pob un o'r tri maen prawf canlynol i fod yn rhai hawdd eu defnyddio:

- rhaid bod arwyddion o'r ffordd fetel agosaf;
- rhaid i'r llwybr fod yn rhydd o rwystrau anghyfreithlon neu unrhyw ymyrraeth arall; a
- rhaid bod y wyneb a rhwystrau cyfreithlon, fel camfeydd, mewn cyflwr digon da i ganiatáu i'r cyhoedd ei ddefnyddio heb ormod o anghyfleustra.

Mae'n bosibl, felly, bod cyfran fawr o lwybrau troed sir ar agor, gyda'r wyneb mewn cyflwr da, ond bod y cydymffurfiad â dangosydd perfformiad 6.10 yn isel o hyd am nad yw'r llwybrau hyn wedi'u harwyddo'n dda. Mae Sir Gâr yn enghraifft dda o hyn, gyda mwy na 50 y cant o'i llwybrau troed ar agor a chanddynt wyneb da, ond gydag arwyddion ar 20 y cant ohonynt yn unig.

Mae awdurdodau lleol yn dewis sampl o 5 y cant o'r rhwydwaith hawliau tramwy ac yn cynnal hunanasesiad yn ôl y meini prawf hyn, sy'n cynhyrchu'r data cydymffurfio yn y tabl uchod (paragraffau 2.68-2.69).

Seilir cyfartaleddau cenedlaethol Cymru ar bwysoliad sy'n cysylltu cyfradd gydymffurfio ganrannol wirioneddol y sampl ar hap a ddewisir gan bob Awdurdod lleol, â chyfanswm hyd y rhwydwaith hawliau tramwy yn yr awdurdod lleol hwnnw.

Cyfrifoldeb yr awdurdod priffyrdd lleol yw llwybrau troed. O ganlyniad, nid oes unrhyw ofyniad ar i'r Parciau Cenedlaethol gynhyrchu ffigur ar gyfer eu perfformiad yn erbyn dangosydd perfformiad 6.10. O ganlyniad, caiff llwybrau troed yn y tri pharc cenedlaethol eu monitro gan yr awdurdod lleol perthnasol.